



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 29 Ionawr 2008
Tuesday, 29 January 2008**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister
- 31 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement
- 40 Datganiad am Gau Glofa'r Tŵr
Statement on the Closure of Tower Colliery
- 46 Atal Rheolau Sefydlog
Suspension of Standing Orders
- 47 Dadl Cyfnod 1 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r
GIG o dan Reol Sefydlog Rhif 23.28
Stage 1 Standing Order No. 23.28 Debate on the NHS Redress Measure
- 70 Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer
- 71 Setliad Llywodraeth Leol
The Local Government Settlement

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Galwaf y Cynulliad i drefn.

The Presiding Officer: I call the Assembly to order.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Post Office Closures

Q1 Mohammad Asghar: Will the First Minister make a statement on the effect of post office closures in South Wales East? OAQ(3)0668(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Post office policy is non-devolved, with lead responsibility resting with the Department of Business, Enterprise and Regulatory Reform. We have made it clear that we expect the post office closure programme to be sensitive to our particular needs in supporting some of our vulnerable communities in Wales.

Mohammad Asghar: Thank you, First Minister, but I am not satisfied with your answer. There are 25 post offices under threat in Gwent and five closures in Merthyr and Rhymney have been confirmed. It is the local community that bears the brunt of the problem. We know that you have a pensioner's pass-book and pension book, but you have not had the pleasure of meeting people in post offices, at the grass roots. We need to listen to these people as they raise their problems. They meet regularly, every week, to share their problems and to help each other. This is what comes through to us afterwards. Will you keep these post offices open, and how will you use your powers to ensure that?

The First Minister: We all use our local post office as much as we can. A post office is sometimes, as you say, the lifeblood of a community because you get a whole range of social problems that accidentally comes across the doorstep of the people who run it. Your question is better directed at the Westminster Government as it has the lead responsibility in this regard. What we can do, we do. For example, our rating reform, which

Cau Swyddfeydd Post

C1 Mohammad Asghar: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith cau swyddfeydd post yn Nwyrain De Cymru? OAQ(3)0668(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Nid yw polisi swyddfa'r post wedi'i ddatganoli, a'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio sy'n bennaf cyfrifol amdano. Yr ydym wedi egluro ein bod yn disgwyl i'r rhaglen cau swyddfeydd post fod yn sensitif i'n hanghenion penodol o ran cefnogi rhai o'n cymunedau agored i niwed yng Nghymru.

Mohammad Asghar: Diolch ichi, Brif Weinidog, ond nid wyf yn fodlon â'ch ateb. Mae 25 swyddfa bost yn y fantol yng Ngwent a chadarnhawyd y bydd pump yn cau ym Merthyr ac yn Rhymni. Y gymuned leol sy'n dioddef fwyaf yn sgîl y broblem. Yr ydym yn gwybod bod gennych lyfr pensiynwr a llyfr pensiwn, ond nid ydych wedi cael y fraint o gwrdd â phobl mewn swyddfeydd post, ar lawr gwlad. Mae angen inni wrando ar y bobl hyn wrth iddynt leisio'u problemau. Maent yn cwrdd yn rheolaidd, bob wythnos, i rannu eu problemau ac i helpu ei gilydd. Hyn sy'n cael ei gyfleu i ni wedyn. A wnewch gadw'r swyddfeydd post hyn ar agor, a sut y defnyddiwch eich pwerau i sicrhau hynny?

Y Prif Weinidog: Yr ydym i gyd yn defnyddio ein swyddfa bost leol mor aml ag y gallwn. Fel y dywedwch, swyddfa bost yw enaid cymuned yn aml oherwydd cewch amryw byd o broblemau cymdeithasol sy'n digwydd dod dros riniog y bobl sy'n ei rhedeg. Byddai'n well cyfeirio eich cwestiwn at Lywodraeth San Steffan gan mai'r Llywodraeth honno sy'n bennaf cyfrifol am hyn. Yr ydym yn gwneud yr hyn y gallwn ei

has exempted a large number of post offices from rates, has been of significant financial benefit to post offices. We understand that Post Office Ltd will reduce the number of post offices in the UK from 14,500 to 12,000. It has made that decision; it is not our decision. It is the Westminster Government's decision.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): The First Minister has made it clear, and is quite right, that it is the Labour Government at Westminster that is dictating policy on post office closure, as it is the only shareholder in Post Office Ltd. Would the First Minister accept that 324 post offices in Wales have been closed since devolution, and another 250 are scheduled for closure? This equates to a third of the network. The First Minister met Paul Murphy yesterday—I offer congratulations to Paul Murphy on his appointment, or reappointment—and I hope that he impressed upon him the need to stop this closure programme; it can be stopped at Westminster by Labour.

It is Labour at Westminster that is also starving the post offices of business. The First Minister mentioned that we all use our local post office. We try to do that, but there are an increasing number of things, such as renewing our car tax or passport, or collecting a pension, that cannot be done at the post office. We can seek to stop the Westminster Government from starving the post offices of the business that they need and from causing death by a 1,000 cuts. On that point, perhaps the First Minister can talk about the business that the Assembly Government, and local government through the Assembly Government, can seek to divert to post offices so that they are more vibrant.

The First Minister: It is a matter for us to seek to co-operate as much as we can in trying to make it possible for post offices to win more business and to be economically viable. That is why I mentioned the rating reform that we introduced, which has been of enormous benefit to post offices. I do not have to hand information on the exact percentage of post offices that will benefit

wneud. Er enghraifft, mae diwygio ein hardrethi, sydd wedi eithrio nifer fawr o swyddfeydd post rhag ardrethi, wedi bod o fudd ariannol sylweddol i swyddfeydd post. Yr ydym yn deall y bydd Swyddfa'r Post Cyf yn lleihau nifer y swyddfeydd post yn y DU o 14,500 i 12,000. Mae wedi gwneud y penderfyniad hwnnw; nid ein penderfyniad ni ydyw. Penderfyniad Llywodraeth San Steffan ydyw.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Mae'r Prif Weinidog wedi datgan yn glir, ac mae yn llygad ei le, mai Llywodraeth San Steffan sy'n pennu'r polisi ar gau swyddfeydd post, gan mai hi yw unig gyfrandaliwr Swyddfa'r Post Cyf. A fyddai'r Prif Weinidog yn derbyn bod 324 o swyddfeydd post yng Nghymru wedi cael eu cau ers datganoli, a bod 250 arall i fod i gau? Mae hynny'n draean y rhwydwaith. Cyfarfu'r Prif Weinidog â Paul Murphy ddoe—yr wyf yn llongyfarch Paul Murphy ar ei benodiad, neu ei ailbenodiad—a gobeithiaf iddo roi ar ddeall iddo fod angen atal y rhaglen hon i gau swyddfeydd post; gall Llafur ei hatal yn San Steffan.

Llafur yn San Steffan sydd hefyd yn amddifadu swyddfeydd post o fusnes. Soniodd y Prif Weinidog ein bod i gyd yn defnyddio ein swyddfa bost leol. Yr ydym yn ceisio gwneud hynny, ond ceir nifer gynyddol o bethau, megis adnewyddu ein treth car neu ein pasport, neu gasglu pensiwn, na ellir eu gwneud mewn swyddfa bost mwyach. Gallwn geisio atal Llywodraeth San Steffan rhag amddifadu swyddfeydd post o'r busnes y mae ei angen arnynt gan eu lladd bob yn dipyn. Ar y pwynt hwnnw, efallai y gall y Prif Weinidog siarad am y busnes y gall Llywodraeth y Cynulliad, a llywodraeth leol drwy Lywodraeth y Cynulliad, geisio'i droi at swyddfeydd post er mwyn iddynt fod yn fwy llewyrchus.

Y Prif Weinidog: Mae gofyn i ni geisio cydweithredu cymaint ag y gallwn i geisio'i gwneud yn bosibl i swyddfeydd post ennill rhagor o fusnes a bod yn hyfyw'n economaidd. Dyna pam y soniais am yr hyn a wnaethom wrth ddiwygio ardrethi, sydd wedi bod o fudd enfawr i swyddfeydd post. Nid yw'r wybodaeth gennyf wrth law am union ganran y swyddfeydd post a fydd yn elwa o'r

from the rate relief scheme, but the scheme probably has more impact on post offices than any other segment of small business. It was important for us to have introduced the scheme, and we are reaching the end of the first financial year in which the relief has been available to post offices to make them economically viable.

On the question of the areas of business that post offices have lost, they have been lost in competition. The Post Office is an unusual animal in that it is wholly owned by the Westminster Government, and it also owns the services that flow through the network, including benefits, car tax, and so on. These services have an element of competition that the Government has asked the Post Office to submit to. This is a bit new to the Post Office and it keeps losing competitions to provide television licences and car tax, and so on. It has to learn how to win more business of that nature on a competitive basis against alternative providers.

Nick Bourne: I do not recognise that last description as it was the Government's decision that car tax, pensions, television licences, driving licences and passports would no longer be handled at post offices. If they were able to handle that business, post offices would be much more viable. I come back to the serious issue that more than a third of the network will have closed under Labour's administration at Westminster and in Cardiff, given that around 250 are now scheduled for closure. It is actually well over a third, so even if that figure comes down a bit, it will still be a third of the network. I ask the First Minister again: has he raised that with Paul Murphy and, if not, will he do so? What type of business can the Assembly Government and local authorities put through the post offices to make them more viable?

I also want to raise another issue that concerns me, which is that you are going to seek to recover post office development fund moneys from post offices that are forced into closure by a Labour Government at Westminster. That seems totally inequitable,

cynllun rhyddhad ardrethi, ond mae'n debygol bod y cynllun yn cael mwy o effaith ar swyddfeydd post nag ar ddim un rhan arall o fusnesau bach. Yr oedd yn bwysig ein bod wedi cyflwyno'r cynllun ac yr ydym ar fin cyrraedd diwedd y flwyddyn ariannol gyntaf y mae'r rhyddhad wedi bod ar gael i swyddfeydd post i'w gwneud yn hyfyw'n economaidd.

O ran y meysydd lle y mae swyddfeydd post wedi colli busnes, cawsant eu colli mewn cystadleuaeth. Mae Swyddfa'r Post yn greadigaeth anghyffredin gan mai Llywodraeth San Steffan sy'n berchen llwyr arno, ac mae'n berchen hefyd ar y gwasanaethau sy'n llifo drwy'r rhwydwaith, gan gynnwys budd-daliadau, treth car, ac yn y blaen. Mae elfen o gystadleuaeth yn perthyn i'r gwasanaethau hyn y mae'r Llywodraeth wedi gofyn i Swyddfa'r Post ymostwng iddi. Mae hyn braidd yn newydd i Swyddfa'r Post ac mae byth a hefyd yn colli cystadlaethau i ddarparu trwyddedau teledu a threth car, ac yn y blaen. Rhaid iddi ddysgu sut y mae ennill rhagor o fusnes o'r fath ar sail gystadleuol yn erbyn darparwyr eraill.

Nick Bourne: Nid wyf yn gyfarwydd â'r disgrifiad diwethaf hwnnw gan mai'r Llywodraeth a benderfynodd na fyddai swyddfeydd post yn delio â threth car, pensiynau, trwyddedau teledu a phasportau mwyach. Petai modd iddynt ddelio â'r busnes hwnnw, byddai swyddfeydd post yn fwy hyfyw o lawer. Dof yn ôl at y mater difrifol y bydd dros draean y rhwydwaith wedi cau dan weinyddiaeth Llafur yn San Steffan ac yng Nghaerdydd, o ystyried bod tua 250 i fod i gau yn awr. A dweud y gwir mae'n llawer mwy na thraean, felly hyd yn oed petai'r ffigur hwnnw'n gostwng ychydig, byddai'n dal yn draean y rhwydwaith. Gofynnaf i'r Prif Weinidog eto; a yw wedi codi hynny â Paul Murphy ac, os nad ydyw, a wnaiff wneud hynny? Pa fath o fusnes y gall Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol ei roi drwy swyddfeydd post i'w gwneud yn fwy hyfyw?

Mae arnaf hefyd eisiau codi mater arall sy'n fy mhoeni, sef eich bod am geisio adennill arian cronfa datblygu swyddfeydd post gan swyddfeydd post y gorfodir iddynt gau gan Lywodraeth Llafur yn San Steffan. Mae hynny'n ymddangos yn rhywbeth hollol

and I hope that you will rethink it, because many sub-postmasters and sub-postmistresses find that quite objectionable and offensive, as do I.

The First Minister: We had a very brief meeting yesterday, and so there was not an opportunity to go through the agendas of different areas, but undoubtedly it will be an early agenda item when we have a properly scheduled meeting with Paul next week. I am sure that he is as aware as anyone of the impact of the closures on communities, especially where levels of deprivation are high and therefore the dependence on benefit payments, which are now lost to post offices, will have been at its highest—there therefore may have been an 80 per cent loss of business when benefits went over to being paid directly into people's bank accounts. I will look into your point—my understanding is that they are lost on a competitive basis. You think that that is not the case, and if I am wrong then I will write to you and set out the position and copy it to other Assembly Members.

On the post office development fund, we are anxious to reopen it. All the evidence is that when it was available, before this latest wave of closures was intimated, it proved remarkably successful in making post offices more viable. The proportion of the post offices that are now scheduled for closure that received money through the post office development fund is very small indeed. All of the evidence, therefore, is that it was targeted in the right way.

Nick Bourne: I do not disagree about the merits of the post office development fund. My party made this a great feature of our campaign and manifesto, and it was also in 'The All-Wales Accord' to put more money into it. I agree with that, but given that he says that there are a small number of post offices threatened with closure that have been in receipt of post office development fund money, does he not agree that it would be wholly wrong if those post offices, having been forced to close because of a closure programme that he himself has described as being driven from Westminster, then have to pay back money to the post office

anghyfiawn, a gobeithiaf y byddwch yn ei ailystyried, oherwydd y mae llawer o is-bostfeistri ac is-bostfeistresi yn ystyried hynny'n eithaf atgas a sarhaus, fel yr wyf finnau.

Y Prif Weinidog: Cawsom gyfarfod byr iawn ddoe, ac felly nid oedd cyfle i drafod agendâu gwahanol feysydd, ond yn ddiaw bydd yn eitem uchel ar yr agenda pan gawn gyfarfod a fydd wedi'i drefnu'n iawn gyda Paul yr wythnos nesaf. Yr wyf yn siŵr ei fod mor ymwybodol â neb o effaith y cau ar gymunedau, yn enwedig y cymunedau hynny lle y ceir lefelau uchel o amddifadedd ac felly lle y gwelwyd y ddibyniaeth fwyaf ar dalu budd-daliadau, taliadau y mae swyddfeydd post bellach wedi'u colli—efallai felly fod 80 y cant o fusnes wedi'i golli pan drosglwyddwyd budd-daliadau i gael eu talu'n uniongyrchol i gyfrifon banc pobl. Ymchwiliaf i'ch pwynt—caf ar ddeall iddynt gael eu colli ar sail gystadleuol. Yr ydych chi'n meddwl nad hynny a ddigwyddodd, ac felly os wyf yn anghywir, ysgrifennaf atoch a disgrifio'r sefyllfa ac anfonaf gopi at Aelodau eraill y Cynulliad.

O ran y gronfa datblygu swyddfeydd post, yr ydym yn awyddus i'w hailagor. Dengys yr holl dystiolaeth iddi fod yn llwyddiannus iawn pan oedd ar gael cyn cyhoeddi'r don ddiweddaraf hon o gau, o ran gwneud swyddfeydd post yn fwy hyfyw. Bach iawn yw cyfran y swyddfeydd post hynny sydd yn awr i fod i gau a gafodd arian drwy'r gronfa datblygu swyddfeydd post. Dengys yr holl dystiolaeth, felly, iddi gael ei thargedu yn y modd iawn.

Nick Bourne: Nid wyf yn anghytuno am rinweddau'r gronfa datblygu swyddfeydd post. Yr oedd hyn yn un o nodweddion mawr ymgyrch a manifesto fy mhlaidd, ac yr oedd rhoi rhagor o arian i'r gronfa hefyd yn rhan o 'Gytundeb Cymru Gyfan'. Yr wyf yn cytuno â hynny, ond o ystyried iddo ddweud mai nifer fach o'r swyddfeydd post sydd dan gysgod y fwyell a gafodd arian o'r gronfa datblygu swyddfeydd post, onid yw'n cytuno y byddai'n hollol anghywir petai'n rhaid i'r swyddfeydd post hynny ad-dalu'r arian i'r gronfa datblygu swyddfeydd post ar ôl iddynt gael eu gorfodi i gau oherwydd rhaglen cau y mae ef ei hun wedi'i disgrifio fel rhywbeth

development fund? That is wholly wrong, and I hope that he will revisit it. He is right that post offices serve vulnerable communities, and they are often run by the people in those communities. Having had the post office closed over their heads, being forced to hand back the money would be to add insult to injury. Will he reconsider that policy?

The First Minister: We are aware of the representations made by the Federation of SubPostmasters and are still in discussion with Post Office Ltd over the detail of how best to handle the requirement to repay the grant. We cannot simply write off grant money when a condition was placed on it that it would be repayable if the post office closed. It is about proper accountability for public money, and I am sure that you would be first to criticise if we did not exercise proper stewardship of public money issued by way of grants.

Christine Chapman: First Minister, you will be aware that, sadly, five post offices in my constituency will close. However, in a surprise move by the Post Office Ltd, the Perthcelyn branch has now been pinpointed for closure, following a reprieve of other post offices. A public consultation starts on 5 February. Perthcelyn is one of the most disadvantaged communities in Wales, and I know that half of the people living there are on benefits. I believe that the community would be badly let down were this vital service to be taken away from them. Would you agree, therefore, that we must do all that we can to ensure that this community is not abandoned, but revitalised, which means keeping the post office open? Will you assure me that you will make strong representations on this to your Westminster colleagues?

The First Minister: I will. It was a bit of a sting in the tail when Perthcelyn was added so late to the list, following the announcement of the saving of the post offices at High Street, Barry and in Splott Road. Leighton Andrews, the Deputy

sy'n cael ei ysgogi gan San Steffan? Mae hynny'n hollol anghywir, a gobeithiaf y bydd yn edrych ar hyn eto. Mae'n iawn bod swyddfeydd post yn gwasanaethu cymunedau sy'n agored i niwed a'u bod yn aml yn cael eu rhedeg gan y bobl yn y cymunedau hynny. Ar ôl i'r swyddfa bost gael ei chau heb fod ganddynt hwylais ynghylch y mater, byddai cael eu gorfodi i ddychwelyd yr arian yn rhoi halen yn y briw. A wnaiff ailystyried y polisi hwnnw?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn ymwybodol o'r sylwadau a wnaethpwyd gan Ffederasiwn yr Is-bostfeistri ac yr ydym yn dal i gynnal trafodaethau gyda Swyddfa'r Post Cyf ynghylch manylion y ffordd orau o ddelio â'r gofyniad i ad-dalu'r grant. Ni allwn ddileu arian grant pan oedd amodau'r grant hwnnw yn datgan y byddai'n rhaid ei ad-dalu petai'r swyddfa bost yn cau. Mae'n ymwneud ag atebolrwydd priodol am arian cyhoeddus, ac yr wyf yn siŵr mai chi fyddai'r cyntaf i feirniadu pe na fyddem yn arfer stiwardiaeth briodol gydag arian cyhoeddus a roddir drwy grantiau.

Christine Chapman: Brif Weinidog, byddwch yn gwybod y bydd pum swyddfa bost yn fy etholaeth yn cau, yn anffodus. Fodd bynnag, mewn tro pedol annisgwyl gan Swyddfa'r Post Cyf, mae cangen Perthcelyn wedi'i dewis ar gyfer ei chau, wedi i swyddfeydd post eraill gael eu hachub. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn dechrau ar 5 Chwefror. Mae Perthcelyn yn un o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a gwn fod hanner y bobl sy'n byw yno ar fudd-daliadau. Credaf y byddem yn gwneud tro gwael iawn â'r gymuned petai'r gwasanaeth hanfodol hwn yn cael ei ddwyn oddi arnynt. A fyddech yn cytuno, felly, fod yn rhaid inni wneud popeth a allwn i sicrhau na chefnir ar y gymuned hon, ond ei bod yn cael ei hailfywiogi, sy'n golygu cadw'r swyddfa bost ar agor? A wnewch fy sicrhau y byddwch yn cyflwyno sylwadau cryf i'ch cyd-aelodau yn San Steffan?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Yr oedd ychwanegu Perthcelyn at y rhestr mor hwyr yn siom annisgwyl, yn dilyn cyhoeddi achub y swyddfeydd post yn y Stryd Fawr, y Barri ac ar Ffordd Sblot. Cododd Leighton Andrews, y Dirprwy Weinidog dros

Minister for Regeneration, as the Minister responsible for post offices, did raise this issue with Post Office Ltd at a meeting this morning. The Post Office Ltd has given its explanation, but that is not the end of the story; this is the beginning of consultation. Perthcelyn is a classic example of the post offices that I mentioned earlier. It probably suffered a huge knock when benefit payments stopped being paid there, and needs a bit more time to build up other value-added businesses to take their place.

Adfywio, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am swyddfeydd post, y mater hwn gyda Swyddfa'r Post Cyf mewn cyfarfod y bore yma. Mae Swyddfa'r Post Cyf wedi rhoi ei esboniad, ond nid hynny yw diwedd y stori; dechrau'r ymgynghoriad yw hyn. Mae Perthcelyn yn enghraifft glasurol o'r swyddfeydd post a grybwyllais yn gynharach. Mae'n debygol iddi gael ergyd drom pan roddwyd y gorau i dalu budd-daliadau yno, ac mae angen ychydig mwy o amser arni i feithrin busnes arall sy'n ychwanegu gwerth i lenwi'r bwlch.

2.10 p.m.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): First Minister, do you agree that the last major infrastructure axe to fall on Britain came in the form of the Beeching cuts? We are only now slowly starting to recover and, in many cases, we never will. Beeching axed services that were vital to communities, and we are now seeking to re-establish them. Here we have an infrastructure being axed for the same reason: its profitability is more important than its role in promoting social inclusion. I listened carefully to what Christine said, and I agree entirely that the social inclusion role of post offices is crucial to many communities. Can you foresee a time, First Minister, when we, in the National Assembly, will need to reverse the damage of these post office cuts, in the same way as we are now trying to reverse that of the Beeching cuts?

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Brif Weinidog, a ydych yn cytuno mai'r fwyell fawr ddiwethaf i ddisgyn ar seilwaith Prydain oedd toriadau Beeching? Yn awr yr ydym yn dechrau cael ein traed danom ac, mewn llawer o achosion, ni wnawn hynny byth. Torrodd Beeching wasanaethau a oedd yn hanfodol i gymunedau, ac yr ydym yn awr yn ceisio eu hailsefydlu. Yma mae gennym seilwaith dan y fwyell am yr un rheswm; mae ei allu i wneud elw yn bwysicach na'i swyddogaeth o ran hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Gwrandewais yn astud ar yr hyn a ddywedodd Christine, ac yr wyf yn cytuno'n llwyr fod rôl swyddfeydd post o ran cynhwysiant cymdeithasol yn hanfodol i lawer o gymunedau. A allwch chi, Brif Weinidog, ragweld amser pan fydd angen i ni, yn y Cynulliad Cenedlaethol, myndro difrod cau'r swyddfeydd post hyn, yn yr un modd ag yr ydym yn awr yn ceisio gwydroi toriadau Beeching?

The First Minister: We have already done that in the sense that the original proposals to trim back the post office network were far more extensive than the current proposal, bad though that is. At one time, there was talk of reducing the network from 14,500 post offices to 8,000, but the current proposal is to take that figure down to 12,000, which still means that 2,500 post offices will be closed. The Government is now beginning to realise just what a difficult process that is, from the effective campaigns that have been led by local communities, MPs, AMs and others, asking why post offices are being closed when they perform such a valuable social

Y Prif Weinidog: Yr ydym eisoes wedi gwneud hynny gan fod y cynigion gwreiddiol i gwtogi ar y rhwydwaith swyddfeydd post yn fwy helaeth o lawer na'r cynnig presennol, er cynddrwg yw hwnnw. Bu adeg pan oedd sôn am leihau'r rhwydwaith o 14,500 o swyddfeydd post i 8,000, ond y cynnig ar hyn o bryd yw gostwng y ffigur hwnnw i 12,000, sy'n dal i olygu y caiff 2,500 o swyddfeydd post eu cau. Mae'r Llywodraeth yn awr yn dechrau sylweddoli proses mor anodd yw honno, ar sail yr ymgyrchoedd effeithiol a arweiniwyd gan gymunedau lleol, ASau, ACau ac eraill, yn gofyn pam mae swyddfeydd post yn cael eu cau a hwythau'n

function. The Government has agreed to continue with the subsidy of £150 million a year, I think, but even with that, Post Office Ltd will have to trim the network back from 14,500 to 12,000 post offices. That is far fewer than was proposed at one time. The important point is that the Government will continue the subsidy, but we must ensure that it realises that the closures have a different impact on more deprived communities.

Michael German: Therefore, the situation is bad but not as bad as it was a few years ago. However, we are losing a third of our network in Wales and a crucial part of our communities. Let us take Nantyglo post office for example. You have awarded it a post office development fund grant, but you must now reclaim that money, as it is a post office threatened with closure. In Pontnewynydd, in Paul Murphy's constituency, a local pharmacy and post office were built together, which resulted in a strong local service, but that is about to be ripped apart by the closure of the post office. If we are to follow that pattern of being driven totally by economics and not by social value to communities, the consequence will be that, in time, we are forced to replace those facilities with others. We cannot do that. Surely we should be standing up now to make our protest loud and clear to the Government, which has given this axe job to the Post Office Ltd to execute on its behalf.

The First Minister: That is precisely what we have done. We have pointed out very forcibly that removing benefit payments from post offices means that those post offices that serve the most deprived communities suffer the biggest loss of business, and therefore struggle to find alternative business. Businesses that serve less deprived areas are heaving with customers at all times, and so you would not want to close those down. Those post offices that used to have people queuing around the block to collect their benefits and now do not because benefits are paid directly to claimants need more time to build up alternative businesses, because of

cyflawni swyddogaeth gymdeithasol mor werthfawr. Mae'r Llywodraeth wedi cytuno i barhau â'r cymhorthdal o £150 miliwn y flwyddyn, yr wyf yn meddwl, ond hyd yn oed gyda hwnnw, bydd yn rhaid i Swyddfa'r Post gwtogi ar y rhwydwaith o 14,500 i 12,000 o swyddfeydd post. Mae hynny'n llai o lawer na'r nifer a gynigid ar un adeg. Y pwynt pwysig yw y bydd y Llywodraeth yn parhau â'r cymhorthdal, ond rhaid inni sicrhau ei bod yn sylweddoli bod cau'r swyddfeydd post yn cael effaith wahanol ar gymunedau sy'n fwy difreintiedig.

Michael German: Felly, mae'r sefyllfa'n wael, ond nid mor wael ag ydoedd rai blynyddoedd yn ôl. Fodd bynnag, yr ydym yn colli traean ein rhwydwaith yng Nghymru a rhan hanfodol o'n cymunedau. Gadewch inni ystyried swyddfa bost Nant-y-glo er enghraifft. Yr ydych wedi rhoi grant cronfa datblygu swyddfeydd post iddi, ond mae'n rhaid ichi yn awr adennill yr arian hwnnw, gan ei bod yn swyddfa bost y mae perygl iddi gael ei chau. Ym Mhontnewynydd, yn etholaeth Paul Murphy, adeiladwyd fferyllfa leol a swyddfa bost gyda'i gilydd, a arweiniodd at wasanaeth lleol cryf, ond mae hynny ar fin cael ei ddryllio wrth i'r swyddfa bost gau. Os ydym am ddilyn y patrwm hwnnw o ddilyn economeg yn ddiwyro yn hytrach na gwerth cymdeithasol i gymunedau, maes o law, y canlyniad yw y cawn ein gorfodi i gael cyfleusterau newydd yn lle'r rheini. Ni allwn wneud hynny. Oni ddylem fod yn sefyll ar ein traed yn awr i brotestio'n groch ac yn glir wrth y Llywodraeth, sydd wedi rhoi'r fwyell hon i Swyddfa'r Post ei defnyddio ar ei rhan.

Y Prif Weinidog: Dyna'n union yr ydym wedi'i wneud. Yr ydym wedi tynnu sylw'n gryf at y ffaith bod tynnu talu budd-daliadau o swyddfeydd post yn golygu mai'r swyddfeydd post hynny sy'n gwasanaethu'r cymunedau mwyaf difreintiedig sy'n colli mwyaf o fusnes, ac felly'n ei chael yn anodd dod o hyd i fusnes arall. Bydd busnesau sy'n gwasanaethu ardaloedd llai difreintiedig yn llawn cwsmeriaid drwy'r amser, ac felly ni fydddech am gau'r rheini. Mae angen mwy o amser i feithrin busnes arall, oherwydd natur y cymunedau a wasanaethant, ar y swyddfeydd post hynny a arferai fod dan eu sang am fod pobl yn codi eu budd-daliadau,

the nature of the communities that they serve. That is the point that we have made time and again, but we have not had any satisfactory answers.

Michael German: I welcome the fact that you feel like that, but we want a demonstrative position from the National Assembly and your Welsh Assembly Government at this difficult time. We know, and Christine alluded to it, that if you save one post office, the Post Office Ltd will obligingly close another in its place. Therefore, we are not identifying the best social community use of our post offices. If we can identify a strong, powerful case in favour of keeping one open, Post Office Ltd will just say, 'Well, we have to find one to close, so we will just toss another one into the grave'. Surely that is not the right way to establish what our communities need. The Assembly and your Government is responsible for community development, and I want to ensure that you are doing everything possible to retain these post offices and our strong and vibrant communities.

The First Minister: I cannot add anything to that. You are engaging in a little finger pointing without proposing any solution. Are you saying that the subsidy should be increased? In that case, your party would need to be able to show that it has a proposal for increasing the subsidy from £150 million to £200 million. I have not heard your party say that publicly, because it does not want to make public spending commitments before the next election, and so on. However, if you are going to finger-point, people will inevitably ask where the money will come from. What will you cut elsewhere in order to fund the increase in the post office subsidy? Otherwise, there is no point in making such statements; it is just grandstanding.

Jeff Cuthbert: Four sub-post offices are due to close in my constituency, and another four were closed some four years ago. That has meant quite a change for local people. There is no doubt that the usage of those sub-post offices has declined overall, as was confirmed to me by the sub-postmasters and sub-postmistresses concerned. However,

ond lle na welir y ciwiau hynny yn awr oherwydd bod y budd-daliadau'n cael eu talu'n uniongyrchol i'r hawlwyr. Dyna'r pwynt yr ydym wedi'i wneud dro ar ôl tro, ond nid ydym wedi cael atebion boddhaol.

Michael German: Croesawaf y ffaith eich bod yn teimlo felly, ond mae arnom eisiau safiad amlwg gan y Cynulliad Cenedlaethol a chan eich Llywodraeth yn y Cynulliad Cenedlaethol ar yr adeg anodd hon. Yr ydym yn gwybod, a soniodd Christine am hyn, os byddwch yn achub un swyddfa bost, y bydd Swyddfa'r Post Cyf yn cau un arall yn ei lle. Felly, nid ydym yn canfod y dull gorau, o ran y gymuned ac yn gymdeithasol, o ddefnyddio'n swyddfeydd post. Os gallwn ganfod achos cryf a phwerus o blaid cadw un ar agor, bydd Swyddfa'r Post Cyf yn dweud, 'Wel, mae'n rhaid inni ddod o hyd i un i'w chau, felly rhown y farwol i un arall'. Yn sicr nid dyna'r ffordd gywir o sefydlu'r hyn y mae ei angen ar ein cymunedau. Mae'r Cynulliad a'ch Llywodraeth yn gyfrifol am ddatblygu cymunedol, ac mae arnaf eisiau sicrhau eich bod yn gwneud popeth sy'n bosibl i gadw'r swyddfeydd post hyn a'n cymunedau cryf a bywiog.

Y Prif Weinidog: Ni allaf ychwanegu dim at hynny. Yr ydych yn pwyntio eich bys heb gynnig ateb. A ydych yn dweud y dylid cynyddu'r cymhorthdal? Os felly, byddai angen i'ch plaid ddangos bod ganddi gynnig ar gyfer cynyddu'r cymhorthdal o £150 miliwn i £200 miliwn. Nid wyf wedi clywed eich plaid yn dweud hynny ar goedd, oherwydd nid yw am wneud ymrwymadau ar wariant cyhoeddus cyn yr etholiad nesaf, ac yn y blaen. Fodd bynnag, os ydych am bwyntio bys, yna heb os bydd pobl yn gofyn o ble y daw'r arian. Ymhle y byddwch yn cwtogi er mwyn cynyddu'r cymhorthdal i swyddfeydd post? Fel arall, nid oes diben gwneud datganiadau o'r fath; dim ond dangos eich gorchest yr ydych.

Jeff Cuthbert: Mae pedair is-swyddfa bost i fod i gau yn fy etholaeth, a chaewyd pedair arall ryw bedair blynedd yn ôl. Mae hynny wedi arwain at newid sylweddol i bobl leol. Nid oes amheuaeth nad yw pobl yn defnyddio llai ar is-swyddfeydd post yn gyffredinol, a chadarnhawyd hynny imi gan yr is-bostfeistri a'r is-bostfeistresi dan sylw. Fodd bynnag,

when one looks at the age profile of users, it is clear that post offices are still well used by older people, who prefer to talk face to face than use the internet or telephone banking, and so on. Do you agree that it is crucial that, during the six-week consultation process, the Post Office Ltd looks very hard at issues such as the age profile and vulnerability of customers, in order to ensure that it is looking at the real position in terms of need?

The First Minister: To us, it is all about need, but Post Office Ltd's scoring system is not really about need; it is mostly about geographical location. It asks whether there is another post office within one mile, or whether 99 per cent of the population has a post office within three miles, and so on. Valleys communities will frequently have a post office in each village, but the villages are not three or four miles apart—they are one mile apart. That is the difference between rural areas and urban Valleys areas, and that is the way in which the population built up during the mining era. Therefore, the Valleys are particularly vulnerable under the current closure proposals. That is why as many as six post offices are earmarked for closure in Blaenau Gwent, although four would be a more typical figure right across the Glamorgan and Gwent valleys. The scoring system is particularly adverse in terms of the way in which it impacts upon the Valleys.

Trish Law: It appears that the Post Office Ltd has, in its trawl of post offices to close, paid little regard to the socioeconomic conditions of particular areas, other than to stipulate that 99 per cent of the population in deprived urban areas will be within one mile of a post office. The Post Office Ltd has not said that it will leave the network in deprived urban areas, such as Blaenau Gwent, substantially intact, as I believe it should have done. Disadvantaged groups of people—which are in abundance in my constituency—are particularly dependent on a vibrant post office service. However, the Post Office Ltd, with the support of successive Governments—

pan fyddwch yn edrych ar broffil oedran defnyddwyr, mae'n amlwg bod pobl hŷn yn dal i ddefnyddio swyddfeydd post, gan fod yn well ganddynt siarad wyneb yn wyneb yn hytrach na bancio dros y ffôn neu ar y we, ac yn y blaen. A ydych yn cytuno ei bod yn hanfodol, yn ystod y broses ymgynghori chwe wythnos, fod Swyddfa'r Post Cyf yn edrych yn ofalus iawn ar faterion megis proffil oedran ei gwsmeriaid a pha mor agored i niwed ydynt, er mwyn sicrhau eu bod yn edrych ar yr union sefyllfa sydd ohoni o ran angen?

Y Prif Weinidog: I ni, yr angen yw'r peth pwysicaf, ond nid yw system sgorio Swyddfa'r Post Cyf yn seiliedig ar angen mewn gwirionedd; yn hytrach, lleoliad daearyddol yw'r prif ffactor. Mae'n gofyn a oes swyddfa bost arall o fewn milltir, neu a oes swyddfa bost o fewn tair milltir i 99 y cant o'r boblogaeth, ac yn y blaen. Yn aml, bydd gan gymunedau yn y Cymoedd swyddfa bost ym mhob pentref, ond nid oes tair neu bedair milltir rhwng y pentrefi hyn—milltir yn unig sydd rhyngddynt. Dyna'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol y Cymoedd, a dyna sut y tyfodd y boblogaeth yn ystod cyfnod y gweithfeydd glo. Felly, mae sefyllfa'r Cymoedd yn arbennig o wan dan y cynigion presennol i gau swyddfeydd post. Dyna pam mae cynifer â chwe swyddfa bost wedi'u clustnodi i'w cau ym Mlaenau Gwent, er y byddai pedair yn ffigur mwy arferol ledled Morgannwg a chymoedd Gwent. Mae'r system sgorio'n hynod o anfanteisiol o ran ei heffaith ar y Cymoedd.

Trish Law: Wrth chwilio am swyddfeydd post i'w cau, mae'n ymddangos nad yw Swyddfa'r Post Cyf wedi rhoi llawer iawn o sylw i gyflwr economaidd-gymdeithasol ardaloedd penodol, dim ond datgan y bydd 99 y cant o'r boblogaeth mewn ardaloedd trefol difreintiedig o fewn milltir i swyddfa bost. Nid yw Swyddfa'r Post Cyf wedi dweud y bydd y rhwydwaith mewn ardaloedd trefol difreintiedig, megis Blaenau Gwent, yn cael llonydd at ei gilydd, fel y credaf y dylai fod wedi gwneud. Mae grwpiau difreintiedig o bobl—sy'n amlwg iawn yn fy etholaeth—yn hynod ddibynnol ar wasanaeth swyddfa bost ffyniannus. Fodd bynnag, mae Swyddfa'r Post Cyf, gyda chefnogaeth y naill

Lywodraeth ar ôl y llall—

The Presiding Officer: Order. Can we have a question, please?

Y Llywydd: Trefn. A gawn gwestiwn os gwelwch yn dda?

Trish Law: Certainly. Will you, First Minister, continue to make representations to impress upon the Post Office Ltd that post office closures in areas of severe deprivation, like Blaenau Gwent, can only lead to further deprivation?

Trish Law: Wrth gwrs. A wnewch chi, Brif Weinidog, barhau i gyflwyno sylwadau i roi ar ddeall i Swyddfa'r Post Cyf y byddai cau swyddfeydd post mewn ardaloedd difreintiedig iawn, megis Blaenau Gwent, yn sicr o arwain at fwy o amddifadedd?

The First Minister: Indeed. Blaenau Gwent holds the record, so far, with its six proposed closures. We need to get the point across that the way in which population is distributed in the Valleys means that the scoring system used by the Post Office Ltd puts post offices there at a high level of jeopardy. They are not protected by the three-mile rule, as that is not relevant in the Valleys. That rule is much more relevant in protecting post offices in what you might call rural or semi-rural areas. That is a real problem of the scoring system currently in use, and we will continue to make that point. We will also continue to make small business rate relief available, which has a particularly beneficial impact upon post offices. We are doing what we can.

Y Prif Weinidog: Yn wir. Ym Mlaenau Gwent y mae'r nifer fwyaf o swyddfeydd post dan fygythiad, gyda chynigion i gau chwech ohonynt. Mae angen inni gyfleu'r neges bod dosbarthiad y boblogaeth yn y Cymoedd yn golygu y bydd system sgorio Swyddfa'r Post Cyf yn peri bod mwy o swyddfeydd post yn y fan honno mewn perygl mawr. Ni chânt eu gwarchod gan y rheol tair milltir, gan nad yw hynny'n berthnasol yn y Cymoedd. Mae'r rheol honno'n llawer mwy perthnasol wrth warchod swyddfeydd post mewn ardaloedd y byddech yn eu galw'n wledig neu'n lled wledig. Dyna broblem sylfaenol y system sgorio sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd, a byddwn yn parhau i wneud y pwynt hwnnw. Byddwn hefyd yn parhau i gynnig rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, gan fod hynny'n fanteisiol iawn i swyddfeydd post. Yr ydym yn gwneud hynny a allwn.

Sports Facilities

Cyfleusterau Chwaraeon

Q2 Joyce Watson: Will the First Minister make a statement on the disaggregated budgets that outline expenditure on sports facilities in Wales? OAQ(3)0650(FM)

C2 Joyce Watson: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyllidebau sydd wedi'u dadgyfuno sy'n amlinellu gwariant ar gyfleusterau chwaraeon yng Nghymru? OAQ(3)0650(FM)

The First Minister: The Welsh Assembly Government supports a wide range of sporting activities, each with their own budgets. Our schemes for free swimming for young people and free swimming for people aged over 50 in local authority leisure centres, for example, are underpinned by specific funding streams.

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon, bob un ohonynt â'u cyllidebau eu hunain. Caiff ein cynlluniau i ddarparu nofio rhad ac am ddim i bobl ifanc ac i bobl dros 50 oed mewn canolfannau hamdden awdurdodau lleol, er enghraifft, eu seilio ar ffrydiau ariannu penodol.

2.20 p.m.

Joyce Watson: I welcome the initiatives that

Joyce Watson: Croesawaf y cynlluniau a

you outlined, which go a long way towards broadening and diversifying participation in sport and physical activity. However, would you not agree that, alongside delivering projects, it is important that data are collected and fed back to record who may or may not be benefiting from them? I have recently been made aware of the uncertain future of Harlech swimming pool, for example, and many residents are deeply concerned for the future of their local facility. Would you agree that ready access to reliable information would help to make the case for maintaining facilities under threat, such as Harlech swimming pool, as well as enabling policy makers to better address gaps in funding, participation and provision where they exist?

The First Minister: Indeed. I remember visiting that swimming pool many decades ago, when I used to go to Harlech regularly. It is the local authority's decision, and I presume that it is Gwynedd Council that has made the decision to close it in the autumn, I understand. I hope that alternative provision will be made for people who need the exercise, so that they can take advantage of free swimming in a local authority leisure pool, whether they are young or elderly. If there are no leisure pools within reasonable travelling distance, they will not get the health benefits of swimming for exercise, at a time when we are putting added emphasis on trying to ward off obesity among young people. An announcement was made today on the study about regular exercise keeping your chromosomes young or preventing ageing, and we encourage regular exercise through funding free swimming for older people. However, they cannot swim unless they have a leisure centre with a swimming pool reasonably close by.

William Graham: Will you join me in acknowledging the efforts of volunteers, particularly those who act as coaches, referees, groundsmen or caterers, who are so vital to the existence of grass-roots sport in Wales? Would your Government undertake to do more in partnership with the representative sporting and volunteering bodies to heighten awareness of the

amlinellasoeh, sy'n gwneud camau breision tuag at ehangu ac amrywio cyfranogaeth mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Fodd bynnag, oni fyddech yn cytuno, law yn llaw â chyflawni prosiectau, ei bod yn bwysig i ddata gael eu casglu a'u bwydo'n ôl er mwyn cofnodi'r rhai sy'n elwa ohonynt a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny? Tynnwyd fy sylw'n ddiweddar at ddyfodol ansicr pwll nofio Harlech, er enghraifft, ac mae llawer o drigolion yn poeni'n arw am ddyfodol eu cyfleuster lleol. A fyddech yn cytuno y byddai mynediad hwylus at wybodaeth ddibynadwy yn helpu i ddadlau'r achos dros gynnal cyfleusterau sydd dan fygythiad, megis pwll nofio Harlech, yn ogystal â helpu llunwyr polisïau i fynd i'r afael â'r bylchau sy'n bodoli mewn cyllid, cyfranogaeth a darpariaeth yn well?

Y Prif Weinidog: Yn wir. Cofiaf ymweld â'r pwll nofio hwnnw ddegawdau yn ôl erbyn hyn, pan oeddwn yn mynd i Harlech yn rheolaidd. Penderfyniad yr awdurdod lleol ydyw, ac yr wyf yn cymryd taw Cyngor Gwynedd sydd wedi gwneud y penderfyniad i'w gau yn yr hydref, yn ôl a ddeallaf. Gobeithiaf y bydd darpariaeth arall ar gael i bobl y mae angen iddynt wneud ymarfer corff, er mwyn i bobl ifanc neu bobl hŷn fanteisio ar nofio am ddim mewn pwll nofio awdurdod lleol. Os nad oes pyllau nofio o fewn pellter teithio rhesymol, yna ni fyddant yn gallu cael y manteision o ran iechyd sy'n dod yn sgîl nofio ar gyfer ymarfer corff, a hynny wrth inni roi mwy o bwyslais ar geisio mynd i'r afael â gordewdra ymhlith pobl ifanc. Gwnaethpwyd cyhoeddiad heddiw am astudiaeth am gadw'ch cromosomau'n ifanc ac atal heneiddio drwy ymarfer corff yn rheolaidd, ac yr ydym yn annog ymarfer corff rheolaidd drwy gyllido nofio am ddim i bobl hŷn. Fodd bynnag, ni allant nofio oni bai fod ganddynt ganolfan hamdden a phwll nofio ynddi yn y cyffiniau.

William Graham: A wnewch ymuno â mi i gydnabod ymdrechion gwirfoddolwyr, yn enwedig y rhai sy'n gweithio fel hyfforddwyr, dyfarnwyr, tirmyn neu arlwywyr, sydd mor hanfodol i fodolaeth chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru? A wnaiff eich Llywodraeth ymrwymo i wneud mwy mewn partneriaeth â chyrff chwaraeon a gwirfoddoli i godi ymwybyddiaeth o'r

opportunities?

The First Minister: There are some important paid coaches in Wales, including Warren Gatland of course, but that person is one among probably two or three dozen coaches who are not paid. There are thousands of coaches who participate on a voluntary basis in track and field athletics, rugby, soccer and all manner of sports for boys and girls. It is important that we ensure that they are encouraged to continue volunteering. There has been a bit of a wave of fear over the impact of Criminal Records Bureau checks and other things that can discourage people from coming forward as volunteer coaches. They should not. It is an honourable thing to be doing and an honourable tradition to be continuing. Good coaches working as volunteers at grass-roots level form the base of the pyramid of a healthy, sporting, skilled and successful nation.

David Lloyd: Yn dilyn yr un math o drywydd ac o gofio cyflwr iechyd ein gwlad, a ydych yn cytuno y dylid ei gwneud yn anoddach adeiladu tai ar feysydd chwarae yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Mae'r diffiniad o faes chwarae yn bwnc llosg ynddo'i hun, felly heb wybod am ba esiampl yr ydych yn cyfeirio ati, Dai, ni chredaf y dylwn roi ateb penodol. Wrth gwrs bod yr egwyddor yn gywir: dylid amddiffyn meysydd chwarae rhag ceisiadau cynllunio at unrhyw ddiben, a'u cadw yn feysydd chwarae. Mae honno'n egwyddor bwysig, er nad wyf yn gwybod am yr esiampl benodol yr ydych yn cyfeirio ati.

European Funding

Q3 Lesley Griffiths: What recent discussions has the First Minister had regarding European funding? OAQ(3)0648(FM)

The First Minister: I have had many recent discussions on European funding with my Cabinet colleagues, Jeff Cuthbert, as chair of the all-Wales programme monitoring committee, and representatives on the Welsh partnership, including from higher education and the private sector.

cyfleoedd?

Y Prif Weinidog: Mae rhai hyfforddwyr pwysig yng Nghymru yn cael eu talu, gan gynnwys Warren Gatland wrth gwrs, ond un person yn unig ydyw ymysg dau neu dri dwsin o hyfforddwyr eraill nad ydynt yn cael eu talu. Mae miloedd o hyfforddwyr yn cymryd rhan ar sail wirfoddol mewn athletau trac a maes, rygbi, pêl-droed a phob math o chwaraeon i fechgyn a merched. Mae'n bwysig inni sicrhau eu bod yn cael eu hannog i barhau i wirfoddoli. Cafwyd ton o bryder am effaith archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r pethau eraill sy'n gallu rhwystro pobl rhag cyflwyno'u hunain fel hyfforddwyr gwirfoddol. Ni ddylai hyn ddigwydd. Mae'n beth anrhydeddus i'w wneud ac yn draddodiad anrhydeddus i'w gynnal. Hyfforddwyr da sy'n gwirfoddoli ar lawr gwlad yw sail y pyramid ar gyfer gwlad iach, sgilgar a llwyddiannus sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon.

David Lloyd: To follow the same kind of path and bearing in mind the state of our nation's health, do you agree that we should make it harder to build houses on playing fields in Wales?

The First Minister: The definition of a playing field is a moot point in itself, so without knowing about the example that you refer to, Dai, I do not think that I should give you a specific answer. Of course the principle is right: playing fields should be defended from planning applications for any purpose, and they should be kept as playing fields. That is an important principle, although I do not know the precise example you refer to.

Cyllid Ewropeaidd

C3 Lesley Griffiths: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch cyllid Ewropeaidd? OAQ(3)0648(FM)

Y Prif Weinidog: Yr wyf wedi cael llawer o drafodaethau'n ddiweddar am gyllid Ewropeaidd gyda'm cyd-Aelodau yn y Cabinet, Jeff Cuthbert, fel cadeirydd y pwyllgor monitro rhaglenni Cymru gyfan, a chyda chynrychiolwyr ar bartneriaeth Cymru, gan gynnwys addysg uwch a'r sector preifat.

Lesley Griffiths: European structural funds are delivering a huge boost for companies in my constituency of Wrexham. A £30 million investment in the FibreSpeed project, managed by the Welsh European Funding Office, will give Wrexham industrial estate and technology park access to a fibre optic network in north Wales that will deliver high-speed broadband services to local companies. Does that not prove that Wales, specifically north Wales, can no longer be regarded as the poor relation in the UK when it comes to providing IT services for businesses? Will that not help Wrexham companies to have a real competitive edge over competitors in the south of England and London in the future?

The First Minister: I am glad that you made that point, because these new areas of infrastructure are as important in the twenty-first century as highways and railways were in the nineteenth and twentieth centuries. It is important that we do not say, 'Well, they will happen in London, and in the big cities like Manchester and Liverpool, but they will not come to Wales'. It is therefore important that we intervene early to ensure that we get fibre optic cables throughout Wales. FibreSpeed is an enormously important investment, because it stretches all the way from Wrexham industrial estate to Holyhead and back in a figure of eight. It will enable 14 north Wales business parks, including ones in Wrexham, to benefit from high-speed fibre optic cable and, therefore, the broadband services that flow from that.

Mark Isherwood: In Wrexham, a flexible childcare project for mothers accessing education, training and employment is an example of an organisation in receipt of European social fund money. It had to shut last year because of the end of ESF. It is nearly three years since I chaired a meeting in the Assembly held by NIACE Dysgu Cymru to warn the Assembly Government that such projects, which deliver education, training and access to work throughout Wales, would come to an end if transition provision were not in place. Wrexham council now tells me that it is only at the

Lesley Griffiths: Mae cronfeydd strwythurol Ewrop yn rhoi hwb anferth i gwmnïau yn fy etholaeth yn Wrecsam. Bydd buddsoddiad gwerth £30 miliwn yn y prosiect FibreSpeed, a reolir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yn cysylltu parc technoleg ac ystâd ddiwydiannol Wrecsam â rhwydwaith opteg ffibrau yn y gogledd a fydd yn cynnig gwasanaethau band eang cyflym iawn i gwmnïau lleol. Onid yw hynny'n profi na ellir trin Cymru, yn enwedig y gogledd, yn israddol o'i chymharu â gweddill y DU o ran darparu gwasanaethau TG i fusnesau? Oni fydd hynny'n helpu cwmnïau yn Wrecsam i gael mantais gystadleuol wirioneddol yn y dyfodol dros gwmnïau eraill sy'n cystadlu â nhw yn ne Lloegr ac yn Llundain?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn falch eich bod wedi codi'r pwynt hwnnw, oherwydd y mae'r meysydd newydd hyn o ran seilwaith cyn bwysiced yn yr unfed ganrif ar hugain ag yr oedd priffyrdd a rheilffyrdd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Mae'n bwysig inni ochel rhag dweud, 'Wel, bydd hyn yn digwydd yn Llundain, ac yn y dinasoedd mawr fel Manceinion a Lerpwl, ond ni fydd yn dod i Gymru'. Mae'n bwysig, felly, inni ymyrryd yn gynnar er mwyn sicrhau ein bod yn cael ceblau opteg ffibrau ledled Cymru. Mae FibreSpeed yn fuddsoddiad hynod o bwysig, gan ei fod yn ymestyn yr holl ffordd o ystâd ddiwydiannol Wrecsam i Gaergybi ac yn ôl ar siâp ffigur wyth. Bydd yn galluogi 14 o barciau busnes yn y gogledd, gan gynnwys rhai yn Wrecsam, i fanteisio ar gebl opteg ffibrau cyflym iawn ac, felly, y gwasanaethau band eang a ddaw yn sgîl hynny.

Mark Isherwood: Yn Wrecsam, mae prosiect gofal plant hyblyg ar gyfer mamau sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn enghraifft o fudiad a gafodd arian gan gronfa gymdeithasol Ewrop. Bu'n rhaid iddo gau y llynedd pan ddaeth y gronfa honno i ben. Mae tair blynedd bron wedi mynd heibio ers imi gadeirio cyfarfod yn y Cynulliad a gynhaliwyd gan NIACE Dysgu Cymru i rybuddio Llywodraeth y Cynulliad y byddai prosiectau o'r fath, sy'n darparu addysg, hyfforddiant a mynediad at waith ledled Cymru, yn dod i ben oni fyddai darpariaeth ar gael ar gyfer pontio. Yn awr,

stage of working up initial ideas with Flintshire, its partner county, as well as with the Welsh European Funding Office and the Welsh Assembly Government. Why has this delay occurred when we knew that this was coming? In the early part of 2008, we are in only the early stages of development, which means that so many key projects across Wales will have to come to an end or will now be threatened with a break in their service delivery.

The First Minister: I understand that we are meeting the transitional funding while an alternative is found. Genesis Cymru projects in large areas of Wales have been successful in providing the childcare back-up that enables single-parent mothers and others who have been unable to work before to get back to work. It is a highly successful series of projects since its original start in Rhondda Cynon Taf. You are right to bring this to the Assembly's attention. Sometimes, when the three-year funding for a project comes to an end, people struggle to find replacement funding, but I understand that we are funding the transitional period while alternative sources or a renewal of some slightly varied form of European or other external funding are sought.

Sandy Mewies: European funding is a great boost for those who can receive it. Some organisations have to rely on such sources as the Big Lottery Fund, which recently announced the results of its Stepping Stones programme. That was meant to allocate £15 million, but it actually allocated £7 million, none of which went to north Wales, for reasons I do not quite understand. First Minister, can you ask officials to look into this to reassure me that there is no bias and that these things are not affected by, say, the need to fill the gap created by money disappearing to the London Olympics?

The First Minister: We have made the point about the London Olympics before now as regards lottery funding. The Big Lottery Fund will be affected, and that will mean a desperate search for alternative funding for

mae cyngor Wrecsam yn dweud wrthyf mai newydd ddechrau y mae o ran llunio syniadau gyda sir y Fflint, y sir sy'n bartner iddo, yn ogystal â chyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Pam yr holl oedi gan ein bod yn gwybod bod hyn ar y gorwel? Ar ddechrau 2008, yr ydym newydd gychwyn ar y camau cyntaf o ran datblygu, sy'n golygu y bydd cynifer o brosiectau allweddol ledled Cymru yn gorfod dod i ben neu y bydd bygythiad y bydd bwch yn y gwasanaeth a ddarparant.

Y Prif Weinidog: Deallaf ein bod yn darparu'r cyllid pontio nes canfyddir ateb arall. Mae prosiectau Genesis Cymru mewn rhannau helaeth o Gymru wedi bod yn llwyddiannus o ran darparu'r gefnogaeth gofal plant i alluogi mamau sy'n rhieni sengl, ac eraill sydd wedi methu â chael gwaith o'r blaen, i ddychwelyd i waith. Mae'n gyfres hynod lwyddiannus o brosiectau a gychwynnodd yn wreiddiol yn Rhondda Cynon Taf. Yr ydych yn llygad eich lle yn dod â hyn i sylw'r Cynulliad. Weithiau, pan fydd y cyllid tair blynedd ar gyfer prosiect yn dod i ben, mae pobl yn ei chael yn anodd dod o hyd i gyllid arall, ond deallaf ein bod yn cyllido'r cyfnod pontio fel y gellir chwilio am ffynonellau eraill neu adnewyddu rhyw fath o gyllid Ewropeaidd sydd ychydig yn wahanol neu gyllid allanol arall.

Sandy Mewies: Mae cyllid Ewropeaidd yn hwb ardderchog i'r rhai sy'n gallu ei gael. Rhaid i rai mudiadau ddibynnu ar ffynonellau fel y Gronfa Loteri Fawr, a gyhoeddodd ganlyniadau'r rhaglen Cam wrth Gam yn ddiweddar. Yr oedd hon i fod i ddyrannu £15 miliwn, ond £7 miliwn yn unig a ddyrannwyd, ac ni chafodd y gogledd geiniog goch, am resymau nad wyf yn eu deall yn iawn. Brif Weinidog, a allwch ofyn i swyddogion archwilio hyn i dawelu fy meddwl nad oes ffafriaeth yn cael ei rhoi ac nad effeithir ar y pethau hyn gan yr angen, dyweder, i lenwi'r bwch a grëir wrth i arian ddiflannu i dalu am y Gemau Olympaidd yn Llundain?

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi gwneud y pwynt am y Gemau Olympaidd yn Llundain o'r blaen o ran cyllid y loteri. Bydd yn cael effaith ar y Gronfa Loteri Fawr, a bydd hynny'n golygu ymdrech lew i chwilio am

key projects. On your point about a cutback from £15 million to £7 million, I am not sure whether that is in Wales alone or whether it includes the rest of the United Kingdom. I will look into the points that you make, and I will provide you with a full and comprehensive answer. I am sure that there is no bias against north Wales, but I appreciate that people can think that when they see a big drop in funding.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 4 OAQ(3)0661(FM), yn ôl.

Emotional Literacy

Q5 Val Lloyd: Will the First Minister outline Welsh Assembly Government policies on emotional literacy? OAQ(3)0649(FM)

The First Minister: That is an unusual subject to raise at the Assembly, but I am pleased that you have, because, on a recent school visit during the Christmas break, I saw an emotional literacy scheme at Michaelstone Community College that was absolutely brilliant. I now have some idea of what I am talking about when I say that it is an important subject. We are developing a range of policies to support and measure learning development, and to measure the contribution that can be made to it by our policies. It is an area that is ignored, but it is now helping to put educational programmes together in schools in some of our more difficult areas, which is important, and it is going well.

Val Lloyd: I am pleased to hear you say that, First Minister, because I had a similar experience but with a totally different, much younger, age group. Spark Blaen-y-maes Ltd works with children in my constituency mainly from less advantaged backgrounds. It has put together a Children in Need project with the aim of tackling the issue of emotional literacy, and it is working well. It enables children with a poor self image or poor social skills to gain the skills that will allow them to handle life experiences. I have seen it in action, so to speak, particularly in relation to dealing with conflict, which could lead to something worse.

gyllid arall ar gyfer prosiectau allweddol. Ynghylch eich pwynt am doriad o £15 miliwn i £7 miliwn, nid wyf yn sicr ai yng Nghymru'n unig yr oedd hynny ynteu a yw'n cynnwys gweddill y Deyrnas Unedig. Ymchwiliad i'r pwyntiau a wnaethoch, a rhoddaf ateb llawn a chynhwysfawr ichi. Yr wyf yn siŵr nad oes rhagfarn yn erbyn y gogledd, ond yr wyf yn sylweddoli bod pobl yn gallu teimlo hynny pan welant ostyngiad mawr mewn cyllid.

The Presiding Officer: Question 4, OAQ(3)0661(FM), is withdrawn.

Llythrennedd Emosiynol

C5 Val Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar lythrennedd emosiynol? OAQ(3)0649(FM)

Y Prif Weinidog: Mae hwnnw'n bwnc anarferol i'w godi yn y Cynulliad, ond yr wyf yn falch eich bod wedi'i godi, oherwydd, pan oeddwn ar ymweliad yn ddiweddar ag ysgol yn ystod gwyliau'r Nadolig, gwelais gynllun llythrennedd emosiynol yng Ngholeg Cymunedol Llanfihangel a oedd yn wirioneddol wych. Yr wyf bellach yn deall mwy am y pwnc pwysig hwn. Yr ydym wrthi'n datblygu amrywiol bolisiau i gefnogi a mesur datblygiad o ran dysgu, ac i fesur y cyfraniad y gellir ei wneud i'r pwnc drwy ein polisïau. Mae'n fater sy'n cael ei anwybyddu, ond bellach mae'n helpu i lunio rhaglenni addysgol mewn ysgolion yn rhai o'n hardaloedd anoddaf, sy'n bwysig, ac mae pethau'n mynd rhagddynt yn dda.

Val Lloyd: Yr wyf yn falch o'ch clywed yn dweud hynny, Brif Weinidog, oherwydd cefais brofiad tebyg gyda grŵp oedran hollol wahanol, sef plant iau o lawer. Mae Spark Blaen-y-maes Cyf yn gweithio gyda phlant yn fy etholaeth, rhai o gefndiroedd llai breintiedig yn bennaf. Maent wedi llunio prosiect Plant mewn Angen gyda'r nod o fynd i'r afael â llythrennedd emosiynol, ac mae'n gweithio'n dda. Mae'n galluogi plant sydd â hunanddelwedd wael neu sgiliau cymdeithasol gwael i ennill y sgiliau a fydd yn caniatáu iddynt ymdopi â phrofiadau bywyd. Yr wyf wedi ei weld ar waith, fel petai, yn enwedig o ran ymdrin â gwrthdaro,

a allai arwain at rywbeth gwaeth.

2.30 p.m.

Do you agree that these projects could and should be replicated across Wales; and can the Welsh Assembly Government provide support for such excellent initiatives?

The First Minister: It would be interesting to know how many schools are like the two of which I am aware in my constituency that already teach this. As you say, the key skill being learned by these children who have relatively low self-esteem when they start school—or secondary school, in the case of those I am familiar with—is how to handle potential conflict situations that might lead to their getting very wound up, being bullied or called names, which can isolate them and result in even lower self-esteem. They learn how to handle and turn around such situations so that they do not lose their tempers, get wound up or resort to anger. It is a skill that can be taught in schools, and, where it is, it has immense benefit for the educational experience of children with low self-esteem.

Alun Cairns: I support fully the benefits of emotional literacy that Val Lloyd and the First Minister have highlighted. However, does the First Minister recognise that it is often one of the subjects that will get squeezed in a packed curriculum? Does he recognise that it is not always taken seriously in all schools, and that therefore the benefits need to be underlined to ensure that it is not seen as a free period by many pupils or as a lighter subject that is not perceived to demand the same rigour as some other subjects?

The First Minister: Thank you for the spirit in which you have asked that question, Alun. I am glad that this has your strong support; it certainly has mine. I have seen it in action, and it was certainly taken very seriously by the children. If, for any reason, the instructor did not turn up, the children missed it greatly. The course is quite resource-intensive because you cannot teach the subject to a class of 30. Generally, there is one special tutor to four or five children; it does not work

A gytunwch y gellid ac y dylid efelychu'r prosiectau hyn ledled Cymru; ac a all Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi mentrau mor rhagorol?

Y Prif Weinidog: Byddai'n ddiddorol gwybod sawl ysgol sy'n debyg i'r ddwy y gwn amdanynt yn fy etholaeth sydd eisoes yn addysgu hyn. Fel y dywedwch, y sgil allweddol a ddysgir gan y plant hyn a chanddynt hunan-barch cymharol isel wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol—neu'r ysgol uwchradd, yn achos y rhai yr wyf yn gyfarwydd â hwy—yw sut i ymdrin â sefyllfaoedd lle y gall fod gwrthdaro a allai achosi iddynt wylltio, cael eu bwlio neu gael eu gwatwar, a all beri iddynt fod ar wahân gan arwain at hunan-barch is fyth. Byddant yn dysgu sut i ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath a'u newid yn llwyr, er mwyn iddynt beidio â cholli eu tymer, cynhyrfu na gwylltio. Mae'n sgil y gellir ei addysgu mewn ysgolion, a, lle y caiff ei addysgu, mae o fudd aruthrol i brofiad addysgol plant sydd â hunan-barch isel.

Alun Cairns: Cefnogaf yn llwyr fanteision llythrennedd emosiynol, y tynnwyd sylw atynt gan Val Lloyd a'r Prif Weinidog. Fodd bynnag, a yw'r Prif Weinidog yn cydnabod bod hwn yn aml yn un o'r pynciau na fyddant yn cael fawr o le mewn cwricwlwm gorlawn? A yw'n cydnabod na chaiff hyn ei gymryd o ddifrif ym mhob ysgol, ac felly fod angen tanlinellu'r manteision er mwyn sicrhau na chaiff ei ystyried yn wers rydd gan lawer o ddisgyblion, nac yn bwnc ysgafnach nad yw'n galw am gymaint o drylwyredd â rhai pynciau eraill, fe dybir?

Y Prif Weinidog: Diolch ichi am ofyn eich cwestiwn yn yr ysbryd hwnnw, Alun. Yr wyf yn falch eich bod yn cefnogi hyn yn gryf; yn sicr, yr wyf fi'n gwneud hynny. Yr wyf wedi ei weld ar waith, ac yr oedd y plant yn sicr yn ei gymryd o ddifrif. Os na fyddai'r hyfforddwr yn bresennol, am ryw reswm, byddai'r plant yn gweld ei gollu'n fawr. Mae'r cwrs yn eithaf dwys o ran defnyddio adnoddau oherwydd ni allwch addysgu'r pwnc i ddosbarth o 30. Yn gyffredinol, ceir

in groups larger than that. I have not heard of it being treated as a free period, but I will look into that.

Capping Council Tax Rises

Q6 Jenny Randerson: Does the Welsh Assembly Government have any plans to cap council tax rises this year? OAQ(3)0660(FM)

The First Minister: You will know, as I do, that Welsh local authorities have an excellent record of prudent council-tax-setting in recent years, and I trust that this will continue. However, we have a duty to monitor closely authorities' council tax decisions in the coming weeks, and we hope that consideration of capping will be unnecessary.

Jenny Randerson: Thank you for your answer. Last week, your Minister with responsibility for local government said that it was his view that council tax increases should not exceed 5 per cent in this year, and that he would be monitoring the position carefully and taking appropriate action. Can you confirm that it is your Government's proposal to cap increases in council tax at 5 per cent? I ask this because, last year, your Government set a 4.4 per cent increase in budget requirement as one of the criteria for capping, in a very unusual move.

Will you be applying the same rule to the police precept? As I am sure you are aware, South Wales Police Authority believes that, if it is able to set its precept at slightly above 5 per cent, it will be able to make a significant contribution towards the cost of saving the 101 telephone number, without the need to cut the number of front-line police officers. Will you ensure that you take that into account given that the Home Office has left the police and local councils high and dry in that regard?

The First Minister: You said that Brian Gibbons has applied a rule—that he will cap local authorities that try to increase council

un tiwtor arbennig ar gyfer pob pedwar neu bum plentyn; nid yw'n gweithio mewn grwpiau mwy na hynny. Nid wyf wedi clywed amdano'n cael ei drin fel gwers rydd, ond ymchwiliad i hynny.

Capio Codiadau'r Dreth Gyngor

C6 Jenny Randerson: A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gynlluniau i gapio codiadau'r dreth gyngor eleni? OAQ(3)0660(FM)

Y Prif Weinidog: Gwyddoch, cystal â minnau, fod gan awdurdodau lleol Cymru record ragorol o ran gosod y dreth gyngor yn ddarbodus yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yr wyf yn gobeithio y bydd hyn yn parhau. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd arnom fonitro penderfyniadau awdurdodau ynghylch y dreth gyngor yn ofalus dros yr wythnosau nesaf, a gobeithiwn na fydd angen ystyried capio.

Jenny Randerson: Diolch am eich ateb. Yr wythnos diwethaf, dywedodd eich Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros lywodraeth leol ei fod o'r farn na ddylai'r cynnydd yn y dreth gyngor fod yn fwy na 5 y cant yn y flwyddyn hon, ac y byddai'n monitro'r sefyllfa'n ofalus gan weithredu'n briodol. A allwch gadarnhau mai bwriad eich Llywodraeth yw capio'r cynnydd yn y dreth gyngor ar 5 y cant? Gofynnaf hyn oherwydd, y llynedd, gosododd eich Llywodraeth gynnydd o 4.4 y cant yng ngofyniad y gyllideb yn un o'r meini prawf ar gyfer capio, mewn symudiad anarferol iawn.

A fyddwch yn defnyddio'r un rheol ar gyfer praesept yr heddlu? Fel y gwyddoch, yr wyf yn siŵr, mae Awdurdod Heddlu De Cymru yn credu, os gall osod ei braesept ychydig dros 5 y cant, y gall wneud cyfraniad sylweddol at gost achub y rhif ffôn 101, heb fod angen torri nifer y plismyn rheng flaen. A sicrhewch eich bod yn ystyried hynny, o gofio bod y Swyddfa Gartref wedi siomi'r heddlu a chynghorau lleol yn hynny o beth?

Y Prif Weinidog: Dywedasoeh fod Brian Gibbons wedi rhoi rheol ar waith—y bydd yn capio awdurdodau lleol sy'n ceisio codi mwy

tax above 5 per cent. That is an inappropriate use of language; I do not think that he has applied a rule. He said that he hopes that local authorities will bring in council tax increases that do not exceed 5 per cent. He has not said any more than that; there is no question of applying a rule. Other than Ceredigion—which is considering the issue right now and is considering 5 per cent—we are not at that stage yet. Until Ceredigion votes on that, we will not know what will happen there, and it is the only local authority that has mentioned a figure at all so far. We shall have to see how this goes over the next few weeks. It is always the same at this time of year. Council tax increases are a matter for local authorities but we are duty bound to protect Welsh council tax payers against excessive increases.

Darren Millar: Given the extra responsibilities that the Assembly Government is constantly foisting upon Welsh local authorities—without the resources to follow, I might add—do you agree that capping is undesirable and would be totally unnecessary this year were it not for the derisory settlement that the Assembly Government proposes to give local authorities in Wales?

The First Minister: The 2008-09 financial year is the most difficult financial year since the commencement of the Assembly. It is the ninth year of our existence and it is the year in which we have had to get used to an extremely limited increase. That applies to everyone. We have had an increase of 3.4 per cent in cash terms and I think that local government is having an increase of 3.3 per cent. If you adjust for the Grogan judgment to make it a proper like-for-like comparison, it is probably 3.4 per cent for both parties. Therefore, there is an almost not very beautiful, but nevertheless equal, mathematical equivalence between the rate of increase in the grant that we have had and the increase that we are giving local government. We all have to get used to lower rates of increase. It is not a cut, but a lower rate of increase than we have known in the previous eight years. We have to get used to it. It will

na 5 y cant ar y dreth gyngor. Mae'r geiriad hwnnw'n amhriodol; ni chredaf ei fod wedi rhoi rheol ar waith. Dywedodd ei fod yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn cyflwyno cynnydd yn y dreth gyngor na fydd yn fwy na 5 y cant. Nid yw wedi dweud dim mwy na hynny; nid oes dim sôn am roi rheol ar waith. Ar wahân i Geredigion—sy'n ystyried y mater ar hyn o bryd ac yn ystyried 5 y cant—nid ydym wedi cyrraedd y cam hwnnw eto. Nes y bydd Ceredigion yn pleidleisio ar hynny, ni fyddwn yn gwybod beth fydd yn digwydd yno, a dim ond yr awdurdod lleol hwnnw sydd wedi crybwyll ffigur o gwbl hyd yn hyn. Bydd yn rhaid inni weld sut yr aiff hyn dros yr wythnosau nesaf. Mae yr un fath bob amser yr adeg hon o'r flwyddyn. Mater i'r awdurdodau lleol yw'r cynnydd yn y dreth gyngor, ond mae'n ddyletswydd arnom amddiffyn y rhai sy'n talu'r dreth gyngor yng Nghymru rhag cynnydd gormodol.

Darren Millar: O ystyried y cyfrifoldebau ychwanegol y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu rhoi gyson ar awdurdodau lleol Cymru—heb yr adnoddau i'w dilyn, gallwn ychwanegu—a gytunwch fod capio'n annymunol, ac y byddai'n gwbl ddiangen eleni oni bai am y setliad tila y mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig ei roi i awdurdodau lleol Cymru?

Y Prif Weinidog: Y flwyddyn ariannol 2008-09 yw'r flwyddyn ariannol anoddaf ers i'r Cynulliad gychwyn. Dyma nawfed blwyddyn ein bodolaeth, ac yn y flwyddyn hon yr ydym wedi gorfod dod i arfer â chynnydd cyfyngedig dros ben. Mae hynny'n wir am bawb. Yr ydym wedi cael cynnydd o 3.4 y cant mewn termau ariannol a chredaf fod llywodraeth leol yn cael cynnydd o 3.3 y cant. Os ydych yn gwneud addasiad ar gyfer dyfarniad Grogan i'w gwneud yn gymhariaeth deg a chywir, mae'n debyg mai 3.4 y cant ydyw i'r ddwy ochr. Felly, ceir cyfatebiaeth fathemategol nad yw'n brydferth iawn, ond sydd serch hynny'n gyfartal, rhwng cyfradd y cynnydd yn y grant yr ydym ni wedi'i gael a'r cynnydd yr ydym yn ei roi i lywodraeth leol. Rhaid inni oll ddod i arfer â chyfraddau cynnydd is. Nid toriad ydyw, ond cyfradd cynnydd is na'r rhai yr ydym wedi'u cael yn yr wyth mlynedd blaenorol. Rhaid

ease slightly in 2009-10 and 2010-11, but the forthcoming year will be tough, as we all recognise.

Alun Ffred Jones: Gan dderbyn bod y flwyddyn yn un anodd, pa gynlluniau sydd gennych i fonitro lefel y dreth gyngor drwy Gymru a hefyd i fonitro safonau'r gwasanaethau a gynigir yn y gwahanol gynghorau?

Y Prif Weinidog: Fel y dywedais wrth Jenny, wrth gwrs y byddwn yn monitro. Yn dilyn trafodaeth Cyngor Sir Ceredigion am ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf—mae wedi bod yn trafod cynnydd o 5 y cant—bydd cynghorau eraill yn gwneud yr un fath dros yr wythnosau nesaf. Os oes un ychydig yn wahanol i'r cynghorau eraill mae gan Brian y grym i ymyrryd ac atal unrhyw gynnydd afresymol.

Yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na gofyn faint o arian a roddir i mewn, byddwn yn gofyn am safon y gwasanaethau a geir yn sgîl hynny ar yr ochr draw. Byddwn yn trafod faint o arian a roddir i mewn yr adeg hon bob blwyddyn. Serch hynny, yn ystod y flwyddyn y cwestiwn pwysig yw: beth yw safon y gwasanaethau a gyflenwir gan ein hawdurdodau lleol ni yng Nghymru? Mae'r gwahaniaeth rhwng y gorau a'r gwaethaf—nid ydynt bob amser yr un fath mewn gwahanol wasanaethau—yn llawer yn rhy llydan.

Priorities for the NHS

Q7 Andrew R.T. Davies: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for the NHS in Wales? OAQ(3)0659(FM)

The First Minister: Among many priorities, streamlining the number of NHS trusts in Wales will be an Assembly Government priority over the next few months, as you are probably aware. Edwina Hart has recently confirmed arrangements that will produce three new single trusts in areas previously served by eight separate bodies, from Pontypridd, the Rhondda valleys and Merthyr Tydfil in the east to Pembrokeshire in the west. Those new trusts will come into

inni ddod i arfer â hynny. Bydd yn gwella ychydig yn 2009-10 ac yn 2010-11, ond bydd y flwyddyn sydd i ddod yn anodd, fel yr ydym oll yn cydnabod.

Alun Ffred Jones: While accepting that this is a difficult year, what plans do you have to monitor council tax levels across Wales and also to monitor the quality of services provided by individual councils?

The First Minister: As I said to Jenny, we will, of course, be monitoring. Following Ceredigion County Council's debate about its budget for next year—it has been discussing an increase of 5 per cent—other councils will be doing the same over the coming weeks. If any one is out of step with other councils, Brian has the power to intervene to stop any unreasonable increase.

During the year, rather than asking how much money is put in, we will be asking about the quality of services at the other end. We discuss how much money is put in at this time every year. However, the important question during the year is: what is the quality of the service provided by our local authorities in Wales? The difference between the best and the worst—which are not always the same, in different services—is much too wide.

Blaenoriaethau ar gyfer y GIG

C7 Andrew R.T. Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru? OAQ(3)0659(FM)

Y Prif Weinidog: Ymysg llawer o flaenoriaethau, bydd lleihau nifer yr ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru'n un o flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad dros y misoedd nesaf, fel y gwyddoch, mae'n siŵr. Yn ddiweddar, cadarnhaodd Edwina Hart drefniadau a fydd yn cynhyrchu tair ymddiriedolaeth sengl newydd mewn ardaloedd a oedd yn cael eu gwasanaethu o'r blaen gan wyth corff gwahanol, o Bontypridd, cymoedd y Rhondda a Merthyr

operation on 1 April.

Andrew R.T. Davies: During the last fortnight I have met representatives from two organisations that impressed me greatly in their field of cancer treatment, Breast Cancer Research and Care, an organisation that specialises in trying to facilitate the provision of information to patients diagnosed with cancer. One of the practices that these organisations would like to see adopted in Wales is the information prescription that is currently being piloted in England. It is a prescription system that would give, at the point of diagnosis of cancer, which, as we all understand, would be a traumatic moment for the patient and the family, access to support and information so that people get a better understanding of what they are diagnosed with and what they are facing. As the First Minister, will you direct your Government to look into this project and, as a matter of urgency, bring it to Wales? Cancer in Wales is no different from cancer elsewhere in the United Kingdom, and I would suggest that people diagnosed with cancer require all the support that they can possibly get.

The First Minister: I do not direct Edwina Hart. I engage in a collegiate discussion with her on matters of interest to us both. You mentioned an information prescription. I can appreciate from my own experiences last summer the information that you get with a prescription—but perhaps what you are talking about is instead of a prescription, and information provided at the point of diagnosis. I can appreciate how useful the information that you are given can be: I received information from the British Heart Foundation, and the huge list of what you can eat, what you can eat sometimes but not frequently, what you cannot eat, and so on, has been of enormous value to me, as well as participating—although only once or twice—in rehabilitation sessions. I can imagine, in comparing my experience to that of cancer patients at the time of diagnosis, how important good information is, as well as having people whom you can talk to and share experiences with who may have had the

Tudful yn y dwyrain i sir Benfro yn y gorllewin. Daw'r ymddiriedolaethau newydd hyn i rym ar 1 Ebrill.

Andrew R.T. Davies: Yn ystod y pythefnos diwethaf, yr wyf wedi cyfarfod â chynrychiolwyr dau fudiad ym maes trin canser a wnaeth gryn argraff arnaf, sef Breast Cancer Research a Case, mudiad sy'n arbenigo mewn ceisio hwyluso darparu gwybodaeth i gleifion sy'n cael diagnosis bod canser arnynt. Un o'r arferion yr hoffai'r mudiadau hyn eu gweld yn cael eu mabwysiadu yng Nghymru yw'r presgripsiwn gwybodaeth sy'n cael ei dreialu yn Lloegr ar hyn o bryd. Mae'n system bresgripsiwn a fyddai, adeg y diagnosis bod canser ar rywun, a fyddai, fel yr ydym oll yn deall, yn foment drawmatig i'r claf a'r teulu, yn peri bod cymorth a gwybodaeth ar gael iddo er mwyn i bobl gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd arnynt a'r hyn y maent yn ei wynebu. Fel Prif Weinidog, a gyfarwyddwch eich Llywodraeth i edrych ar y prosiect hwn a'i gyflwyno yng Nghymru fel mater brys? Nid yw canser yng Nghymru yn ddim gwahanol i ganser mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, a byddwn yn awgrymu bod ar bobl sydd wedi cael gwybod bod canser arnynt angen yr holl gymorth y mae'n bosibl iddynt ei gael.

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn cyfarwyddo Edwina Hart. Caf drafodaeth golegol â hi am faterion sydd o ddiddordeb inni ein dau. Soniasoch am bresgripsiwn gwybodaeth. Gallaf ddeall, ar sail fy mhrofiadau fy hun yr haf diwethaf, y wybodaeth a gewch gyda phresgripsiwn—ond efallai eich bod yn siarad am rywbeth arall yn hytrach na phresgripsiwn, a gwybodaeth a ddarperir adeg diagnosis. Gallaf ddeall pa mor ddefnyddiol y gall y wybodaeth a roddir ichi fod: cefais wybodaeth gan Sefydliad Prydeinig y Galon, ac mae'r rhestr enfawr o'r hyn y cewch ei fwyta, yr hyn y cewch ei fwyta weithiau ond nid yn aml, yr hyn na chewch ei fwyta, ac yn y blaen, wedi bod yn werthfawr dros ben imi, yn ogystal â chymryd rhan—er mai dim ond unwaith neu ddwy—mewn sesiynau adsefydlu. Gallaf ddychmygu, o gymharu fy mhrofiad â phrofiad cleifion canser adeg eu diagnosis, mor bwysig yw gwybodaeth dda, yn ogystal â chael pobl y gallwch siarad â hwy a rhannu

same experience only a year or two previously.

2.40 p.m.

Helen Mary Jones: Can you confirm that providing a school nurse for every secondary school in Wales continues to be a high priority for the One Wales Government? In your collegiate discussions with the Minister for Health and Social Services, will you undertake to ensure that sufficient training places are made available to provide a sufficient quantity of school and community nurses when we are able to commission those posts?

The First Minister: I am sure that that will be part of workforce planning, which is murderously difficult in the health service. We all know how many horrendous mistakes have been made in terms of the oversupply or undersupply of doctors, nurses, midwives, physiotherapists, and so on, over the past 20 years. It is very difficult to get it right. However, in terms of the provision and training of the right number of school nurses, we must make every effort to ensure that we can deliver properly on that commitment.

Peter Black: At least two of the local health boards in my region are looking at restructuring mental health services, many of which are historically underfunded and no longer fit for purpose. What priority is your Government giving to investing in the restructuring and improvement of mental health services around Wales?

The First Minister: We all accept the principle, although it is sometimes difficult to bring about, that mental health services should primarily not be based in big institutions but in the community or small institutions. Once people are placed in institutions, re-entry into the atmosphere is very difficult for them to handle. Therefore, it is better if they do not enter those institutions and the issue is handled in the community. Where you are inheriting a pattern of institutional care, you know where you want to get to, but it is not always easy to get there because you have to deal with what to do

profiadau â hwy, pobl sydd efallai wedi cael yr un profiad flwyddyn neu ddwy ynghynt.

Helen Mary Jones: A allwch gadarnhau bod darparu nyrs ysgol i bob ysgol uwchradd yng Nghymru'n dal yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru'n Un? Yn eich trafodaethau colegol gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a ymrwymwch i sicrhau bod digon o leoedd hyfforddi ar gael i ddarparu nifer digonol o nyrsys ysgol a chymunedol pan allwn gomisiynu'r swyddi hynny?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn siŵr y bydd hynny'n rhan o gynllunio'r gweithlu, sy'n ddychrynlyd o anodd yn y gwasanaeth iechyd. Gwyddom oll faint o gamgymeriadau erchyll sydd wedi'u gwneud o ran gorgyflenwi neu dangyflenwi meddygon, nyrsys, bydwragedd, ffisiotherapyddion, ac yn y blaen, dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae'n anodd sicrhau bod hynny'n iawn. Fodd bynnag, o ran darparu a hyfforddi'r nifer cywir o nyrsys ysgol, rhaid inni wneud ein gorau glas i sicrhau y gallwn gyflawni'r ymrwymiad hwnnw yn briodol.

Peter Black: Mae dau o leiaf o'r byrddau iechyd lleol yn fy rhanbarth yn ystyried ailstrwythuro gwasanaethau iechyd meddwl, ac mae nifer ohonynt wedi'u tanariannu'n hanesyddol ac nid ydynt bellach yn addas i'w diben. Pa flaenoriaeth y mae eich Llywodraeth yn ei rhoi i fuddsoddi mewn ailstrwythuro a gwella gwasanaethau iechyd meddwl ledled Cymru?

Y Prif Weinidog: Yr ydym oll yn derbyn yr egwyddor, er ei bod weithiau'n anodd ei gwireddu, na ddylid lleoli gwasanaethau iechyd meddwl yn bennaf mewn sefydliadau mawr, ond yn y gymuned neu mewn sefydliadau bach. Wedi i bobl gael eu rhoi mewn sefydliadau, mae'n anodd iawn iddynt ddychwelyd i fywyd arferol. Felly, mae'n well iddynt beidio â mynd i'r sefydliadau hynny, a bod y broblem yn cael ei thrin yn y gymuned. Pan fyddwch yn etifeddu patrwm o ofal sefydliadol, byddwch yn gwybod lle'r ydych yn dymuno'i gyrraedd, ond nid yw'n hawdd ei gyrraedd bob tro gan fod yn rhaid

about the existing institutions. You then have to provide the alternative community-based care and sometimes retrain the workforce to ensure that services can be delivered, sometimes by the same staff, but on a community basis rather than an institutional basis.

Post Office Services

Q8 William Graham: Will the First Minister make a statement on Assembly Government support for post office services in Wales? OAQ(3)0664(FM)

The First Minister: I mentioned this earlier, but I will repeat it: all post offices in Wales with a rateable value of up to £9,000 receive 100 per cent relief on their rates, and those with a rateable value of between £9,000 and £12,000 receive 50 per cent relief, which provides assistance that averages at around £4,000 a year.

William Graham: I noted your answers earlier on the same subject. I congratulate you on the way in which you have made an almost indefensible position at least somewhat credible. However, you will know that it is your Government in Westminster that is mishandling the economy and does not have sufficient resources to fund the post office system. In Wales, we are now facing major closures. Can you confirm that if one post office in an area where certain post offices are destined for closure is saved—your colleague, Jane Hutt, has apparently saved one in Barry—another will close as a consequence? Can you explain why post offices must tender for the card account service, which is very valuable and appreciated by many people in Wales?

The First Minister: The question about what the Government should be doing about post offices should be put to the Government and not to me. It is not a decision that we take, but we are aware that the Post Office Ltd network loses money—around £4 million a week. There is a big subsidy, at least for the rural post offices, but not for urban post

ichi ddelio â beth i'w wneud ynglŷn â'r sefydliadau sy'n bodoli eisoes. Yna, rhaid ichi ddarparu'r gofal gwahanol wedi'i leoli yn y gymuned, ac weithiau ailhyfforddi'r gweithlu i sicrhau y gellir cyflenwi gwasanaethau, weithiau gan yr un staff, ond mewn lleoliad cymunedol yn hytrach na lleoliad sefydliadol.

Gwasanaethau Swyddfa'r Post

C8 William Graham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i wasanaethau swyddfa'r post yng Nghymru? OAQ(3)0664(FM)

Y Prif Weinidog: Soniais am hyn yn gynharach, ond fe'i hailadroddaf: bydd pob swyddfa bost â gwerth ardrethol hyd at £9,000 yn cael rhyddhad o 100 y cant ar eu hardrethi, a bydd y rhai â gwerth ardrethol rhwng £9,000 a £12,000 yn cael rhyddhad o 50 y cant, sy'n rhoi cymorth cyfartalog o tua £4,000 y flwyddyn.

William Graham: Nodais eich atebion yn gynharach ar yr un pwnc. Fe'ch llongyfarchaf am y ffordd yr ydych wedi troi sefyllfa nad oedd modd ei hamddiffyn bron yn un weddol gredadwy, o leiaf. Fodd bynnag, byddwch yn gwybod mai eich Llywodraeth chi yn San Steffan sy'n cam-drin yr economi, ac nad oes ganddi ddigon o adnoddau i ariannu'r system swyddfeydd post. Yng Nghymru, yr ydym bellach yn wynebu cau nifer sylweddol ohonynt. A allwch gadarnhau, os caiff un swyddfa bost ei hachub mewn ardal lle y mae rhai swyddfeydd post am gael eu cau—mae'n debyg bod eich cyd-Aelod, Jane Hutt, wedi achub un yn y Barri—y bydd un arall yn cau o ganlyniad i hynny? A allwch esbonio pam mae'n rhaid i swyddfeydd post dendro am wasanaeth y cyfrif cerdyn, sy'n werthfawr iawn ac a werthfawrogir gan lawer o bobl yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Dylid gofyn y cwestiwn am yr hyn y dylai'r Llywodraeth fod yn ei wneud ynghylch swyddfeydd post i'r Llywodraeth, nid i mi. Nid yw'n benderfyniad a wneir gennym ni, ond yr ydym yn ymwybodol bod rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyf yn colli arian—tua £4 miliwn yr wythnos. Ceir cymhorthdal mawr,

offices, which the Government has agreed to maintain at £150 million a year—it was not going to do so at one point. However, that still means that there will be a trimming back of the post office network.

You made a point about the Perthcelyn post office. That is sad. It is not a case of saving one post office if one is lost; if two are saved, one is lost. I do not think that anyone was aware of that when joy was expressed in Barry and Splott that the post offices there would be saved. It is sad that Perthcelyn will be closed as a result of those post offices being saved. That will lead to many invidious decisions when we come to the Gwent valleys and Newport decisions, when that comes to the end of its consultation period.

They have been given a target, and they have a scoring system that is unsuitable for Wales, especially the Valleys. We must make that point forcibly, via Paul Murphy, and directly to Ministers, as Leighton Andrews, the responsible Deputy Minister, made it to Post Office Ltd this morning.

Chris Franks: A letter from Downing street to a constituent, regarding Llantrisant post office, noted that

‘Allan Leighton, the chairman of the Royal Mail, will now personally decide on issues where the Post Office and Postwatch cannot reach agreement’.

As far as the local community is concerned, this did not happen in Llantrisant’s case; Postwatch failed to assert its power to refer the case to Allan Leighton. Do you agree that this shows that the whole consultation process is fatally flawed?

The First Minister: Could you send me the details of that? It sounds interesting. Others may want to avail themselves of that in their attempt to reduce or combat the proposed closures in their areas—including your colleague, Trish Law, who has the maximum number of closures in her constituency—to

i’r swyddfeydd post gwledig o leiaf, ond nid i swyddfeydd post trefol, ac mae’r Llywodraeth wedi cytuno i gynnal y rheini am £150 miliwn y flwyddyn—nid oedd am wneud hynny ar un adeg. Fodd bynnag, mae hynny’n dal i olygu y caiff y rhwydwaith swyddfeydd post ei docio.

Codasoch bwynt am swyddfa bost Perthcelyn. Mae hynny’n drist. Nid yw’n fater o achub un swyddfa bost os collir un; os achubir dwy, collir un. Ni chredaf fod neb yn ymwybodol o hynny pan fynegwyd llawenydd yn y Barri a Sblot am achub y swyddfeydd post yno. Mae’n drist y caiff swyddfa bost Perthcelyn ei chau o ganlyniad i achub y swyddfeydd post hynny. Bydd hynny’n arwain at lawer o benderfyniadau annymunol pan ddaw’n amser penderfynu ynghylch cymoedd Gwent a Chasnewydd, ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori ar gyfer hynny.

Rhodddwyd targed iddynt, ac mae ganddynt system sgorio nad yw’n addas ar gyfer Cymru, yn enwedig y Cymoedd. Rhaid inni bwysleisio’r pwynt hwnnw’n egniol, drwy Paul Murphy, ac yn uniongyrchol wrth y Gweinidogion, fel y gwnaeth Leighton Andrews, y Dirprwy Weinidog sy’n gyfrifol, wrth Swyddfa’r Post Cyf y bore yma.

Chris Franks: Mewn llythyr o stryd Downing at etholwr, ynghylch swyddfa bost Llantrisant, dywedwyd

Bydd Allan Leighton, cadeirydd y Post Brenhinol, yn awr yn penderfynu’n bersonol ynghylch materion lle na all Swyddfa’r Post a Golwg ar Bost gytuno.

Yng nghyswllt y gymuned leol, ni ddigwyddodd hyn yn achos Llantrisant; nid arferodd Golwg ar Bost ei rym i gyfeirio’r achos at Allan Leighton. A gytunwch fod hyn yn dangos bod y broses ymgynghori gyfan yn ddifrifol ddiffygiol?

Y Prif Weinidog: A allech anfon manylion yr achos hwnnw ataf? Mae’n swnio’n ddiddorol. Efallai y bydd pobl eraill am fanteisio ar hynny wrth iddynt geisio lleihau nifer y swyddfeydd post y bwriedir eu cau yn eu hardal, neu frwydro yn erbyn y cynigion i’w cau—gan gynnwys eich cyd-Aelod, Trish

ensure that Postwatch is encouraged to utilise to the full its ability to put closures directly on appeal to the chairman of Royal Mail.

Cross-border Services

Q9 Nick Ramsay: Will the First Minister outline the Welsh Assembly Government's policies for improving cross-border services in Wales? OAQ(3)0645(FM)

The First Minister: We will continue to work closely with the relevant authorities in England to align developments on either side of the border to maximise how services are developed, whether that is on transport, health or economic development. Our unique spatial plan provides a means through which effective collaboration is encouraged across the border from south-east Wales into the south-west of England, from north-east Wales into the north-west of England, and from mid Wales into the Midlands.

Nick Ramsay: You mention health, First Minister; I will focus on cross-border health issues, specifically the fact that many patients in Wales are heavily reliant on services in England and, I believe, will continue to be so in the future. The Assembly Government now has a policy of 26 weeks from referral to treatment as being a bottom line for patients, which is still higher than it is in England. How do you propose to even up that difference, so that Welsh patients get equality of treatment, in the same time span, with their counterparts in England?

The First Minister: That is not about cross-border services; that is more about a cross-border comparison. We believe that what we are promising to do, although a year later than in England, will deliver pretty much the same quality of service, as perceived by the patient, in England and in Wales. England watches what we do, and we watch what they do—we borrow ideas from each other. We are a year later, and we are using 26 weeks

Law, sydd â'r nifer uchaf o gynigion i gau swyddfeydd post yn ei hetholaeth—i sicrhau bod Golwg ar Bost yn cael ei annog i ddefnyddio, hyd yr eithaf, ei allu i apelio'n uniongyrchol at gadeirydd y Post Brenhinol yn erbyn cynigion i gau swyddfeydd post.

Gwasanaethau Trawsffiniol

C9 Nick Ramsay: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau trawsffiniol yng Nghymru? OAQ(3)0645(FM)

Y Prif Weinidog: Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r awdurdodau perthnasol yn Lloegr i gydgysylltu datblygiadau o boptu'r ffin i sicrhau'r dull gorau o ddatblygu gwasanaethau, boed hynny yng nghyswllt trafniadaeth, iechyd neu ddatblygu economaidd. Mae ein cynllun gofodol unigryw yn cynnig cyfrwng i annog cydweithio effeithiol ar draws y ffin o dde-ddwyrain Cymru i dde-orllewin Lloegr, o ogledd-ddwyrain Cymru i ogledd-orllewin Lloegr, ac o ganolbarth Cymru i Ganoldir Lloegr.

Nick Ramsay: Cyfeiriasoch at iechyd, Brif Weinidog; yr wyf am ganolbwyntio ar faterion trawsffiniol yn ymwneud ag iechyd, yn benodol y ffaith bod llawer o gleifion yng Nghymru yn dibynnu'n helaeth ar wasanaethau yn Lloegr ac, yn fy marn i, byddant yn parhau i ddibynnu arnynt yn y dyfodol. Erbyn hyn, polisi Llywodraeth y Cynulliad yw y dylai cleifion gael triniaeth cyn pen 26 wythnos ar ôl cael eu hatgyfeirio, ac mae hynny'n dal yn uwch na'r ffigur yn Lloegr. Sut yr ydych yn bwriadu unioni'r gwahaniaeth hwnnw, er mwyn i gleifion yng Nghymru gael triniaeth gyfartal, o fewn yr un cyfnod, â chleifion yn Lloegr?

Y Prif Weinidog: Nid yw'r mater hwnnw'n ymwneud â gwasanaethau trawsffiniol; mae a wnelo fwy â chymhariaeth drawsffiniol. Credwn y bydd yr hyn yr ydym yn addo'i wneud, er ei fod flwyddyn yn hwyrach nag yn Lloegr, yn darparu gwasanaeth sydd o'r un ansawdd i bob diben, yng ngolwg y cleifion, yng Nghymru ac yn Lloegr. Bydd Lloegr yn gwylio'r hyn a wnawn, a byddwn ninnau'n gwylio'r hyn a wnânt hwy—

not 18 weeks, but we include certain categories that are not included in England. Only GP referrals are included in the English data and in the English guarantee. In our case, it includes consultant-to-consultant referrals, other forms of referrals, as well as the GP referral. If you throw that in as well, we do not believe that there is a difference worth commenting on between the undertaking to improve the patient journey in Wales and in England.

Janet Ryder: I am sure that you are aware, First Minister, that many patients in north Wales rely on services out of Walton Hospital in Liverpool. Until recently, many of those patients, particularly those who needed to go in for day treatment to receive treatment through a drip, were treated in hospitals in north Wales, with the doctors coming out from Walton to provide that treatment. Health Commission Wales has now said that it will not fund that treatment unless those doctors provide it in their home hospital in Walton. That is causing problems for patients from north Wales who have to travel all the way to Walton—it could be a two-hour round trip for 40 minutes' treatment—and it is causing problems at Walton, where they are experiencing increased pressures on their day services. Will you undertake to look into that, and to bring the best result for patients in Wales, so that treatments that can be delivered in north Wales are delivered there?

The First Minister: I will look into that matter with Edwina Hart and with Health Commission Wales. We all accept that the relationship between north Wales and the north-west of England, in population terms, is one to 13, compared with one to one between south Wales and the adjoining area of south-west England.

2.50 p.m.

Therefore, clearly, there will be specialist

byddwn yn benthyca syniadau gan ein gilydd. Yr ydym flwyddyn ar ei hôl hi, ac yr ydym yn defnyddio 26 wythnos ac nid 18 wythnos, ond yr ydym yn cynnwys rhai categorïau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn Lloegr. Dim ond atgyfeiriadau gan feddygon teulu sy'n cael eu cynnwys yn y data a ddefnyddir yn Lloegr ac yn addewid Lloegr. Yng Nghymru, mae'n cynnwys atgyfeiriadau rhwng ymgynghorwyr, mathau eraill o atgyfeiriadau, yn ogystal ag atgyfeiriadau gan feddygon teulu. O gynnwys hynny hefyd, ni chredwn fod gwahaniaeth sy'n werth sôn amdano rhwng yr ymrwymiad i wella taith y claf yng Nghymru ac yn Lloegr.

Janet Ryder: Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol, Brif Weinidog, fod llawer o gleifion yng ngogledd Cymru yn dibynnu ar wasanaethau Ysbyty Walton yn Lerpwl. Tan yn ddiweddar, yr oedd llawer o'r cleifion hynny, yn enwedig y rhai yr oedd angen iddynt fynd yno i gael triniaeth dydd a chael triniaeth drwy ddrip, yn cael eu trin mewn ysbytai yng ngogledd Cymru, gyda'r meddygon yn teithio o Walton i roi'r driniaeth honno. Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn awr wedi dweud na fydd yn ariannu'r driniaeth honno onid yw'r meddygon hynny'n ei darparu yn eu hysbyty arferol, sef Walton. Mae hynny'n achosi problemau i gleifion o ogledd Cymru y mae'n rhaid iddynt deithio'r holl ffordd i Walton—gallai hynny olygu dwy awr i wneud y daith gyfan er mwyn cael triniaeth 40 munud—ac mae'n achosi problemau yn Walton, lle y ceir pwysau cynyddol ar eu gwasanaethau dydd. A ymrwymwch i ymchwilio i hynny, ac i sicrhau'r canlyniad gorau i gleifion yng Nghymru, er mwyn i'r triniaethau y gellir eu darparu yng ngogledd Cymru gael eu darparu yno?

Y Prif Weinidog: Ymchwiliat i'r mater hwnnw gydag Edwina Hart a chyda Comisiwn Iechyd Cymru. Yr ydym i gyd yn derbyn mai'r gymhareb rhwng gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, o ran poblogaeth, yw un i 13, o'i gymharu ag un i un rhwng de Cymru a'r ardal gyffiniol yn ne-orllewin Lloegr.

Felly, yn amlwg, bydd gwasanaethau

services available in Manchester, Liverpool, Chester, Clatterbridge, Gobowen and so on that you will not get in north Wales and there is a long-standing tradition of going over the border for those specialist services. I have not heard about this case, where there has been a change in the terms under which out-patient services are provided by neurology consultants who come into north Wales. I know that that was one of the ideas that were discussed in terms of a pan-Wales neurology out-patient service.

Everyone wants to see treatment—including some specialist treatments—being provided as close to home as possible. I remember the controversy in the House of Commons when the establishment of the North Wales Cancer Treatment Centre at Ysbyty Glan Clwyd was proposed, which meant that patients would not continue to rely on Clatterbridge Hospital and the Christie Hospital. You sometimes move services out of England into Wales because the time has come, it is appropriate, and those services can be delivered closer to home. That will happen from time to time, even though there is always a big row when it does. There will also be other issues such as those in relation to the Cheltenham PET scanner, which is used by patients from all over Wales, and the hospital in Gobowen, which is used by patients from all over Wales who require special spinal surgery. It will continue to happen where it is clinically justified. I will look into the particular circumstances that you are talking about.

Mick Bates: First Minister, England has now copied one of the partnership Government's achievements in providing free travel for people over 60 and disabled people. You will, perhaps, know that some border authorities in Wales allow the free bus passes to be used on routes into English towns. At the moment, this is starting to cause a little bit of unnecessary confusion for many elderly and disabled travellers. What discussions have you had with colleagues in Westminster on reciprocal arrangements that would allow the disabled and those over 60 to travel for free throughout the border areas, from England to Wales and Wales to England, without having to worry about the unexpected charges that have been incurred

arbenigol ar gael ym Manceinion, Lerpwl, Caer, Clatterbridge, Gobowen, ac yn y blaen, na fyddant ar gael yng ngogledd Cymru a cheir traddodiad hir o fynd y tu hwnt i'r ffin i gael y gwasanaethau arbenigol hynny. Nid wyf wedi clywed am yr achos hwn, lle y bu newid yn amodau darparu'r gwasanaethau i gleifion allanol gan ymgynghorwyr niwroleg sy'n dod i ogledd Cymru. Yr wyf yn gwybod bod hynny'n un o'r syniadau a drafodwyd yng nghyswllt gwasanaeth Cymru gyfan i gleifion niwroleg allanol.

Mae pawb yn awyddus i weld triniaeth—gan gynnwys rhywfaint o driniaeth arbenigol—yn cael ei darparu cyn agosod â phosibl at adref. Cofiaf y ddadl yn Nhŷ'r Cyffredin pan gyflwynwyd y cynnig i sefydlu Canolfan Triniaeth Canser Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd, a olygai na fyddai cleifion yn dal i ddibynnu ar Ysbyty Clatterbridge ac Ysbyty Christie. Weithiau, caiff gwasanaethau eu symud o Loegr i Gymru am ei bod yn bryd eu symud, am ei fod yn briodol, ac am y gellir darparu'r gwasanaethau hynny'n agosach at adref. Bydd hynny'n digwydd o bryd i'w gilydd, er y ceir ffrae fawr bob tro y bydd yn digwydd. Bydd materion eraill hefyd, megis materion yn ymwneud â sganiwr PET yn Cheltenham, a ddefnyddir gan gleifion o bob cwr o Gymru, a'r ysbyty yng Ngobowen, a ddefnyddir gan gleifion o bob cwr o Gymru y mae arnynt angen triniaeth arbennig i'r cefn. Bydd hyn yn dal i ddigwydd lle y gellir cyfiawnhau hynny'n glinigol. Ymchwilaf i'r amgylchiadau penodol y soniwyd amdanynt.

Mick Bates: Brif Weinidog, mae Lloegr yn awr wedi efelychu un o lwyddiannau'r Llywodraeth bartneriaeth sef darparu cludiant am ddim i bobl dros 60 oed ac i bobl anabl. Gwyddoch, efallai, fod rhai awdurdodau ar y ffin yng Nghymru yn caniatáu i'r tocynnau teithio am ddim ar fysiau gael eu defnyddio ar deithiau i drefi yn Lloegr. Ar hyn o bryd, mae hyn yn dechrau achosi ychydig o ddryswch diangen i lawer o deithwyr mewn oed a theithwyr anabl. Pa drafodaethau yr ydych wedi eu cynnal gyda chyd-Weinidogion yn San Steffan ynghylch trefniadau dwyochrog a fyddai'n caniatáu i bobl anabl a'r rhai dros 60 deithio am ddim drwy'r ardaloedd ar y ffin, o Loegr i Gymru ac o Gymru i Loegr, heb orfod poeni am y

in some cases?

taliadau annisgwyl sydd wedi'u codi mewn rhai achosion?

The First Minister: I would certainly like to think that we can work on the basis of reciprocity. Ken Livingstone and Hugo Chávez have arranged that people who get free bus passes in London can use them in Caracas and, likewise, people who come from Venezuela to London can use their passes in London. That is wonderful. [*Laughter.*] I think that we ought to be able to achieve the same thing with Wales and England.

Y Prif Weinidog: Yn sicr, hoffwn feddwl y gallwn weithio ar sail dwyochredd. Mae Ken Livingstone a Hugo Chávez wedi trefnu y gall pobl sy'n cael docynnau teithio am ddim ar fysiau yn Llundain eu defnyddio yn Caracas, a'r un modd gall pobl sy'n dod o Feneswela i Lundain ddefnyddio'u tocynnau yn Llundain. Mae hynny'n rhyfeddol. [*Chwerthin.*] Credaf y dylem allu cyflawni'r un peth yng nghyswllt Cymru a Lloegr.

Fuel Poverty

Tlodi Tanwydd

Q10 Peter Black: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's strategy to reduce the number of people living in fuel poverty in Wales? OAQ(3)658(FM)

C10 Peter Black: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru? OAQ(3)658(FM)

The First Minister: A statistical bulletin published this morning showed a fall of 10 per cent in excess winter deaths in Wales from 2005-06 to last winter. This is very welcome news in the context of our strategy for tackling fuel poverty in Wales and the 'One Wales' commitment to a national energy efficiency and savings plan.

Y Prif Weinidog: Dangosodd bwletin ystadegol a gyhoeddwyd y bore yma fod y marwolaethau ychwanegol yn y gaeaf yng Nghymru wedi gostwng 10 y cant rhwng 2005-06 a'r gaeaf diwethaf. Mae hyn yn newyddion da iawn yng nghyd-destun ein strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru ac ymrwymiad 'Cymru'n Un' i gynllun cenedlaethol effeithlonrwydd ac arbed ynni.

Peter Black: I am glad that you mentioned statistics, because I understand that, if you are to target fuel poverty properly, you need to know exactly where the fuel poor are living in Wales. I understand that, some time ago, a former Minister with responsibility for social justice commissioned a research report to estimate the number of people who are fuel poor in each ward in Wales, and that that was due to report in June 2007. As I understand it, that work has not yet started. What priority is being given to getting up-to-date statistics on the number of fuel poor in Wales and where they are living? How will you use that information to better further your objectives?

Peter Black: Yr wyf yn falch eich bod wedi sôn am ystadegau, am fy mod yn deall, os ydych am fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn iawn, y bydd angen ichi wybod lle yn union yng Nghymru y mae'r bobl sy'n dlawd o ran tanwydd yn byw. Yr wyf yn deall bod cyn Weinidog a oedd â chyfrifoldeb dros gyfiawnder cymdeithasol wedi comisiynu adroddiad ymchwil, gryn amser yn ôl, i amcangyfrif nifer y bobl sy'n dlawd o ran tanwydd ym mhob ward yng Nghymru, a bod yr adroddiad i fod i gael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2007. Yn ôl yr hyn yr wyf yn ei ddeall, nid yw'r gwaith hwnnw wedi'i ddechrau eto. Pa flaenoriaeth a roddir i gael ystadegau cyfredol ar gyfer nifer y bobl yng Nghymru sy'n dlawd o ran tanwydd, ac ymhle y maent yn byw? Sut y defnyddiwech y wybodaeth honno i hyrwyddo'ch amcanion?

The First Minister: That report is expected

Y Prif Weinidog: Disgwylir yr adroddiad

this summer. We have the overall pan-Wales data that showed a 10 per cent fall last winter, 2006-07, compared with 2005-06, which is very welcome, but the study on the electoral-ward basis has been regrettably delayed, because of struggles to establish the methodology that the contractor was going to use. A revised modelling plan has now been agreed and we believe that the data will be available in the summer.

Bethan Jenkins: You mentioned earlier that there had been a fall of 10 per cent in excess winter deaths in Wales. Many cases involve the death of people who are over 85 years of age and who use pre-payment meters to purchase their energy. In light of today's report, are you planning to discuss with the four big energy suppliers the impact that pre-payment meter charges are having on consumers in Wales?

The First Minister: The subject of pre-payment meters is a difficult one. In theory, they are very bad for the poor, because they charge an extra 10 per cent compared with the classic quarterly bill. On the other hand, some people insist that they much prefer them, because they regard them as a great aid in budgeting. That is where the theory goes out of the window and practice has to be listened to. I know that it sounds bad, but that is what some people want, because they think that it makes it easier to budget. Regardless of what we may think—that it makes no sense—that is what people say. Ensuring that people can mature to the point where they feel that they can handle a three-monthly bill at a lower cost and put aside money to pay that bill, and adapt to that culture change, will take a lot of work.

Paul Davies: Mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn buddsoddi arian mewn cynlluniau fel y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, ond, yn ddiweddar, mae nifer o etholwyr wedi cwyno am y cynllun hwnnw. Dywedodd un etholwraig wrthyf fod y broses gofrestru wedi cymryd tua phum mis. Ar ddiwedd y broses, dywedodd ei bod wedi cael ei chynghori i wneud cais am gynllun

hwnnw yr haf yma. Dangosodd y data ar gyfer Cymru gyfan yn gyffredinol ostyngiad o 10 y cant y gaeaf diwethaf, 2006-07, o'i gymharu â 2005-06, sydd yn newyddion da iawn, ond, yn anffodus, bu oedi yn yr astudiaeth ar sail wardiau etholiadol, oherwydd anawsterau wrth geisio sefydlu'r fethodoleg y byddai'r contractwr yn ei defnyddio. Cytunwyd ar gynllun modelu diwygiedig erbyn hyn, a chredwn y bydd y data ar gael yn yr haf.

Bethan Jenkins: Soniasoch yn gynharach fod y marwolaethau ychwanegol yn y gaeaf wedi gostwng 10 y cant yng Nghymru. Mae llawer o'r achosion yn cynnwys marwolaethau pobl dros 85 oed ac sy'n defnyddio mesuryddion talu ymlaen llaw i brynu eu hynni. Yng ngoleuni'r adroddiad a gyhoeddwyd heddiw, a ydych yn bwriadu trafod effaith y mesuryddion talu ymlaen llaw ar ddefnyddwyr yng Nghymru gyda'r pedwar darparwr ynni mawr?

Y Prif Weinidog: Mae pwnc mesuryddion talu ymlaen llaw yn un anodd. Mewn theori, maent yn wael iawn i bobl dlawd, am eu bod yn codi 10 y cant yn ychwanegol o'u cymharu â'r bil chwarterol arferol. Ar y llaw arall, mae rhai pobl yn mynnu eu bod yn well o lawer ganddynt, am eu bod yn eu hystyried yn gymorth gwych wrth gyllidebu. Dyna lle y rhoddir y theori o'r neilltu ac y mae'n rhaid rhoi sylw i'r agwedd ymarferol. Yr wyf yn ymwybodol bod hynny'n swnio'n wael, ond dyna y mae ar rai pobl ei eisiau, am ei fod, yn eu tyb hwy, yn gwneud cyllidebu'n haws. Waeth beth yr ydym yn ei gredu—nad yw hynny'n gwneud synnwyr—dyna y mae pobl yn ei ddweud. Bydd sicrhau bod pobl yn aeddfedu nes byddant yn teimlo y gallant ymdopi â bil bob tri mis ar gost is, a rhoi arian o'r neilltu i dalu'r bil hwnnw, ac addasu i'r newid hwnnw yn eu harferion, yn waith caled.

Paul Davies: It is important that the Government invests money in such schemes as the home energy efficiency scheme, but, recently, many of my constituents have been complaining about that scheme. One constituent has told me that the registration process has taken around five months. She said that, at the end of that process, she was advised to apply for another scheme, because

arall, oherwydd y byddai'n cymryd amser hir i drefnu i insiwleiddio'r tŷ. Dan yr amgylchiadau hynny, a all y Prif Weinidog gadarnhau ei fod yn ymwybodol o'r problemau hyn a sicrhau y bydd gweinyddiaeth y cynllun hollbwysig hwn yn gwella yn y dyfodol?

Y Prif Weinidog: Gallaf gadarnhau y byddaf i, neu Brian Gibbons, sy'n gyfrifol am y cynllun, yn ymchwilio i'r mater hwn. Er mwyn targedu'r grwpiau hynny sydd fwyaf tebygol o ddioddef problemau iechyd, neu hyd yn oed waeth, oherwydd na allant fforddio gwresogi'r tŷ ar raddfa resymol, mae'n bwysig ein bod yn cael yr wybodaeth sy'n ein galluogi i dargedu. Mae hynny'n golygu ffurflenni; yn anffodus, mae angen prosesu nifer fawr o ffurflenni. Efallai nad hynny sy'n achosi'r broblem; efallai fod gormod o alw a dim digon o adnoddau, gan fod y cynllun yn fwy poblogaidd ers i brisiau yn y maes hwn godi'n sylweddol yn sgîl y marchnadoedd byd-eang. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn fodlon darparu enghreifftiau o brofiadau eich etholwyr er mwyn imi baratoi ateb penodol.

it would take a long time to arrange insulation for the house. Under those circumstances, could the First Minister confirm whether he is aware of these problems and ensure that the administration of this crucial scheme is improved in the future?

The First Minister: I can confirm that I, or Brian Gibbons, who is responsible for the scheme, will look into the matter. In order to target those groups that are most vulnerable to health problems, or worse, because they cannot afford to heat their homes on a reasonable rate, it is important that we obtain the information that enables us to target those groups. That means forms; and unfortunately, there are many forms to be processed. That may not be the cause of the problem; it may be that there is too much demand and insufficient resources, as the scheme has become more popular since the level of charges has increased considerably due to the global market. I would be grateful if you could provide examples of your constituents' experiences so that I can prepare a definite answer.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): I have two changes to report to this week's planned Government business. Following this business statement, the First Minister will make a statement on the closure of Tower Colliery. I apologise, Llywydd, that you and members of the Business Committee were not informed this morning, but steps were taken to inform business managers earlier this afternoon of the First Minister's intention to make the statement today. I am sure that Members would agree that it is appropriate for us to mark the occasion of the closure of Tower Colliery and to pay tribute to the outstanding achievements of the miners there both during their time as a workers' co-operative and, indeed, before, with a statement in Plenary this afternoon.

Members will also be asked this afternoon to approve the motion to suspend that part of Standing Order No. 23.24 that allows the

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Mae gennyf ddau newid i'w cyhoeddi ym musnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon. Ar ôl y datganiad busnes hwn, bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad ynghylch cau Glofa'r Tŵr. Ymddiheuraf, Lywydd, na chawsoch chi nac aelodau'r Pwyllgor Busnes eich hysbysu y bore yma, ond cymerwyd camau i hysbysu'r rheolwyr busnes yn gynharach y prynhawn yma ynghylch bwriad y Prif Weinidog i wneud y datganiad heddiw. Yr wyf yn siŵr y byddai'r Aelodau yn cytuno ei bod yn briodol inni nodi achlysur cau Glofa'r Tŵr a thalu teyrnged i lwyddiannau ardderchog y glowyr, tra oeddent yn rhan o gydweithfa gweithwyr ac, yn wir, cyn hynny, drwy wneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma.

Gofynnir i'r Aelodau hefyd y prynhawn yma gymeradwyo'r cynnig i atal y rhan honno o Reol Sefydlog 23.24 sy'n caniatáu i'r

Minister for Health and Social Services to propose this afternoon that the Assembly agrees to the general principles of the Proposed NHS Redress (Wales) Measure 2007. This means that the requirement for a period of five working days between the date of the laying of the Proposed NHS Redress (Wales) Measure Committee report and the date of the debate is being suspended.

Business for the next three weeks is as set out in the draft business statement and announcement, which can be found in the agenda papers and which are available to Members electronically.

Jonathan Morgan: The Leader of the House will be aware that the Welsh-medium primary school sector has contributed enormously to the number of young people in Wales who are fluent in Welsh. In my constituency, roughly 75 per cent of the children who attend Welsh-medium primary schools come from English-speaking families, so the contribution, particularly in Anglicised areas, is quite considerable. I understand, however, that many local authorities in Wales are struggling to increase the supply of Welsh-medium school places where there is clearly an increase in demand, such as in my constituency and other areas throughout Cardiff. Is it not time for the Assembly to debate the tremendous contribution that Welsh-medium primary schools play in delivering the Assembly Government's goal of a bilingual Wales and to allow Assembly Members the opportunity to debate that contribution and to allow us to look at ways of improving that situation over the next five to 10 years? Without the Welsh-medium primary school sector we would not be as successful as we have been.

3.00 p.m.

Carwyn Jones: I declare an interest in that both of my children attend a Welsh-medium primary school where more than 90 per cent of the children come from homes that do not have even one Welsh-speaking parent. It is also a school that serves a large housing association estate and has a very mixed

Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynnig y prynhawn yma fod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007. Golyga hyn y bydd y gofyniad am gyfnod o bum niwrnod gwaith rhwng dyddiad gosod adroddiad y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) a dyddiad y dadl yn cael ei atal.

Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes drafft, sydd i'w weld ym mhapurau'r agenda ac sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

Jonathan Morgan: Bydd Arweinydd y Tŷ yn ymwybodol bod y sector ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi cyfrannu'n enfawr at nifer y bobl ifanc yng Nghymru sy'n rhugl yn y Gymraeg. Yn fy etholaeth, mae tua 75 y cant o'r plant sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn dod o deuluoedd Saesneg, felly mae'r cyfraniad, yn enwedig mewn ardaloedd Seisnig, yn eithaf sylweddol. Yr wyf yn deall, fodd bynnag, fod llawer o awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg lle y mae cynnydd amlwg yn y galw amdanynt, megis yn fy etholaeth ac mewn ardaloedd eraill ledled Caerdydd. Onid yw'n bryd i'r Cynulliad gynnal dadl ynghylch y cyfraniad anferth y mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ei wneud o ran gwireddu nod Llywodraeth y Cynulliad o gael Cymru ddwyieithog ac i roi cyfle i Aelodau'r Cynulliad i gynnal dadl ynghylch y cyfraniad hwnnw ac i ganiatáu inni edrych ar ffyrdd o wella'r sefyllfa honno dros y bump i 10 mlynedd nesaf? Heb y sector ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ni fyddem mor llwyddiannus ag yr ydym wedi bod.

Carwyn Jones: Datganaf fuddiant gan fod fy nau blentyn yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg lle y mae mwy na 90 y cant o'r plant yn dod o gartrefi lle nad oes hyd yn oed un o'r rhieni'n siarad Cymraeg. Mae hefyd yn ysgol sy'n gwasanaethu ystâd fawr sy'n eiddo i gymdeithas dai ac mae'r rhai a

intake. We very much welcome that.

We have to split the issue of support for Welsh-medium education, which is general throughout this Chamber, from the issue of the organisation of schools within Wales's local authorities. It is a matter for local authorities to organise their education provision appropriately. I note what has happened in Cardiff and the fact that decisions still need to be taken. However, that is a matter for the local authority and is not something that it can shy away from.

Alun Davies: Numerous Members have brought the issue of Remploy to your attention during your weekly statement, and many have asked for a debate or a statement on the company as the process of consultation has continued over the past few months. We now know that three plants will close in Wales, and I regard the merger of the Brynaman and Ystradgynlais plants as a closure. May I ask for a statement from the Deputy First Minister, or another appropriate Minister, on how the Welsh Assembly Government will be working with the Department for Work and Pensions and with Remploy to secure some sort of future for the people that the company is walking away from?

Carwyn Jones: We know of the difficulties at Brynaman and Ystradgynlais and the proposals for those two factories. The situation in Treforest is slightly more promising, in the sense that the Deputy Minister for Regeneration has written to the Secretary of State for Work and Pensions urging him to press Remploy to reconsider its stance on the workers' co-operative proposal, which, thus far, has not been supported on the grounds that it would incur a significant additional cost.

On the very day that we are to hear a statement on the closure of Tower Colliery, and to hear about the work that was done back in the mid 1990s to preserve it and about its success as a workers' co-operative, I believe that full consideration should be given to this matter. The Government has already expressed its view via the letter regarding the possibilities of a workers' co-

opperbynnir yn gymysg iawn. Yr ydym yn croesawu hynny'n fawr.

Rhaid inni wahaniaethu rhwng mater y gefnogaeth i addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n gyffredinol ym mhob rhan o'r Siambr hon, a mater trefnu ysgolion yn awdurdodau lleol Cymru. Mater i awdurdodau lleol yw trefnu eu darpariaeth addysg yn briodol. Nodaf yr hyn sydd wedi digwydd yng Nghaerdydd a'r ffaith bod angen gwneud penderfyniadau o hyd. Er hynny, mae hynny'n fater i'r awdurdod lleol ac nid yw'n rhywbeth y gall ei osgoi.

Alun Davies: Mae nifer o Aelodau wedi dwyn mater Remploy i'ch sylw yn ystod eich datganiad wythnosol, ac mae llawer wedi gofyn am ddatl neu ddatganiad am y cwmni wrth i'r broses ymgynghori fynd rhagddi yn ystod y misoedd diwethaf. Gwyddom bellach y bydd tri gwaith yn cau yng Nghymru, ac yn fy marn i mae cyfuno gweithfeydd Brynaman ac Ystradgynlais yn golygu cau. A gaf ofyn am ddatganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog, neu gan Weinidog priodol arall, ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Remploy i sicrhau rhyw fath o ddyfodol i'r bobl y mae'r cwmni'n cefnu arnynt?

Carwyn Jones: Gwyddom am yr anawsterau ym Mrynman ac yn Ystradgynlais ac am y cynigion ar gyfer y ddwy ffatri hynny. Mae'r sefyllfa yn Nhreforest ychydig yn fwy addawol, gan fod y Dirprwy Weinidog dros Adfywio wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau gan ei annog i bwysu ar Remploy i ailystyried ei safbwynt ynghylch y cynnig ar gyfer cydweithfa gweithwyr, nas cefnogwyd, hyd yma, ar y sail y byddai'n golygu cost ychwanegol sylweddol.

Ar yr union ddiwrnod yr ydym i glywed datganiad am gau Glofa'r Tŵr, a chlywed am y gwaith a wnaethpwyd yng nghanol yr 1990au i'w chadw ac am ei llwyddiant fel cydweithfa gweithwyr, credaf y dylid ystyried y mater hwn yn llawn. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi mynegi ei barn drwy'r llythyr ynghylch y posibiladau o ran cael cydweithfa gweithwyr yn Nhreforest.

operative at Treforest. I understand that the situation in Brynaman and Ystradgynlais is rather different, but the view that has been expressed on all sides of this Chamber is that it is exceptionally important that if a decision is taken to close or merge Remploy factories, more than adequate substitutes in terms of employment are available to the workers. Many of us in this Chamber will have met Remploy employees in the course of our workdays as Assembly Members and will have heard the concerns of those employees, but, as far as the Assembly Government is concerned, we continue to press on behalf of all of those who work at the threatened Remploy factories in Wales.

Eleanor Burnham: Mae pryderon yng ngogledd Cymru ac mewn mannau eraill yng Nghymru ynglŷn â llifogydd. A fyddai'n bosibl trefnu amser i drafod y mater pwysig hwn? Caiiff llifogydd effaith ofnadwy ac mae llawer o bobl yn teimlo nad oes digon o arian yn cael ei roi i Asiantaeth yr Amgylchedd neu i awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddelio â'r effaith honno. O ystyried effaith andwyol llifogydd, teimlaf yn gryf y dylem drafod y mater.

Carwyn Jones: Mae arian wedi'i wario ar effeithiau llifogydd dros y blynyddoedd diwethaf. Os cofiaf yn iawn, yr oedd cynllun atal llifogydd yn yr Wyddgrug sawl blwyddyn yn ôl. Mae dyffryn Conwy wedi cael llawer o sylw dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i lifogydd yno. Mae ffordd o ddatrys y broblem yn nyffryn Conwy ac nid yw honno'n ddibynnol ar arian, ond yn hytrach byddai'n rhaid dod o hyd i'r ffordd dechnolegol a pheiriannol fwyaf effeithlon i ddelio â'r broblem. Ymwelais â dyffryn Conwy ddwy neu dair blynedd yn ôl wedi llifogydd, a bûm yn Nhrefriw a Llanrwst i weld y sefyllfa yno. Nid dŵr yn dod dros lannau'r afon oedd y broblem yn Llanrwst, ond dŵr yn dod i fyny drwy'r ddaear. Golyga hynny nad yw'n bosibl defnyddio wal gonfensiynol i atal llifogydd, a rhaid dod o hyd i ffordd arall o wneud hynny.

Mae hefyd faterion ynghylch tir ffermwyr yn nyffryn Conwy, ac un o'r cynlluniau ar gyfer y dyffryn hwnnw yw gadael i'r dŵr arllwys dros dir y ffermwyr. Yn hanesyddol yn yr

Yr wyf yn deall bod y sefyllfa ym Mrynaman ac Ystradgynlais yn wahanol braidd, ond y farn a fynegwyd ar bob ochr yn y Siambr hon yw ei bod yn eithriadol bwysig, os penderfynir cau neu gyfuno ffatrioedd Remploy, y bydd gwaith derbyniol ar gael i'r gweithwyr yn lle hynny. Bydd llawer ohonom yn y Siambr hon wedi cwrdd â gweithwyr Remploy yn ystod ein dyddiau gwaith fel Aelodau'r Cynulliad ac wedi clywed pryderon y gweithwyr hynny, ond, o ran Llywodraeth y Cynulliad, yr ydym yn dal i bwysu ar ran pawb sy'n gweithio yn ffatrioedd Remploy yng Nghymru sydd dan fygythiad.

Eleanor Burnham: There are concerns in north Wales and in other areas regarding the issue of flooding. Would it be possible to allocate time to discuss this important issue? Floods have a terrible impact and many people feel that not enough money goes to the Environment Agency or local authorities to enable them to deal with that effect. Given the detrimental effect of flooding, I feel very strongly that we should discuss the matter.

Carwyn Jones: Money has been spent on the effects of flooding in recent years. If I recall correctly, a flood defence scheme was introduced in Mold some years ago. The Conwy valley has been the subject of a great deal of attention in recent years because of the effects of flooding in the area. Finding the most efficient technological and engineering solutions could resolve the problem in the Conwy valley, rather than the provision of more funding. I visited the valley some two or three years ago following floods there, and I visited Trefriw and Llanrwst to look at the situation there. The problem in Llanrwst was not related to the river breaking its banks, but to water coming up through the ground. That means that it is not possible to use a conventional flood defence, and therefore we must consider other ways of dealing with the problem.

There are also issues surrounding farm-land in the Conwy valley, and one of the schemes planned for the area involves allowing flood water to flow onto farm-land. Historically in

ardal honno, mae'r tir amaethyddol wedi ei warchod, yn wahanol i'r pentrefi. Felly, mae'n rhaid ystyried sawl mater technegol cyn rhoi cynllun effeithiol ar waith, ac nid problem ariannol ydyw.

Leanne Wood: Would you consider having a debate to discuss how we can achieve safer communities? I have been contacted by Gerwyn Evans, a constituent from Maerdy, about a serious incident on public transport in the Rhondda to which the police were called and unfortunately did not attend. A group of people threw stones and broke two windows on a bus returning from Cardiff. These types of incidents do nothing to improve people's wellbeing or their confidence to use public transport. The devolution of powers over youth and criminal justice to this Assembly so that we can create safer communities and improve people's lives in Wales is long overdue.

Could you also make time for a statement or a debate on the problem of rising heating costs and disconnection? You might be aware of a report by the energy regulator, Ofgem, which criticised Npower for having the highest number of customer disconnection rates of all the major gas and electricity businesses. It is estimated that around 240,000 Welsh households need to spend more than 10 per cent of their income to heat their homes. I hope that you agree that, in the twenty-first century, no-one in Wales should be deprived of a basic necessity like heating. Obviously, this problem affects households with the lowest incomes. So, I would be grateful if you could schedule a debate or a statement so that Members can be informed about what the One Wales Government plans to do to address these problems.

Carwyn Jones: In terms of safer communities, much work has been done over time. It is a matter of record that there is a commitment within the 'One Wales agreement' to examining the evidence on devolving powers relating to criminal justice. Although, we should not kid ourselves that that is necessarily a way of reducing crime

the area, agricultural land has been protected, whereas the villages have not. Therefore, there are several technical issues that need to be considered before an efficient scheme can be put in place, but it is not a financial problem.

Leanne Wood: A fyddech yn ystyried cael dadl i drafod sut y gallwn gael cymunedau mwy diogel? Mae Gerwyn Evans, un o'm hetholwyr yn y Maerdy, wedi cysylltu â mi ynghylch digwyddiad difrifol ar drafnidiaeth gyhoeddus yn y Rhondda y galwyd yr heddlu ato a hwythau heb gyrraedd, gwaetha'r modd. Tafloodd grŵp o bobl gerrig a thorri dwy ffenestr ar fws a oedd yn dychwelyd o Gaerdydd. Nid yw digwyddiadau o'r fath yn gwneud dim i hyrwyddo lles pobl na'u hymdeimlad o sicrwydd wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae'n hen bryd datganoli pwerau dros ieuenctid a chyfiawnder troseddol i'r Cynulliad hwn fel y gallwn greu cymunedau mwy diogel a gwella bywydau pobl yng Nghymru.

A allech hefyd neilltuo amser ar gyfer datganiad neu ddadl am broblem costau cynyddol gwresogi a datgysylltu? Efallai y gwyddoch am adroddiad gan y corff rheoleiddio ynni, Ofgem, a feirniadodd Npower am mai ganddo ef yr oedd y cyfraddau uchaf ar gyfer datgysylltu cwsmeriaid o'r holl brif fusnesau nwy a thrydan. Amcangyfrifir bod angen i tua 240,000 o aelwydydd yng Nghymru wario mwy na 10 y cant o'u hincwm ar wresogi eu cartrefi. Gobeithiaf eich bod yn cytuno na ddylai neb yng Nghymru, yn yr unfed ganrif ar hugain, gael ei amddifadu o anghenraid sylfaenol fel gwres. Wrth gwrs, mae'r broblem hon yn effeithio ar aelwydydd sydd â'r incwm isaf. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech drefnu dadl neu ddatganiad fel y gellir rhoi gwybod i Aelodau am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n Un yn bwriadu ei wneud i ddelio â'r problemau hyn.

Carwyn Jones: O ran cymunedau mwy diogel, mae llawer o waith wedi'i wneud dros amser. Mae'n hysbys bod ymrwymiad yng nghytundeb 'Cymru'n Un' i ystyried y dystiolaeth ynghylch datganoli pwerau sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol. Er hynny, ni ddylem ein twyllo ein hunain fod hynny o reidrydd yn fodd i ostwng troseddu ac

and anti-social behaviour. We know that it is far more complicated than that. The incident to which you referred is an exceptionally unfortunate one that everyone here would condemn.

On heating costs, it is a matter of fact that they have risen quite dramatically over the past few years, particularly the cost of gas. Heating costs is a non-devolved area, but, in terms of what we have done and continue to do as the One Wales Government, we look to assist where we can to reduce people's heating costs with schemes such as the home energy efficiency scheme. Many people have benefited by seeing their heating costs reduce as a result. However, I am sure that your points on heating costs can be raised with the appropriate Minister. Rising heating costs is a difficult issue to grapple with, and we need to examine carefully the issue of people being cut off because they cannot pay their bills. It is certainly the case that we look to work with the water companies, for example, to encourage them to ensure that they consider cutting off people's water supply as a last resort, if that needs to be done at all.

William Graham: Will you consider making time for a statement or a debate, in conjunction with your colleague, the Minister for health, who was alluded to earlier in the most collegiate style, on the Grogan judgment? You will know that local health boards understood, around two years ago, that this Assembly would assist with continuing healthcare costs arising from that judgment. I am given to understand that they have now been directed to meet these costs and include them in their end-of-year estimates. However, for Gwent health board, that means going a further £8 million into the red. What impact will this have on delayed transfers of care, because the figures published today show 621 cases during December of last year alone?

3.10 p.m.

Carwyn Jones: The Grogan judgment was issued some time ago and the matter has been

ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwyddom ei bod yn llawer mwy cymhleth na hynny. Mae'r digwyddiad y cyfeiriasoch ato'n un eithriadol o anffodus y byddai pawb sydd yma'n ei gondemnio.

Ynghylch costau gwresogi, mae'n ffaith eu bod wedi codi'n eithaf sydyn dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig cost nwy. Nid yw costau gwresogi'n faes sydd wedi'i ddatganoli, ond, o ran yr hyn yr ydym wedi'i wneud ac yr ydym yn dal i'w wneud fel Llywodraeth Cymru'n Un, yr ydym yn ceisio estyn cymorth lle y gallwn i leihau costau gwresogi pobl drwy gynlluniau fel y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref. Mae llawer o bobl wedi elwa drwy weld eu costau gwresogi'n gostwng o ganlyniad. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y gellir codi'r pwyntiau a wnaethoch am gostau gwresogi gyda'r Gweinidog priodol. Mae costau cynyddol gwresogi'n fater anodd ei drin, ac mae angen inni ystyried yn ofalus y cwestiwn ynglŷn â datgysylltu cyflenwad pobl am na allant dalu eu biliau. Mae'n sicr yn wir ein bod yn ceisio cydweithio â'r cwmnïau dŵr, er enghraifft, i'w hannog i sicrhau eu bod yn gweld torri cyflenwad dŵr pobl yn ddewis olaf, os oes angen gwneud hynny o gwbl.

William Graham: A wnewch ystyried neilltuo amser ar gyfer datganiad neu ddadl, ar y cyd â'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog dros iechyd, y cyfeiriwyd ati'n gynharach yn y modd mwyaf colegol, ar ddyfarniad Grogan? Byddwch yn gwybod bod byrddau iechyd lleol wedi cael ar ddeall, tua dwy flynedd yn ôl, y byddai'r Cynulliad hwn yn helpu gyda chostau gofal iechyd parhaus a godai o ganlyniad i'r dyfarniad hwnnw. Yr wyf wedi cael ar ddeall eu bod wedi'u cyfarwyddo bellach i dalu'r costau hyn a'u cynnwys yn eu hamcangyfrifon diwedd blwyddyn. Fodd bynnag, yn achos bwrdd iechyd Gwent, mae hynny'n golygu mynd i £8 miliwn yn fwy o ddyled. Pa effaith a gaiff hyn ar oedi wrth drosglwyddo gofal, gan fod y ffigurau a gyhoeddwyd heddiw'n dangos bod 621 o achosion yn ystod mis Rhagfyr y llynedd yn unig?

Carwyn Jones: Cyhoeddwyd dyfarniad Grogan gryn amser yn ôl ac mae'r mater

the subject of ongoing discussions with LHBs, and preparations are in place for dealing with the potential consequences of the judgment. There are several cases before the continuing care ombudsman, the outcome of which will not be fully known or realised at the end of this financial year. Therefore, the Government's view is that LHBs could absorb the limited financial implications this year from their existing budget, but, for the 2008-09 budget, £100 million per annum will be allocated to support the commissioning of long-term care. In addition, the Assembly Government will issue a revised national framework for continuing NHS care.

On delayed transfers of care, the statistics published this morning show that there was a 3 per cent fall in the number of patients experiencing a delayed transfer of care in December 2007—the total number of patients was 621. That is a step in the right direction, but I assure you that the Minister for Health and Social Services will continue to closely monitor performance in this area.

Sandy Mewies: Leader of the House, will you bring forward a statement on the 235 job losses in Flintshire in the first month of 2008? You will be aware that the unemployment rate in Flintshire is generally low, and we are proud of that, but we must maintain it. Jobs have gone at Arquest Ltd and Keating Group in my constituency, and at Paramount Foods Ltd on Deeside industrial estate in the constituency of my colleague, Carl Sargeant, and we are both very concerned about these losses. Do you agree that all of the agencies—I have been in contact with them and I have written to the Deputy First Minister—must work together so that this slippage does not continue and that everything possible is done to support those people?

Carwyn Jones: It would perhaps be premature to make a statement on the job losses because the position is not quite as has been reported. Government officials are working closely with the affected companies to see what assistance can be provided to secure these jobs. For example, there is a

wedi bod yn destun trafodaethau parhaus gyda BILlau, ac mae paratodau wedi'u gwneud i ddelio â chanlyniadau posibl y dyfarniad. Mae amryw o achosion gerbron yr ombwdsmon gofal parhaol, na fydd y canlyniad iddynt yn gwbl hysbys nac wedi'i ddeall yn llawn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Felly, barn y Llywodraeth yw y gallai BILlau ddygymod â'r goblygiadau ariannol cyfyngedig eleni gyda'u cyllideb bresennol, ond, ar gyfer cyllideb 2008-09, dyrennir £100 miliwn y flwyddyn tuag at gomisiynu gofal hirdymor. Yn ogystal â hynny, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi fframwaith cenedlaethol diwygiedig ar gyfer gofal parhaol yn y GIG.

Ynghylch oedi wrth drosglwyddo gofal, mae'r ystadegau a gyhoeddwyd y bore yma'n dangos bod 3 y cant o ostyngiad yn nifer y cleifion a brofodd oedi wrth drosglwyddo gofal yn Rhagfyr 2007—621 oedd cyfanswm y cleifion. Mae hynny'n gam i'r cyfeiriad iawn, ond yr wyf yn eich sicrhau y bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal i fonitro'r perfformiad yn y maes hwn yn fanwl.

Sandy Mewies: Arweinydd y Tŷ, a wnewch gyflwyno datganiad am y 235 o swyddi a gollwyd yn sir y Fflint ym mis cyntaf 2008? Byddwch yn ymwybodol bod cyfradd diweithdra yn sir y Fflint yn isel yn gyffredinol, ac yr ydym yn ymfalchïo yn hynny, ond rhaid inni gynnal y gyfradd isel honno. Collwyd swyddi yn Arquest Cyf a Keating Group yn fy etholaeth, ac yn Paramount Foods Cyf ar ystâd ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy yn etholaeth fy nghyd-Aelod, Carl Sargeant, ac yr ydym ni'n dau'n bryderus iawn ynghylch colli'r swyddi hyn. A ydych yn cytuno fod yn rhaid i'r holl asiantaethau—bûm mewn cysylltiad â hwy ac yr wyf wedi ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog—weithio gyda'i gilydd fel na fydd y duedd hon yn parhau ac fel y gwneir popeth a ellir i gynorthwyo'r bobl hynny?

Carwyn Jones: Efallai y byddai'n rhy fuan i wneud datganiad ynghylch colli'r swyddi gan nad yw'r sefyllfa'n union fel y mae wedi'i disgrifio. Mae swyddogion y Llywodraeth yn cydweithio'n agos â'r cwmnïau yr effeithiwyd arnynt i weld pa gymorth y gellir ei roi i gadw'r swyddi hyn. Er enghraifft, mae

possibility of a management buy-out at Keating Group in Mold in your constituency, where 90 jobs are at risk. Although there is the potential for 235 job losses, it is by no means a certainty. We should not create unnecessary concern, and we, as a Government, need to continue to work to salvage most, if not all, of the jobs in the future. You are right to say that Flintshire is economically very successful, but that does not mean that we will waver in our efforts to help people in such situations, in Flintshire and elsewhere in the north.

Mick Bates: Leader of the House, will you find time for a statement on the future funding of trading standards services in Wales? This is borne from my concern that there has been a recent 12 per cent cut in their budget, and, in my local authority of Powys, this has amounted to the loss of £35,000 and two members of staff. I am sure that you will be aware of the critical importance that trading standards services play in monitoring animal health and the enforcement of animal movements. On top of the 12 per cent cut, there is a further efficiency saving of 2.5 per cent, and I am sure that you would share my concern that a reduction in resources will seriously compromise the ability of trading standards officers to respond to disease outbreaks such as bluetongue and avian flu, further outbreaks of which are anticipated for the near future. So, this funding is crucial, and I believe that the appropriate Minister should issue a statement on how your Government will address these funding losses so that we have enough staff to deal with any future outbreaks of these diseases.

Carwyn Jones: Any cut in trading standards funding is a matter for the local authority concerned, and it is not an issue for the Assembly Government. You are right to say that an effective and efficient trading standards service should be in place in all local authorities in Wales, because, as you and I will know from experience, when it comes to dealing with animal diseases, the enforcement of regulations is necessary in times of emergency for safeguarding animal health. However, it is a matter for local

possibilrwydd y bydd y rheolwyr yn prynu'r busnes yn Keating Group yn yr Wyddgrug yn eich etholaeth, lle y mae 90 o swyddi mewn perygl. Er y gellid colli 235 o swyddi, nid yw hynny'n sicr o bellffordd. Ni ddylem greu pryder diangen, ac mae angen i ni, fel Llywodraeth, barhau i ymdrechu i gadw'r rhan fwyaf, os nad y cwbl, o'r swyddi yn y dyfodol. Yr ydych yn iawn wrth ddweud bod sir y Fflint yn llwyddiannus iawn yn economaidd, ond nid yw hynny'n golygu y byddwn yn llaesu dwylo wrth helpu pobl mewn sefyllfaoedd o'r fath, yn sir y Fflint ac mewn mannau eraill yn y gogledd.

Mick Bates: Arweinydd y Tŷ, a wnewch neilltuo amser ar gyfer datganiad am ariannu gwasanaethau safonau masnach yng Nghymru yn y dyfodol? Mae hyn yn deillio o'm pryder bod toriad o 12 y cant wedi bod yn eu cyllideb yn ddiweddar, ac, yn fy awdurdod lleol i, sef Powys, mae hyn wedi golygu colli £35,000 a dau aelod o'r staff. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn ymwybodol o'r rhan hollbwysig sydd gan wasanaethau safonau masnach wrth fonitro iechyd anifeiliaid a gorfodi symudiadau anifeiliaid. Ar ben y toriad o 12 y cant, mae arbediad pellach drwy wella effeithlonrwydd o 2.5 y cant, ac yr wyf yn siŵr y byddech yn bryderus fel minnau y bydd gostyngiad mewn adnoddau'n amharu'n ddifrifol ar allu swyddogion safonau masnach i ymateb i achosion o glefydau fel y tafod glas a ffliw adar, y rhagwelir y ceir rhagor ohonynt yn y dyfodol agos. Felly, mae'r cyllid hwn yn hollbwysig, a chredaf y dylai'r Gweinidog priodol gyhoeddi datganiad ynghylch sut y bydd eich Llywodraeth yn delio â cholli'r cyllid fel y bydd gennym ddigon o staff i ddelio ag unrhyw achosion o'r clefydau hyn yn y dyfodol.

Carwyn Jones: Mater i'r awdurdod lleol dan sylw yw unrhyw doriad yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau safonau masnach, ac nid i Lywodraeth y Cynulliad. Yr ydych yn iawn wrth ddweud y dylai gwasanaeth safonau masnach effeithiol ac effeithlon fod ar waith yn yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, oherwydd, fel y byddwch chi a minnau'n gwybod o brofiad, pan fydd angen delio â chlefydau anifeiliaid, mae gorfodi rheoliadau yn angenrheidiol ar adegau o argyfwng er mwyn diogelu iechyd anifeiliaid. Fodd

authorities to explain if they are cutting the funding for trading standards.

Lesley Griffiths: Delivering the London 2012 Olympic and Paralympic Games provides a fantastic opportunity for Welsh companies to compete for and win contracts for goods and services. So far, in preparation for London 2012, 500 contracts worth more than £1 billion have been awarded, with 98 per cent of those being won by UK companies, and half being won by small and medium-sized enterprises outside London. Will you join me in urging Welsh companies to take full advantage of London 2012 by registering with both the Olympic delivery authority and the London organising committee of the Olympic Games, to ensure that Wales gets its fair share of this unique business opportunity for our country?

Carwyn Jones: I agree absolutely. It is exceptionally important that we encourage all organisations, not just companies, to take as much advantage as possible of the fact that the Olympics will be held in London in 2012. It should be very much a British event, and that means making sure that as much money as possible is spread across the UK via the contracts that you mentioned.

Chris Franks: Do you intend to find space in the timetable for the Minister for Health and Social Services to make a statement on accident-and-emergency department waiting times? I am particularly concerned that emergency patients at the University Hospital of Wales Cardiff face the longest waiting times in the country, according to the latest figures.

Carwyn Jones: There are no plans for a statement, but I am sure that, if the Minister were questioned in the Chamber or if letters were sent to her, she would provide you with a full answer to your question.

bynna, mater i awdurdodau lleol yw esbonio os ydynt yn cwtdgi'r cyllid ar gyfer safonau masnach.

Lesley Griffiths: Mae darparu Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012 yn cynnig cyfle gwych i gwmnïau o Gymru gystadlu am gontractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, a'u hennill. Hyd yma, wrth baratoi ar gyfer Llundain 2012, mae 500 o gontractau gwerth mwy nag £1 biliwn wedi'u dyfarnu, ac mae 98 y cant o'r rheini wedi'u hennill gan gwmnïau yn y DU, a hanner y rheini'n gwmnïau bach a chanolig o'r tu allan i Lundain. A wnewch ymuno â mi i annog cwmnïau o Gymru i fanteisio i'r eithaf ar Lundain 2012 drwy gofrestru gydag awdurdod darparu'r gemau Olympaidd a phwyllgor trefnu'r gemau yn Llundain, i sicrhau bod Cymru'n cael ei chyfran deg o'r cyfle unigryw hwn i gael busnes i'n gwlad?

Carwyn Jones: Cytunaf yn llwyr. Mae'n eithriadol o bwysig inni annog pob sefydliad, nid cwmnïau'n unig, i fanteisio hynny a allant ar y ffaith y cynhelir y gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012. Dylai fod yn ddigwyddiad Prydeinig o'r iawn ryw, a golyga hynny sicrhau bod cymaint o arian ag sy'n bosibl yn cael ei wasgaru ar draws y DU drwy'r contractau y soniasoch amdanynt.

Chris Franks: A ydych yn bwriadu canfod lle yn yr amserlen i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad am amseroedd aros adrannau damweiniau ac achosion brys? Yr wyf yn arbennig o bryderus bod cleifion brys yn Ysbyty Prifysgol Cymru Caerdydd yn wynebu'r amseroedd aros hwyaf yn y wlad, yn ôl y ffigurau diweddaraf.

Carwyn Jones: Nid oes dim cynlluniau ar gyfer datganiad, ond yr wyf yn siŵr, pe holid y Gweinidog yn y Siambr neu ped anfonid llythyrau ati, y rhoddai ateb llawn ichi i'ch cwestiwn.

Datganiad am Gau Glofa'r Tŵr **Statement on the Closure of Tower Colliery**

Y Prif Weinidog: Mae'n hollol deilwng i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gydnabod bod y shift olaf wedi'i gweithio ddydd Gwener diwethaf ym mhwl glo dwfn olaf Cymru, sef Glofa'r Tŵr yn Hirwaun yng nghwm Cynon. Byddem yn anwybyddu ein dyletswyddau gwleidyddol pe na baem yn nodi digwyddiad mor bwysig ac arwyddocaol, er mai gyda chymysgedd o falchder a thristwch y gwnawn hynny.

The significance of Tower Colliery's closure is not because it is the end of an era, but because Tower Colliery became the first employee-owned deep mine in Wales, and probably the first in the world. Tower is therefore simultaneously the last throw of the die for the old Wales and the first throw of the die for the new Wales that we aspire to embody as a democratically elected Assembly. The buy-out of Tower Colliery by its workers preceded the formation of the Assembly by two or three years, but it embodied a willingness in Wales to take control of our own destiny, to take responsibility for our own future, for saving our own jobs, our own communities, our own Valley, and our own mining industry.

The colliery workers made a success of it, despite all the difficult geological conditions for which Tower was notorious. They did not fall flat on their faces, although they accepted that they might have done and that there would be no-one else to blame had that happened. They accepted that they would and should get the credit for having a go, and that was what the collective act of industrial enterprise was all about. It was also a key part of Wales growing up as a nation, becoming a more risk-taking, enterprising, self-confident nation. In a way, it is just a bonus that they did make a success of it; Tower closed last week only for the want of any coal to mine. The importance of this event in our development as a country was because it showed that someone had the guts and the confidence to take a risk, and to take responsibility for their own decisions.

In another sense, Tower Colliery is not just a

The First Minister: It is entirely appropriate for the National Assembly for Wales to mark the fact that the final shift was worked at the last deep mine in Wales last Friday, at Tower Colliery, Hirwaun, in the Cynon valley. We would be ignoring our political duties if we did not mark such an important and significant event, despite the fact that it is with a mixture of pride and sadness that we do so.

Nid am ei bod yn ddiwedd cyfnod y mae cau Glofa'r Tŵr yn arwyddocaol, ond am mai Glofa'r Tŵr oedd y pwll glo dwfn cyntaf i fynd i feddiant y gweithwyr yng Nghymru, a'r cyntaf yn y byd, mae'n debyg. Felly, ar yr un pryd, mae'r Tŵr yn cyfleu machlud yr hen Gymru a gwawr y Gymru newydd y gobeithiwn ein bod yn ymgorfforiad ohoni fel Cynulliad a etholwyd yn ddemocrataidd. Prynwyd Glofa'r Tŵr gan ei gweithwyr ddwy neu dair blynedd cyn dyfod y Cynulliad, ond yr oedd yn ymgorffori parodrwydd yng Nghymru i fynnu rheolaeth ar ein tynged ein hunain, i gymryd cyfrifoldeb dros ein dyfodol ein hunain, i achub ein swyddi ein hunain, ein cymunedau ein hunain, ein Cwm ein hunain, a'n diwydiant glo ein hunain.

Llwyddodd gweithwyr y lofa, er gwaethaf yr holl amodau daearegol anodd yr oedd y Tŵr yn nodedig amdanynt. Nid aeth y fenter i'r gwellt, er y derbynient y gallai hynny fod wedi digwydd ac na fyddai neb arall i'w feio petai hynny wedi digwydd. Derbynient y caent y clod—ac y dylent gael hynny—am roi cynnig arni, a dyna oedd hanfod y fenter ddiwydiannol ar y cyd. Yr oedd yn rhan allweddol hefyd o brifant Cymru fel cenedl, gan droi'n genedl sy'n fwy parod i gymryd siawns, yn fwy mentrus, a mwy hunanhyderus. Mewn ffordd, bonws yw'r ffaith iddynt lwyddo; yr unig reswm pam y caeodd y Tŵr yr wythnos diwethaf oedd nad oedd glo ar ôl i'w gloddio. Pwysigrwydd y digwyddiad hwn yn ein datblygiad fel gwlad oedd iddo ddangos bod gan rywun y plwc a'r hyder i fentro, ac i gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau eu hunain.

Mewn ystyr arall, mae Glofa'r Tŵr yn fwy

harbinger of the end of the old Wales—the country that, as much as anywhere on earth, gave the world the first wave of the industrial revolution—as it will also become the base of a major urban regeneration plan, given that the Tower surface site extends to almost 500 acres. We intend to work with Tower to oversee the transformation of that site into a high-quality, new urban village.

With the price of coal being so high and the world so short of energy, those of Tower's miners who want to continue mining—with the reclaimable machinery from underground, to the maximum degree possible—will be transported to the drift-mine development over the mountain in the Neath valley.

3.20 p.m.

Therefore, old king coal may be dead in Wales, but new king clean-coal certainly has a sustainable future. In the meantime, it is right and proper that we pay tribute to the 239 miners led by Tyrone O'Sullivan who had the courage to sink their redundancy money into reopening the pit that they knew better than the old National Coal Board management did, and to make a success of it until they ran out of coal. We say to you all on behalf of all the people of Wales, 'Mission impossible achieved; you are a shining example to us all'. Diolch yn fawr. [*Applause.*]

David Melding: I thank the First Minister for his elegant statement. He struck exactly the right chord and captured the spirit of the whole Assembly. We are pleased that this momentous event is being marked by this statement. Tyrone O'Sullivan called Friday a day of celebration not mourning, and I think that we would all agree with that. The lesson here is that the workers took on the system as well as the experts who all said that it could not be done and they won. I agree with the First Minister that there are lessons for us here, as he said in a previous answer this afternoon. The workers' co-operative model can unite those from across the political spectrum, from left to right, as it is a vibrant and enterprising model, and we should examine it.

nag arwydd o dranc yr hen Gymru—y wlad, llawn cymaint ag unrhyw le ar y ddaear, a roddodd i'r byd don gyntaf y chwyldro diwydiannol—gan y bydd hefyd yn ganolfan i gynllun adfywio trefol mawr, gan fod safle wyneb y Tŵr yn ymestyn dros bron 500 acer. Bwriadwn weithio gyda'r Tŵr i oruchwyllo trawsffurfio'r safle hwnnw'n bentref trefol newydd o ansawdd uchel.

A phris glo mor uchel, a'r byd mor brin o ynni, caiff y glowyr hynny o'r Tŵr sydd am barhau i fwyngloddio—â'r peiriannau dan y ddaear y gellir eu hadfer, hyd y gellir gwneud hynny—eu cludo i ddatblygiad y gloddfa ddrifft dros y mynydd yng Nghwm Nedd.

Felly, efallai fod glo dan yr hen drefn wedi dod i ben yng Nghymru, ond yn sicr mae dyfodol cynaliadwy i'r drefn newydd, glo glân. Yn y cyfamser, mae'n briodol inni dalu teyrnged i'r 239 o lowyr dan arweiniad Tyrone O'Sullivan a fu'n ddigon dewr i fuddsoddi eu harian diswyddo i ailagor y pwll yr oeddent yn ei adnabod yn well nag y'i hadwaenid gan reolwyr yr hen Fwrdd Glo Cenedlaethol, ac i wneud hynny'n llwyddiannus nes i'r glo ddod i ben. Dywedwn wrthyf i gyd ar ran holl bobl Cymru, 'Cyflawnwyd y dasg amhosibl; yr ydych yn esiampl ddisglair i bawb ohonom'. Diolch yn fawr. [*Cymeradwyaeth.*]

David Melding: Diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad coeth. Tarodd yr union dant a chyfleu ysbryd y Cynulliad cyfan. Yr ydym yn falch bod y digwyddiad pwysig iawn hwn yn cael ei goffâu â'r datganiad hwn. Dywedodd Tyrone O'Sullivan mai diwrnod o ddathlu, nid o alaru, oedd dydd Gwener, ac yr wyf yn meddwl y byddem i gyd yn cytuno â hynny. Y wers yma yw bod y gweithwyr wedi herio'r drefn, yn ogystal â'r arbenigwyr i gyd a ddywedodd na ellid gwneud hynny, ac fe enillasant. Cytunaf â'r Prif Weinidog fod gwersi i ni yma, fel y dywedodd mewn ateb blaenorol y prynhawn yma. Gall model y gydweithfa gweithwyr uno pobl ar draws y sbectwm gwleidyddol, o'r chwith i'r dde, am ei fod yn fodel byw a mentrus, a dylem edrych yn fanwl arno.

You are also right to say that the miners at Tower Colliery reminded us of the commitment and enterprise of all miners who have worked in the south Wales coalfield and made such an important contribution to the economic development of the British economy in the nineteenth and twentieth centuries. We sometimes forget that, which means that that spirit of self-confidence that we want to see throughout Wales is not generated. Many of Tower Colliery's miners will now work in nearby drift mines, and I am sure that the Assembly wishes them well.

Tyrone O'Sullivan wants the Tower Colliery site to be redeveloped so that new enterprise can take place there, and he was eloquent when he said that he wants today's toddlers to be able to find jobs in the Valleys. That is an ambitious vision that the First Minister has also committed to. First Minister, I hope that you will meet in person with Tyrone and the other interested parties to talk about this, because another generation of economic success at the site would send a positive image right across the world, as the success of the past 13 years has done.

This is an inspiring story. It has already been the subject of a book: Tyrone has written about the workers' takeover there and the operation's success. It has resulted in an opera by Alun Hoddinott, which I have not seen, but I think that he is a most distinguished Welsh composer. There may now even be a film, because Channel 4 Film has said that it wants to make a film of this. There is speculation about who will play Tyrone: will it be Nick Nolte? I wonder whether the First Minister's character will be portrayed. If so, who will play the role? We may want to make some suggestions.

It occurred to me last week that I did not understand why Tyrone kept referring to Tower Colliery as his mistress. I thought that it was rather a lively simile and I could not quite follow it, but I am told that he has already seen the script of the Channel 4 film and has had to veto a rather racy part of it that has him in amorous congress with an

Yr ydych yn iawn pan ddywedwch fod y glowyr yng Nglofa'r Tŵr yn ein hatgoffa o ymroddiad a menter yr holl lowyr a fu'n gweithio ym maes glo'r de ac a wnaeth gyfraniad mor bwysig i ddatblygiad economi Prydain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Weithiau anghofiwn hynny, sy'n golygu na chynhyrchir yr ysbryd hwnnw o hunanhyder y mae arnom eisiau ei weld drwy Gymru benbaladr. Aiff llawer o lowyr Glofa'r Tŵr i weithio'n awr mewn cloddfeydd drifft gerllaw, ac yr wyf yn siŵr bod y Cynulliad yn dymuno'n dda iddynt.

Mae ar Tyrone O'Sullivan eisiau i safle Glofa'r Tŵr gael ei ailddatblygu fel y gall menter newydd ddigwydd yno, ac yr oedd yn huawdl pan ddywedodd fod arno eisiau i blant bach heddiw allu cael gwaith yn y Cymoedd. Mae hynny'n weledigaeth uchelgeisiol y mae'r Prif Weinidog yntau wedi ymrwymo iddi. Brif Weinidog, gobeithio y gwnewch chi gwrdd wyneb yn wyneb â Tyrone a'r buddgyfranogwyr eraill i siarad am hyn, oherwydd byddai cenhedlaeth arall o lwyddiant economaidd ar y safle'n anfon delwedd gadarnhaol dros y byd i gyd, fel y mae llwyddiant y 13 blynedd diwethaf wedi gwneud.

Stori i ysbrydoli pobl yw hon. Eisoës bu'n destun llyfr: mae Tyrone wedi ysgrifennu am y modd y cymerodd y glowyr feddiant ar y gwaith ac am lwyddiant y fenter. Esgorodd ar opera gan Alun Hoddinott, nad wyf wedi'i weld, ond yr wyf yn meddwl ei fod yn gyfansoddwr Cymreig enwog dros ben. Efallai yn awr y ceir ffilm, hyd yn oed, oherwydd y mae Channel 4 Film wedi dweud ei fod am wneud ffilm o hyn. Mae cryn ddyfalu pwy ddylai chwarae Tyrone: ai Nick Nolte? Tybed a bortreadir cymeriad y Prif Weinidog? Os felly, pwy a wnaiff chwarae'r rôl? Efallai y byddwn am wneud ambell awgrym.

Fe'm trawodd yr wythnos diwethaf nad oeddwn yn deall pam yr oedd Tyrone yn cyfeirio o hyd at Lofa'r Tŵr fel ei feistres. Yr oeddwn yn meddwl ei fod yn drosiad eithaf bywiog ac ni allwn ei ddeall yn hollol, ond dywedir wrthyf ei fod eisoës wedi gweld sgript ffilm Channel 4 a'i fod wedi gorfod rhoi fetto ar ddarn braidd yn flasus sy'n ei

NCB accountant. I hope that if any type of characterisation involving the First Minister in a similar vein is written in, you will ensure that that too is vetoed. [*Laughter.*]

Christine Chapman: Thank you for making this statement, First Minister. I was present at the closing march last Friday, and I was amazed to see how many of the world's press had gathered to witness this truly inspirational event. I pay tribute to the miners, their families, community members and everyone else who has been part of Tower Colliery's success.

I noted that David Melding called it taking on 'the system', but I call it 'the Conservative Government'. When members of the then-Conservative Government wanted to wash their hands of this pit and the people it served, the courage and persistence and, as the First Minister said, guts of the people of Tower proved them wrong. The story is a remarkable one that has universal resonance. I have been to see the *Tower* opera, as I was privileged some years back to attend a performance. I have also attended a musical written by the children of Tower miners, and that was absolutely inspirational.

First Minister, as you said, we must now look to the future. What assurances can you give that all that can be done will be done to turn the area into a fitting tribute for the future of the people of the Valleys?

Y Llywydd: A yw'r Prif Weinidog yn dymuno ymateb?

The First Minister: Yes, I want to thank David and Christine for their remarks and their questions. Christine, you are right to note the huge amount of media interest. I want to ensure that people understand that what those miners did was not about Wales's past; although it signals the end of a coalmining era, it is about Wales's future. On a recent radio broadcast, I committed the worst comedy crime of 2008 so far by saying that there would be a seamless transition to an urban village. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] I apologise to everyone for that pun, but it does outline what we want to do, which is to make sure that that 500-acre site

gyfleu mewn cyfathrach gariadus â chyfrifydd o'r bwrdd glo. Os bydd unrhyw gymeriadu tebyg ynglŷn â'r Prif Weinidog yn y sgrïpt, gobeithio y gwnewch sicrhau y rhoddir fetu ar hynny hefyd. [*Chwerthin.*]

Christine Chapman: Diolch am wneud y datganiad hwn, Brif Weinidog. Yr oeddwn yn bresennol ar yr orymdaith olaf ddydd Gwener diwethaf, a rhyfeddais o weld cymaint o wasg y byd a oedd wedi ymgasglu i dystio i'r digwyddiad gwirioneddol ysbrydoledig hwn. Rhoddaf deyrnged i'r glowyr, i'w teuluoedd, i aelodau'r gymuned ac i bawb arall sydd wedi bod yn rhan o lwyddiant Glofa'r Tŵr.

Sylwais mai herio'r 'drefn' oedd hyn i David Melding, ond 'y Llywodraeth Geidwadol' ydyw i mi. Pan oedd aelodau o'r Llywodraeth Geidwadol ar y pryd yn awyddus i olchi'u dwylo o'r pwll a'r bobl a wasanaethai, dangosodd dewrder a dyfalbarhad, ac fel y dywedodd y Prif Weinidog, plwc pobl y Tŵr, eu bod yn anghywir. Mae'r hanes yn un hynod sy'n taro tant gyda phawb. Yr wyf wedi bod yn gweld yr opera *Tower*, gan imi gael y frainf rai blynyddoedd yn ôl o fynychu perfformiad. Yr wyf hefyd wedi mynychu sioe gerdd a ysgrifennwyd gan blant glowyr y Tŵr, ac yr oedd honno'n gwbl ysbrydoledig.

Brif Weinidog, fel y dywedaso, rhaid inni'n awr edrych i'r dyfodol. Pa sicrwydd y gallwch ei roi y gwneir popeth a ellir i droi'r ardal yn deyrnged addas er mwyn dyfodol pobl y Cymoedd?

The Presiding Officer: Does the First Minister wish to respond?

Y Prif Weinidog: Ydwyf, hoffwn ddiolch i David a Christine am eu sylwadau a'u cwestiynau. Christine, yr ydych yn iawn wrth nodi'r diddordeb aruthrol gan y cyfryngau. Mae arnaf eisiau sicrhau bod pobl yn deall nad rhywbeth yn perthyn i orffennol Cymru oedd yr hyn a wnaeth y glowyr hynny; er ei fod yn nodi diwedd cyfnod o ran cloddio glo, mae'n ymwneud â dyfodol Cymru. Ar ddarllediad radio'n ddiweddar, cyflawnais drosedd gomedi waethaf 2008 hyd yma drwy ddweud y ceid 'seamless transition' i bentref trefol. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Ymddiheuraf i bawb am y gair mwys hwnnw, ond mae'n amlinellu'r hyn y mae arnom

becomes the kind of eco-village that the whole of Wales can be proud of, in the same way as we are terribly proud of the efforts of the 239 miners who created their own future, for the 13 to 14 years that it lasted until the coal ran out. Now, in a new era, we want to see it becoming an urban village that will provide jobs for the miners' children and grandchildren.

Michael German: I also thank the First Minister for his statement. It is not often that Wales features in the media not just of the UK but of the world. Pages of the *Financial Times* were given over to this story on the weekend. The measure of Tyrone's and Tower Colliery's success is the fact that they succeeded when, as he put it, they were David against Goliath. That sends a message of hope for the future. If you believe strongly and passionately enough in your case, if you are prepared to fight as hard as you possibly can, and if people are prepared to go with you, you can travel a distance far greater than expected. That inspiration drove him and his colleagues on, and they deserve the success that they have enjoyed.

There is also a message here to place on the page that is turning in this chapter of Welsh history—and you are absolutely right, First Minister, to say that this is about the future. This page relates to fewer than 150 years in the case of this colliery, but this is the dawn of a new era for the Heads of the Valleys. The changes to the site can give new life, but it will not be the same as it was before—and thank goodness for that. However, we should look to the co-operative spirit and venture that we have seen here, because this was about human endeavour, and people reached into their own pockets because they had faith in the concept. If we can repeat that success across the Heads of the Valleys, even on a small scale, we will have performed a great service for the people of those communities.

I join you in thanking the workers for their work, First Minister, for the great excitement that they have caused, and the commitment that they have shown. I hope that you will

eisiau ei wneud, sef gwneud yn siŵr y bydd y safle 500 acer hwnnw'n troi'n eco-bentref o'r math y gall Cymru gyfan ymfalchïo ynddo, yn yr un modd ag yr ydym yn ymfalchïo'n ofnadwy yn ymdrechion y 239 o lowyr a greodd eu dyfodol eu hunain, am y 13 i 14 o flynyddoedd a barodd cyn i'r glo ddod i ben. Yn awr, mewn oes newydd, mae arnom eisiau gweld ei droi'n bentref trefol a fydd yn darparu swyddi i blant a wyrion a wyresau'r glowyr.

Michael German: Diolchaf finnau i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad. Nid yn aml y caiff Cymru sylw yng nghyfyngau, nid Prydain yn unig, ond y byd. Rhoddwyd tudalennau yn y *Financial Times* i'r stori hon dros y penwythnos. Mesur o lwyddiant Tyrone a Glofa'r Tŵr yw'r ffaith iddynt lwyddo, a hwythau, yn ei eiriau ef, yn Ddafydd yn erbyn Goliath. Mae hynny'n anfon neges o obaith i'r dyfodol. Os credwch yn ddigon cryf ac angerddol yn eich achos, os byddwch yn barod i ymladd mor galed ag y gallwch, ac os bydd pobl yn barod i fynd gyda chi, gallwch deithio pellter llawer mwy na'r disgwyl. Gyrrodd yr ysbrydoliaeth honno ef a'i gydweithwyr ymlaen, ac maent yn haeddu'r llwyddiant y maent wedi'i fwynhau.

Mae neges yma hefyd i'w gosod ar y ddalen sy'n troi yn y bennod hon yn hanes Cymru—ac yr ydych yn llygad eich lle, Brif Weinidog, wrth ddweud mai ymwneud â'r dyfodol y mae hyn. Mae'r ddalen hon yn ymwneud â llai na 150 o flynyddoedd yn achos y lofa hon, ond dyma wawr oes newydd i Flaenau'r Cymoedd. Gall y newidiadau yn y safle roi bywyd newydd, ond ni fydd yr un fath ag o'r blaen—a diolch byth am hynny. Fodd bynnag, dylem edrych tuag at yr ysbryd a'r fenter gydweithredol yr ydym wedi'u gweld yma, oherwydd yr oedd a wnelo hyn ag ymdrech ddynol, ac aeth pobl i'w pocedi eu hunain am fod ganddynt ffydd yn y cysyniad. Os gallwn ailadrodd y llwyddiant hwnnw ar draws Blaenau'r Cymoedd, hyd yn oed ar raddfa fach, byddwn wedi gwneud gwaith da iawn dros bobl y cymunedau hynny.

Ymunaf â chi i ddiolch i'r gweithwyr am eu gwaith, Brif Weinidog, am y cyffro mawr a achoswyd ganddynt, a'r ymroddiad a ddangoswyd ganddynt. Gobeithio y

agree with me that the next page in this chapter of Welsh history is turning today.

Leanne Wood: I also attended the march at Tower Colliery last Friday, and I am sure that Christine Chapman would agree that it was a poignant event. Obviously, it was sad because it marked the end of an era, but there was also an atmosphere of real pride at what the miners at Tower had achieved against all the odds. They are not closing because of the actions of a heartless and bullying Government; they are closing on their own terms. Everybody would agree that, while it is vital to learn the lessons of history and celebrate that, it is also important that we look forward.

3.30 p.m.

One lesson that we must learn—and what we must not repeat, in terms of the mistakes of the past—relates to where pits have closed down in the past and industry has not replaced that well-paid work: we can see the effects of that lack of policies in the Valleys today.

There have been several suggestions as to what should happen to the Tower Colliery site. I hope that you would agree, First Minister, that that site should be redeveloped to ensure a good supply of good-quality jobs, in a manner that fits in with what we now know about climate change. Also, I would be grateful to know whether you think that infrastructure changes are needed to attract good quality jobs to the area.

The First Minister: I will try to wrap up and respond to both Mike German's and Leanne Wood's welcome and well-thought-out contributions.

I emphasise yet again that this is an event of enormous historical significance. The end of deep mining after some 200 years simply has to be a historical event in our industrial history, because this is the crucible of the industrial revolution. It started in the Heads of the Valleys area. Many of the political movements that came from there were about

cytunwch â mi fod y ddalen nesaf yn y bennod hon yn hanes Cymru'n troi heddiw.

Leanne Wood: Mynychais innau'r orymdaith yng Nglofa'r Tŵr ddydd Gwener diwethaf, ac yr wyf yn siŵr y cytunai Christine Chapman ei fod yn ddigwyddiad teimladwy. Wrth reswm, yr oedd yn drist am ei fod yn nodi diwedd cyfnod, ond yr oedd yno awyrgylch o wir falchder hefyd yn yr hyn yr oedd glowyr y Tŵr wedi'i gyflawni er gwaethaf pob disgwyl. Nid ydynt yn cau oherwydd gweithredoedd Llywodraeth ddideimlad a thrahaus; maent yn cau ar eu telerau eu hunain. Byddai pawb yn cytuno, er ei bod yn hanfodol dysgu gwersi hanes a dathlu hynny, ei bod yn bwysig hefyd inni edrych ymlaen.

Mae un wers y mae'n rhaid inni ei dysgu—a'r hyn na ddylem ei ailadrodd, o safbwynt camgymeriadau'r gorffennol—yn ymwneud â lle y mae pyllau glo wedi cau yn y gorffennol ac nad oes diwydiant wedi dod yn lle'r gwaith hwnnw sy'n talu'n dda: gallwn weld effeithiau'r diffyg polisiau hwnnw yn y Cymoedd heddiw.

Cafwyd amryw o awgrymiadau hefyd ynglŷn â'r hyn addylai ddigwydd i safle Glofa'r Tŵr. Gobeithiaf y byddech yn cytuno, Brif Weinidog, y dylai'r safle hwnnw gael ei ailddatblygu i sicrhau cyflenwad da o swyddi o ansawdd da, mewn modd sy'n cyd-fynd â'r hyn a wyddom erbyn hyn am newid yn yr hinsawdd. Hefyd, byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod a ydych yn credu bod angen newidiadau yn y seilwaith i ddenu swyddi o ansawdd da i'r ardal.

Y Prif Weinidog: Ceisiaf ddod â'r sesiwn i ben ac ymateb i gyfraniadau ystyriol gan Mike German a Leanne Wood, sydd i'w croesawu.

Pwysleisiaf unwaith eto fod hwn yn ddigwyddiad sydd ag arwyddocâd hanesyddol enfawr. Mae gweld mwyngloddio dwfn yn dod i ben ar ôl rhyw 200 mlynedd yn sicr o fod yn ddigwyddiad hanesyddol yn ein hanes diwydiannol, oherwydd dyma darddle'r chwyldro diwydiannol. Yn ardal Blaenau'r Cymoedd y dechreuodd. Hanfod

challenging the system. Sometimes, they were about answering new social problems. Take the national health service: in a way, the cradle of the national health service was the Heads of the Valleys area.

You mentioned infrastructure. There is a chain of urban regeneration projects—not just in Tower Colliery, but further east, right through to Blaenau Gwent—which are based on the fact that the dualling of the Heads of the Valleys road will mean that access to the major markets of southern England and the midlands will be much improved. However, the jobs do not always come to you: that is the point that Mike German made, as did Tyrone O’Sullivan and the 238 other coal miners. Those miners said, ‘If the jobs won’t come to us, we have to go out to get the jobs and create jobs in the way that we know how. If we really know what we are doing we can create our own jobs.’ In the past, it has always been expected that jobs will be brought to you, and that can sometimes be assisted by active economic development methods. However, if that does not happen, you have to take destiny into your own hands. That was the key decision that the workers of Tower Colliery took, and they made a success of it. Their success has been of enormous value in raising Wales’s profile, as we saw on Friday, and in raising our self confidence, and, above all—if I can finish on a selfish note—in preparing the ground for devolution just a few years before it happened. I believe that the can-do spirit embodied by Tyrone O’Sullivan and those 238 other coal miners has been an essential backdrop to devolution.

Y Llywydd: Diolch i’r Prif Weinidog am ei synnwyr hanesyddol bob amser.

llawer o’r mudiadau gwleidyddol a darddodd o’r fan honno oedd herio’r system. Weithiau, yr oeddent yn fodd i ddatrys problemau cymdeithasol newydd. Ystyriwch y gwasanaeth iechyd gwladol: mewn ffordd, ardal Blaenau’r Cymoedd oedd crud y gwasanaeth iechyd gwladol.

Soniasoch am seilwaith. Mae cadwyn o brosiectau adfywio trefol—nid yn unig yng Nglofa’r Tŵr, ond ymhellach i’r dwyrain, yr holl ffordd i Flaenau Gwent—sydd wedi’u seilio ar y ffaith y bydd troi ffordd Blaenau’r Cymoedd yn ffordd ddeuol yn golygu y bydd mynediad i brif farchnadoedd de a chanolbarth Lloegr yn gwella’n fawr. Fodd bynnag, nid yw’r swyddi bob amser yn dod atoch chi: dyna’r pwynt a wnaeth Mike German, fel y gwnaeth Tyrone O’Sullivan a’r 238 o lowyr eraill. Dywedodd y glowyr hynny, ‘Os na ddaw’r swyddi atom ni, rhaid i ni fynd ati i gael y swyddi a chreu swyddi yn yn ôl y dull sy’n gyfarwydd i ni. Os ydym mewn difrif yn gwybod beth yr ydym yn ei wneud gallwn greu ein swyddi ein hunain.’ Yn y gorffennol, y disgwyliad bob amser oedd y byddai rhywrai’n dod â swyddi atoch chi, a gellir hybu hynny weithiau drwy ymroi i ddulliau datblygu economaidd. Fodd bynnag, os nad yw hynny’n digwydd, rhaid ichi ofalu am eich tynged eich hun. Dyna oedd y penderfyniad allweddol a wnaeth gweithwyr Glofa’r Tŵr, a chawsant lwyddiant. Mae eu llwyddiant wedi bod o werth enfawr o ran codi proffil Cymru, fel y gwelsom ddydd Gwener, ac o ran codi ein hunanhyder, ac, uwchlaw popeth—os caf orffen ar nodyn hunanol—o ran braenaru’r tir ar gyfer datganoli ychydig flynyddoedd yn unig cyn iddo ddigwydd. Credaf fod yr ysbryd hyderus a ymgorfforwyd gan Tyrone O’Sullivan a’r 238 o lowyr eraill wedi bod yn rhan anhepgor o’r cefndir o ran datganoli.

The Presiding Officer: I thank the First Minister for his sense of history on all occasions.

Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Cynigiaf fod

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): I propose that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 35.6 a 35.8:

yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 23.24 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig yn cynnig bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig heb fod yn gynharach na phum diwrnod gwaith ar ôl i bwyllgor gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur. (NNDM3854)

Y Llywydd: Gwelaaf nad oes gwrthwynebiad i'r cynnig. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

**Dadl Cyfnod 1 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am
Gamweddau'r GIG o dan Reol Sefydlog Rhif 23.28
Stage 1 Standing Order No. 23.28 Debate on the NHS Redress Measure**

Y Llywydd: Hoffwn dynnu sylw'n ffurfiol at y datganiad o dan fy enw i, fel Llywydd, sydd wedi'i osod ynghyd â'r agenda, sef y datganiad am gymhwysedd deddfwriaethol y Mesur hwn.

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): I propose that

the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order No. 23.24:

agrees to the general principles of the proposed NHS Redress (Wales) Measure 2008. (NDM3849)

This has been day has been long in coming for us in Wales. I am delighted to bring forward the first Measure. It will, I hope, bring about positive benefits for patients and NHS staff, and will, in time, form part of a much more effective system of handling matters that go wrong in the national health service.

the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order Nos. 35.6 and 35.8:

suspends that part of Standing Order No. 23.24 that requires the Member in charge of the proposed Measure to propose that the Assembly agree to the general principles of the proposed Measure not earlier than five working days after a committee has reported on the general principles of the Measure—to allow the motion under item 4 to be considered in Plenary on Tuesday 29 January 2008. (NNDM3854)

The Presiding Officer: I see that there are no objections to the motion. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore carried.

The Presiding Officer: I would like to formally draw attention to the statement in my name, as Presiding Officer, which has been laid along with the agenda, namely the statement on the legislative competence of this Measure.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 23.24:

yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008. (NDM3849)

Yr ydym wedi gorfod disgwyl yn hir am y diwrnod hwn yng Nghymru. Yr wyf wrth fy modd o gael cyflwyno'r Mesur cyntaf. Gobeithiaf y bydd yn dod â manteision cadarnhaol i gleifion a staff y GIG yn ei sgîl, ac y bydd, ymhen amser, yn dod yn rhan o system lawer mwy effeithiol i ymdrin â materion sy'n mynd o chwith yn y gwasanaeth iechyd gwladol.

I am grateful to Jonathan Morgan and the members of the Proposed NHS Redress (Wales) Measure Committee for the detailed level of scrutiny that they have afforded the Measure in Stage 1 and for the recognition that they have given to how it will contribute towards a better experience for patients. I can see that all of the suggestions made in the committee's report are in support of this aim, which is encouraging, because it shows that we have a basic level of agreement on this issue. I also acknowledge the helpful reports received from the Subordinate Legislation Committee and the Finance Committee.

I am pleased at the level of support for this Measure and that the Measure committee has agreed unanimously to its general principles. Admittedly, there are several important areas of detail to be ironed out, and we will take those forward. Fundamentally, I agree with many of the issues raised in the Measure committee report, and I shall be looking to take those forward as part of the development of the detail of the NHS redress arrangements and through future regulations and guidance.

Some of these issues can be dealt with through amendments to the Measure. I would like to deal first with any undertakings on amendments that I can give at this stage. First, I am willing to bring forward a Government amendment to the Measure to ensure that provision is made for time limits in relation to investigations. Secondly, I will bring forward an amendment to reflect the undertakings I have already given, as well as the additional recommendations made in annex G of the Subordinate Legislation Committee's report, in respect of the use of the affirmative procedure for future regulations. I trust that this will give Members the assurance that they seek on scrutiny of the detail of the arrangements.

I note that the Measure committee's recommendations do not overtly endorse the use of the superaffirmative procedure, which was one of the Subordinate Legislation Committee's recommendations. I agree that there is a place for the superaffirmative

Yr wyf yn ddiolchgar i Jonathan Morgan ac aelodau'r Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) am y ffordd drylwyr y maent wedi craffu ar y Mesur yng Nghyfnod 1 ac am y gydnabyddiaeth y maent wedi'i rhoi i'r ffordd y bydd yn cyfrannu at well profiad i gleifion. Gwelaf fod yr holl awgrymiadau a wneir yn adroddiad y pwyllgor yn cefnogi'r nod hwn, sydd yn galonogol, oherwydd y mae'n dangos bod gennym lefel sylfaenol o gytundeb ar y mater hwn. Cydnabyddaf hefyd yr adroddiadau defnyddiol a ddaeth i law gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a'r Pwyllgor Cyllid.

Yr wyf yn falch o lefel y gefnogaeth i'r Mesur hwn a bod pwyllgor y Mesur wedi cytuno'n unfrydol â'i egwyddorion cyffredinol. Rhaid cyfaddef bod angen rhoi trefn ar y manylion mewn sawl maes pwysig, a byddwn yn ymdrin â'r rheini. Yn y bôn, yr wyf yn cytuno â llawer o'r materion a godir yn adroddiad pwyllgor y Mesur, a byddaf yn ceisio ymdrin â'r rheini fel rhan o'r gwaith o ddatblygu manylion y trefniadau i wneud iawn am gamweddau'r GIG a thrwy reoliadau a chanllawiau yn y dyfodol.

Gellir delio â rhai o'r materion hyn drwy welliannau i'r Mesur. Hoffwn ddelio yn gyntaf ag unrhyw ymrwymadau ynglŷn â gwelliannau y gallaf eu rhoi ar hyn o bryd. Yn gyntaf, yr wyf yn barod i gyflwyno gwelliant i'r Mesur ar ran y Llywodraeth i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer cyfyngiadau amser yng nghyd-destun ymchwiliadau. Yn ail, byddaf yn cyflwyno gwelliant i adlewyrchu'r ymrwymadau yr wyf eisoes wedi'u rhoi, yn ogystal â'r argymhellion ychwanegol a wnaethpwyd yn atodiad G adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, o ran defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau yn y dyfodol. Hyderaf y bydd hyn yn rhoi i'r Aelodau y sicrwydd y maent am ei gael o ran craffu ar fanylion y trefniadau.

Sylwaf nad yw argymhellion pwyllgor y Mesur yn rhoi cymeradwyaeth amlwg i ddefnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol, sef un o argymhellion y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth. Cytunaf fod lle i'r weithdrefn uwchgadarnhaol, ond nid y Mesur hwn yw'r

procedure, but this Measure is not it. The aims of this legislation are clear, and it is the detail that Members are concerned to see. That can be accomplished through a combination of consultation and the use of the normal affirmative procedure.

There are other recommendations in the report that may be adequately covered in the Measure. First, I note the Measure committee's recommendation on the disclosure of reports and its view that the Measure should be strengthened to ensure that investigation reports should be withheld only in exceptional circumstances. I am fully supportive of the reasoning behind this recommendation, because disclosing information to the patient is very important and openness is at the heart of any new redress arrangements. However, I consider that this is already provided for in sections 5(3) and 5(4) of the Measure. I accept that Members may wish to return to this issue in the next stage of the Measure.

The matter of making provision for a reviewing body to look into cases where reports have been withheld is an interesting issue and something on which I would like to take further advice. As many Members know, there are already situations when information can be withheld from people—for example, access to health records. Normally, this would be done only on the advice of a healthcare professional, and I envisage that, for NHS redress purposes, reports would be withheld only in similar situations.

A further recommendation of the Measure committee is that regulations should make provision for consistent management arrangements and guidance. I support the reasoning behind this, but feel that this is already covered in sections 9(2)(e) and 9(6) of the Measure. Once again, Members will have the opportunity to consider this point further at the next stage.

On the matter of a statutory duty to consult, I note the recommendations of the Measure committee that it would like this set out in the

lle hwnnw. Mae amcanion y ddeddfwriaeth hon yn glir, a'r manylion yw'r hyn y mae'r Aelodau am eu gweld. Gellir cyflawni hynny drwy gyfuniad o ymgynghori a defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol arferol.

Mae llawer o argymhellion eraill yn yr adroddiad y gellir ymdrin â hwy'n ddigonol yn y Mesur. Yn gyntaf, nodaf argymhelliad pwyllgor y Mesur ynglŷn â datgelu adroddiadau a'i farn y dylai'r Mesur gael ei gryfhau i sicrhau mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylai adroddiadau ymchwiliadau gael eu hatal. Yr wyf yn llwyr gefnogi'r ymresymiad wrth wraidd yr argymhelliad hwn, oherwydd y mae datgelu gwybodaeth i'r claf yn bwysig iawn ac mae bod yn agored wrth wraidd unrhyw drefniadau newydd i wneud iawn. Fodd bynnag, yr wyf o'r farn bod darpariaeth ar gyfer hyn wedi cael ei gwneud eisoes yn adrannau 5(3) a 5(4) yn y Mesur. Yr wyf yn derbyn y bydd yr Aelodau efallai am ddod yn ôl at y mater hwn yng nghyfnod nesaf y Mesur.

Mae gwneud darpariaeth ar gyfer corff adolygu i ymchwilio i achosion lle y mae adroddiadau wedi cael eu hatal yn fater diddorol ac yn rhywbeth yr hoffwn gael cyngor pellach arno. Fel y gŵyr llawer o'r Aelodau, mae sefyllfaoedd eisoes lle y gall gwybodaeth gael ei hatal rhag pobl—er enghraifft, yr hawl i weld cofnodion iechyd. Fel arfer, dim ond ar sail cyngor gweithiwr gofal iechyd proffesiynol y câi hyn ei wneud, ac yr wyf yn rhagweld, at ddibenion gwneud iawn am gamweddau'r GIG, mai dim ond mewn sefyllfaoedd tebyg y câi adroddiadau eu hatal.

Argymhelliad pellach gan bwyllgor y Mesur yw y dylai rheoliadau ddarparu ar gyfer trefniadau a chanllawiau rheoli cyson. Yr wyf yn cefnogi'r ymresymiad wrth wraidd hyn, ond teimlaf fod adrannau 9(2)(e) a 9(6) yn y Mesur yn ymdrin â hyn eisoes. Unwaith eto, caiff yr Aelodau y cyfle i ystyried y pwynt hwn ymhellach yn y cyfnod nesaf.

O ran dyletswydd statudol i ymgynghori, nodaf argymhellion pwyllgor y Mesur yr hoffai i hyn gael ei bennu yn y Mesur. Gallaf

Measure. I can understand Members' concerns on this issue. I set out in my letter of 25 October to Dr Dai Lloyd why I did not think that such a duty was necessary, and that it may even be counter-productive. I still lean towards that view, particularly as I have given numerous assurances on consultation and agreed to the use of the affirmative procedure for many more of the regulations than was originally envisaged. I hope Members will agree, but, again, the next stage will provide the opportunity for further scrutiny of this point.

In conclusion, Members may be aware that the Public Services Ombudsman for Wales has been consulting recently on principles for redress, which he intends to issue to the public sector. These principles echo what we are trying to do through the Measure and the wider work that underpins it through the Putting Things Right project. Therefore, I think that we are heading in the right direction. I look forward to hearing Members' contributions.

Jonathan Morgan: As Chair of the Proposed NHS Redress (Wales) Measure Committee, I am delighted to contribute to the first debate in the Assembly on a proposed Measure. The committee was asked to report on the general principles of the proposed Measure, a process that is designed to ensure that legislation made by the Assembly undergoes rigorous scrutiny. Our job was to identify where the legislation fell short and how it might be improved. I pay tribute to the committee members for their commitment and the consensual approach that they took, and to the clerks and legislation officials. I also thank all those who wrote to the committee with their views on the proposed Measure and the witnesses who came to the committee to give evidence, many of whom did so at short notice. Their contribution has been invaluable and has made the process of scrutiny more effective. I also wish to place on record the committee's thanks to the Finance Committee and the Subordinate Legislation Committee for their reports on the Measure. I sincerely hope that the timetables for the consideration of Measures in the future will allow for this

ddeall pryderon yr Aelodau ynglŷn â'r mater hwn. Nodais yn fy llythyr ar 25 Hydref at Dr Dai Lloyd pam nad oeddwn yn credu bod dyletswydd o'r fath yn angenrheidiol, ac y gall fod yn wrthgynhyrchiol hyd yn oed. Yr wyf yn dal i dueddu tuag at y farn honno, yn enwedig gan fy mod wedi rhoi sicrwydd droeon ynglŷn ag ymgynghori ac wedi cytuno i ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer llawer rhagor o'r rheoliadau nag a ragwelid yn wreiddiol. Gobeithiaf y bydd yr Aelodau yn cytuno, ond, unwaith eto, bydd y cyfnod nesaf yn rhoi'r cyfle i graffu ymhellach ar y pwynt hwn.

I gloi, efallai y bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi bod yn ymgynghori'n ddiweddar ynglŷn â'r egwyddorion ar gyfer gwneud iawn, y mae'n bwriadu eu rhoi i'r sector cyhoeddus. Mae'r egwyddorion hyn yn adleisio'r hyn yr ydym yn ceisio'i wneud drwy'r Mesur a'r gwaith ehangach sy'n sylfaen iddo drwy'r prosiect Gweithio i Wella. Felly, credaf ein bod yn symud i'r cyfeiriad iawn. Edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau'r Aelodau.

Jonathan Morgan: Fel Cadeirydd y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru), yr wyf wrth fy modd o gael cyfrannu i'r ddadl gyntaf yn y Cynulliad ar Fesur arfaethedig. Gofynnwyd i'r pwyllgor adrodd ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, proses sydd â'r nod o sicrhau bod deddfwriaeth a lunnir gan y Cynulliad yn mynd drwy broses graffu drylwyr. Ein gwaith ni oedd canfod lle'r oedd y ddeddfwriaeth yn ddiffygiol a sut y gellid ei gwella. Talaf deyrnged i aelodau'r pwyllgor am eu hymroddiad a'u dull o weithredu drwy gonsensws, ac i'r clerod a'r swyddogion deddfwriaeth. Diolchaf hefyd i bawb a ysgrifennodd at y pwyllgor i roi eu barn am y Mesur arfaethedig ac i'r tystion a ddaeth i'r pwyllgor i roi tystiolaeth; gwnaeth llawer ohonynt hynny ar fyr rybudd. Bu eu cyfraniad yn amhrisiadwy ac mae wedi gwneud y broses graffu yn fwy effeithiol. Hoffwn hefyd ddweud ar goedd fod y pwyllgor yn diolch i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth am eu hadroddiadau ar y Mesur. Gobeithiaf yn ddidwyll y bydd yr amserlenni ar gyfer

level of engagement with the relevant Assembly committees, stakeholders and those affected by the legislation under discussion.

3.40 p.m.

The committee has welcomed the open and inclusive approach taken by the Minister, and we are grateful for the additional information that she and her officials have provided during the committee's deliberations. There is no doubt that this legislation is an important part of the Minister's overall package of reforms to improve the service to patients when things go wrong in the NHS. We all acknowledge that, from time to time, adverse incidents occur in the treatment of patients, but the current system, which sends patients down the road of litigation, can lead to an adversarial approach and a poor outcome for patients, and often health professionals. It cannot be right if a culture exists whereby NHS staff feel that their ultimate duty is to protect the NHS trust from litigation rather than to help patients. The current process, as we all know, is lengthy, complicated and stressful for all those involved. This means that many patients do not pursue their cases and therefore receive no form of redress.

We should not confuse redress with financial compensation. Many patients suffer financial loss because of an adverse incident, but it is as important that patients are confident that their cases have been investigated thoroughly, that they receive an apology when something has gone wrong and that they have access to remedial treatment where appropriate. As our report states, we agree unanimously with the general principles of the Measure and believe that it should proceed to the next Stage. However, our report outlines a number of areas where we would like more information and makes a number of recommendations for amendments. The lack of policy detail at the start of the process made it somewhat difficult for stakeholders to engage fully in

ystyried Mesurau yn y dyfodol yn caniatáu'r lefel hon o ymgysylltu â phwyllgorau perthnasol y Cynulliad, rhanddeiliaid a'r rhai y bydd y ddeddfwriaeth dan sylw yn effeithio arnynt.

Mae'r pwyllgor wedi croesawu'r dull gweithredu agored a chynhwysol a fabwysiadwyd gan y Gweinidog, ac yr ydym yn ddiolchgar am y wybodaeth ychwanegol y mae hi a'i swyddogion wedi'i darparu yn ystod trafodaethau'r pwyllgor. Yn ddiamheuaeth, mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhan bwysig o becyn cyffredinol o ddiwygiadau gan y Gweinidog i wella'r gwasanaeth i gleifion pan fydd pethau'n mynd o chwith yn y GIG. Yr ydym i gyd yn cydnabod bod rhywbeth yn mynd o'i le, o bryd i'w gilydd, wrth drin cleifion, ond mae'r system bresennol, sy'n peri i gleifion fynd ar drywydd cyfreitha, yn gallu arwain at dull gwrthwynebol o weithredu a chanlyniadau gwael i gleifion, ac yn aml i weithwyr iechyd proffesiynol. Ni all fod yn iawn os oes diwylliant yn bodoli sy'n golygu bod staff y GIG yn teimlo mai eu dyletswydd hwy, yn y pen draw, yw amddiffyn yr ymddiriedolaeth GIG rhag cyfreitha yn hytrach na helpu cleifion. Mae'r broses bresennol, fel y gŵyr pawb ohonom, yn faith, yn gymhleth ac yn peri straen i bawb dan sylw. Mae hyn yn golygu nad yw llawer o gleifion yn bwrw ymlaen â'u hachosion ac nid ydynt felly yn cael dim math o iawn.

Ni ddylem gymysgu rhwng iawn ac iawndal ariannol. Mae llawer o gleifion yn dioddef colled ariannol oherwydd digwyddiad andwyol, ond mae'n bwysig i gleifion fod yn hyderus bod ymchwiliad trylwyr yn cael ei gynnal i'w hachosion, eu bod yn cael ymddiheuriad pan fydd rhywbeth wedi mynd o chwith a'u bod yn gallu cael triniaeth adferol lle y mae hynny'n briodol. Fel y dywed ein hadroddiad, yr ydym yn cytuno'n unfrydol ag egwyddorion cyffredinol y Mesur ac yn credu y dylai symud ymlaen i'r cyfnod nesaf. Fodd bynnag, mae ein hadroddiad yn amlinellu nifer o feysydd lle yr hoffem gael mwy o wybodaeth ac mae'n gwneud nifer o argymhellion ynghylch gwelliannau. Oherwydd diffyg manylion ynglŷn â pholisi ar ddechrau'r broses, yr oedd

the process and to judge whether the legislation would deliver the policy objectives that the Minister had outlined.

As we all know, this Measure is framework in nature. It is not unusual for legislation to give wide regulation-making powers to Ministers, but we consider that where legislation takes this approach in the future, the detailed policy behind the proposals should be fully developed and explained to enable considered scrutiny by the Assembly and its committees. We agree with the Subordinate Legislation Committee that the Assembly procedures for regulations made under this Measure should be tightened, and we recommend that a number of the provisions in the Measure should be subject to the affirmative procedure in the Assembly, with the further recommendation that there should be a statutory duty to consult on these. We received a substantial body of evidence to support a statutory duty to consult.

The investigations process will be key to the success of any redress arrangements made under the Measure, and we recommend that interim time limits are required in the regulations to ensure that patients and NHS staff have confidence in the arrangements. Much of the detail of how investigations will be handled under the redress scheme is still to be worked out, but, at this stage, it is also unclear where the duty to conduct investigations falls and how it will be enforced and monitored. It is also important that patients receive clear and consistent advice and information throughout the process, and that this is free of charge. We welcome the inclusion of these provisions as part of the redress arrangements. However, this is an area that we felt required a lot more thought. It was not clear when advice and assistance would become available, who would provide it and how services would be monitored to ensure consistency of approach.

As Members will be aware, the Measure provides for the primary care sector to be included in any redress scheme, and the Minister has already outlined her intention not to include primary care at the outset. We

braidd yn anodd i randdeiliaid gymryd rhan lawn yn y broses a barnu a fyddai'r ddeddfwriaeth yn gwireddu'r amcanion polisi yr oedd y Gweinidog wedi'u hamlinellu.

Fel y gŵyr pawb ohonom, Mesur fframwaith yw hwn o ran ei natur. Nid yw'n anarferol i ddeddfwriaeth roi pwerau eang i Weinidogion i wneud rheoliadau, ond yr ydym o'r farn, pan fydd deddfwriaeth yn dilyn y trywydd hwn yn y dyfodol, y dylai'r polisi manwl wrth wraidd y cynigion gael ei ddatblygu a'i esbonio'n llawn fel bod modd i'r Cynulliad a'i bwyllgorau graffu'n ystyriol arni. Yr ydym yn cytuno â'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth y dylai gweithdrefnau'r Cynulliad o ran rheoliadau a wneir dan y Mesur hwn gael eu tynhau, ac yr ydym yn argymhell y dylai nifer o'r darpariaethau yn y Mesur fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad, gyda'r argymhelliad pellach y dylai fod dyletswydd statudol i ymgynghori ynghylch y rhain. Cawsom gorff sylweddol o dystiolaeth o blaid dyletswydd statudol i ymgynghori.

Bydd proses yr ymchwiliadau yn allweddol i lwyddiant unrhyw drefniadau gwneud iawn a wneir o dan y Mesur, ac yr ydym yn argymhell bod angen terfynau amser interim yn y rheoliadau i sicrhau bod gan gleifion a staff y GIG ffydd yn y trefniadau. Nid yw llawer o'r manylion o ran sut yr ymdrinnir ag ymchwiliadau o dan y cynllun gwneud iawn wedi cael eu pennu eto, ond, ar hyn o bryd, mae'n aneglur hefyd pwy sydd â'r ddyletswydd i gynnal ymchwiliadau a sut y bydd yn cael ei gorfodi a'i monitro. Mae'n bwysig hefyd i gleifion gael cyngor a gwybodaeth glir a chyson gydol y broses, a hynny'n rhad ac am ddim. Yr ydym yn croesawu cynnwys y darpariaethau hyn fel rhan o'r trefniadau gwneud iawn. Fodd bynnag, mae hwn yn faes y teimlem fod angen llawer mwy o feddwl yn ei gylch. Nid oedd yn glir pryd y byddai cyngor a chymorth ar gael, pwy fyddai'n eu darparu a sut y byddai gwasanaethau'n cael eu monitro i sicrhau cysondeb o ran gweithredu.

Fel y bydd yr Aelodau'n gwybod, mae'r Mesur yn darparu ar gyfer cynnwys y sector gofal sylfaenol mewn unrhyw gynllun gwneud iawn, ac mae'r Gweinidog eisoes wedi amlinellu ei bwriad i beidio â chynnwys

received a lot of evidence that suggested that it might be more complicated for redress arrangements to be applied to GPs and dentists, for example, but others argued that there should be a consistent approach across healthcare services. The committee concluded that, while it believed in principle that the Measure should make provisions to extend redress arrangements to primary care, a full evaluation of the scheme's operation in secondary care should be carried out before these arrangements are rolled out to include primary care.

Our recommendations on tightening up the procedures in relation to regulations mean that consultation would have to be carried out before the scheme could be expanded to cover primary care. Therefore, at this stage, the committee could not make a judgment as to whether the scheme could apply in a practical sense to the primary care sector.

Finally, I will turn to the financial impact of the proposed Measure. The financial information included in the memorandum has been examined by the Finance Committee. The financial impact of a redress scheme is difficult to quantify. You need to assess the cost of providing advice and assistance, the provision of medical experts, the cost of providing specialist training for staff, and whether or not the redress scheme will lead to an increase in the level of claims for compensation.

The financial information that accompanies the Measure did not provide sufficient information in any of these respects, with the figures based on the work done in England. You cannot simply make a comparison, as the Welsh legislation is broader in scope than that introduced in England. Many witnesses have already commented on the likely increase in the number of cases, as well as the substantial costs involved in providing advice under the scheme, and ensuring that the relevant staff have specialist training. We carefully considered the Finance Committee's recommendation that the Stage 1 debate should not take place until it had been able to consider a more detailed assessment of the financial impact of the

gofal sylfaenol ar y cychwyn. Cawsom lawer o dystiolaeth a oedd yn awgrymu y gallai fod yn fwy cymhleth rhoi trefniadau gwneud iawn ar waith o ran meddygon teulu a deintyddion, er enghraifft, ond dadleuai eraill y dylai fod dull cyson o weithredu ar draws y gwasanaethau gofal iechyd. Daeth y pwyllgor i'r casgliad, er ei fod yn credu mewn egwyddor y dylai'r Mesur wneud darpariaethau i ymestyn y trefniadau gwneud iawn i ofal sylfaenol, y dylid cynnal gwerthusiad llawn o sut y mae'r cynllun yn gweithredu o fewn gofal eilaidd cyn i'r trefniadau hyn gael eu hehangu i gynnwys gofal sylfaenol.

Mae ein hargymhellion o ran tynhau'r gweithdrefnau yng nghyd-destun rheoliadau yn golygu y byddai'n rhaid cynnal ymgynghoriad cyn y gellid ehangu'r cynllun i gynnwys gofal sylfaenol. Felly, ar hyn o bryd, ni allai'r pwyllgor farnu a ellid defnyddio'r cynllun yn ymarferol yn y sector gofal sylfaenol.

Yn olaf, trof at effaith ariannol y Mesur arfaethedig. Mae'r wybodaeth ariannol yn y memorandwm wedi'i harchwilio gan y Pwyllgor Cyllid. Mae'n anodd mesur effaith ariannol cynllun gwneud iawn. Rhaid ichi asesu cost darparu cyngor a chymorth, darparu arbenigwyr meddygol, cost darparu hyfforddiant arbenigol i staff, ac a wnaiff y cynllun gwneud iawn arwain at gynyddu lefel yr hawliadau am iawndal.

Nid oedd y wybodaeth ariannol sydd gyda'r Mesur yn rhoi digon o wybodaeth am ddim un o'r agweddau hyn, ac yr oedd y ffigurau wedi'u seilio ar y gwaith a wnaethpwyd yn Lloegr. Ni allwch gymharu'n syml fel hynny, gan fod deddfwriaeth Cymru'n ehangach ei chwmpas na honno a gyflwynwyd yn Lloegr. Mae llawer o dystion wedi sôn eisoes y bydd nifer yr achosion yn debygol o gynyddu, yn ogystal ag am y costau sylweddol sydd ynghlwm wrth ddarparu cyngor dan y cynllun, a sicrhau bod y staff perthnasol yn cael hyfforddiant arbenigol. Ystyriwyd yn ofalus gennym argymhelliad y Pwyllgor Cyllid na ddylid cynnal dadl Cyfnod 1 nes iddo allu ystyried asesiad mwy manwl ar effaith ariannol y cynllun.

scheme.

When drafting our report, the Minister assured us that further modelling had to be carried out, and that this information would be available for Members to consider in advance of this Stage 1 debate. Some additional information was sent to all Members by the Minister last week, which informs today's debate. However, the Measure committee has not had the opportunity to provide further consideration to the information that was required, nor has the Finance Committee. The timing of the final report from the Minister will mean that we cannot take account of it during Stage 2.

I point Members to paragraph 195 of the report, which states that we expect future Measures to be handled differently. We consider that the policy behind a legislative proposal must be finalised before a proposed Measure is introduced for consideration by the Assembly. That would allow the Assembly legislative committee to undertake proper and detailed scrutiny of any proposals.

Finally, I thank the Minister for bringing this legislation forward. I welcome her commitment to bring forward amendments at Stage 2 to improve the legislation as outlined in our report. I look forward to the forthcoming, detailed consideration by the Measure committee.

Y Llywydd: Galwaf Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Alun Cairns: Jonathan Morgan, Chair of the Measure committee, has already highlighted some of the Finance Committee's concerns about this Measure. I will expand on one or two points in this regard.

First, the committee wholeheartedly welcomes the Measure, and the Government's desire to provide a simpler and fairer system of redress to NHS patients. The Finance Committee has examined the Government's estimates of what the Measure will cost. This is an important part of the legislative process, because we all remember last week's debate on the Assembly's budget, and how tight funding is going to be in the

Wrth ddrafftio'n hadroddiad, cawsom sicrwydd gan y Gweinidog fod yn rhaid gwneud rhagor o fodelu, ac y byddai'r wybodaeth hon ar gael i'r Aelodau ei hystyried cyn y ddadl hon, dadl Cyfnod 1. Anfonwyd rhywfaint o wybodaeth ychwanegol at bob Aelod gan y Gweinidog yr wythnos diwethaf, sy'n goleuo'r ddadl heddiw. Fodd bynnag, nid yw pwyllgor y Mesur wedi cael y cyfle i ystyried ymhellach y wybodaeth yr oedd gofyn amdani, ac nid yw'r Pwyllgor Cyllid wedi cael cyfle i wneud hynny ychwaith. Bydd amseru'r adroddiad terfynol gan y Gweinidog yn golygu na allwn ei hystyried yn ystod Cyfnod 2.

Cyfeiriaf yr Aelodau at baragraff 195 yn yr adroddiad, sy'n dweud ein bod yn disgwyl gweld Mesurau yn y dyfodol yn cael eu trin yn wahanol. Credwn fod yn rhaid cwblhau'r polisi sy'n sail i gynnig deddfu cyn cyflwyno Mesur arfaethedig i'w ystyried gan y Cynulliad. Byddai hynny'n caniatáu i bwyllgor deddfu'r Cynulliad graffu'n briodol ac yn fanwl ar unrhyw gynigion.

Yn olaf, diolchaf i'r Gweinidog am gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Croesawaf ei hymrwymiad i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i wella'r ddeddfwriaeth fel yr amlinellir yn ein hadroddiad. Edrychaf ymlaen at y trafod manwl maes o law gan bwyllgor y Mesur.

The Presiding Officer: I call the Chair of the Finance Committee.

Alun Cairns: Mae Jonathan Morgan, Cadeirydd pwyllgor y Mesur, eisoes wedi tynnu sylw at rai o bryderon y Pwyllgor Cyllid am y Mesur hwn. Ymhelaethaf ar bwynt neu ddau yn y cyswllt hwn.

Yn gyntaf, mae'r pwyllgor yn croesawu'r Mesur yn frwd, ac yn croesawu awydd y Llywodraeth i ddarparu system gwneud iawn symlach a thecach i gleifion y GIG. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi archwilio amcangyfrifon y Llywodraeth o gost y Mesur. Mae hyn yn rhan bwysig o'r broses ddeddfu, oherwydd yr ydym i gyd yn cofio'r ddadl yr wythnos diwethaf am gyllideb y Cynulliad, ac mor brin y bydd arian yn ystod

next few years.

It would be irresponsible to pass legislation without knowing what financial burden it will place on the Assembly, and what budget will be required. This is not just a technical point. If the budget is too low, and the money runs out, then patients will not get the faster, simpler redress that they have been promised. If the budget is too high, other priorities will not get the resources that they call for, or that they have been promised.

The Finance Committee considered that the Government's original estimate, that the cost of the Measure will be somewhere from a saving of £750,000 to a cost increase of £3 million, was too broad. We felt that more work should be done on this. The committee felt that this was most important, and recommended that the Stage 1 debate—today's debate—should not be brought forward until a better estimate of costs was available. The Minister hoped that this information would be provided by the end of last year; unfortunately, this has not been possible.

What we have seen is an interim assessment, which suggests that the estimates have been narrowed, from a saving of £91,000, to a cost increase of £1.171 million. However, there is more work to be done on this, which will not be completed until Easter. The Finance Committee has been promised a proper financial assessment of the impact of this Measure, which has not yet been provided.

3.50 p.m.

The Minister talks about more information being available in time for the Stage 2 consideration of the Measure, but if the Assembly Government sticks to its timetable, the report will not be available in time. We are going to be asked, next week, to vote on a financial resolution on this Measure; however, the Finance Committee recommended in October that today's debate should not be brought forward until there had been adequate opportunities to consider better estimates of the cost of the Measure. We have not had those estimates and they are not now expected until Easter. I regret that

y blynyddoedd nesaf.

Byddai'n anghyfrifol pasio deddfwriaeth heb wybod pa faich ariannol y bydd hynny'n ei roi ar y Cynulliad, a pha gyllideb y bydd ei hangen. Nid pwynt technegol yn unig yw hyn. Os yw'r gyllideb yn rhy fach, a bod yr arian yn dirwyn i ben, yna ni chaiff cleifion y drefn gwneud iawn sy'n gyflymach ac yn symlach a addawyd iddynt. Os yw'r gyllideb yn rhy fawr, ni chaiff blaenoriaethau eraill yr adnoddau y maent yn galw amdanynt, neu'r adnoddau a addawyd iddynt.

Barn y Pwyllgor Cyllid oedd bod amcangyfrif gwreiddiol y Llywodraeth yn rhy eang, sef y bydd cost y Mesur rywle rhwng arbed £750,000 a chynnydd yn y gost o tua £3 miliwn. Teimlem y dylid gwneud rhagor o waith ar hyn. Teimlai'r pwyllgor fod hyn yn bwysig iawn, ac argymhellodd na ddylid cyflwyno dadl Cyfnod 1—y ddadl heddiw—nes bod gwell amcangyfrif o'r costau ar gael. Gobeithiai'r Gweinidog y darperid y wybodaeth hon erbyn diwedd y llynedd; yn anffodus, nid yw wedi bod yn bosibl gwneud hyn.

Yr hyn yr ydym wedi'i weld yw asesiad interim, sy'n awgrymu bod yr amcangyfrifon wedi'u culhau, sef rhwng arbed £91,000 a chynnydd yn y gost o £1.171 miliwn. Fodd bynnag, mae rhagor o waith i'w wneud ar hyn ac na chaiff ei gwblhau tan y Pasg. Addawyd i'r Pwyllgor Cyllid y ceid asesiad ariannol priodol o effaith y Mesur, ac nid yw hynny wedi'i wneud eto.

Mae'r Gweinidog yn sôn am ddarparu rhagor o wybodaeth erbyn y bydd y Mesur yn cael ei ystyried yn ystod Cyfnod 2, ond os bydd Llywodraeth y Cynulliad yn glynu wrth ei hamserlen, ni fydd yr adroddiad ar gael mewn pryd. Yr wythnos nesaf, bydd gofyn inni bleidleisio ar benderfyniad ariannol ar gyfer y Mesur hwn; fodd bynnag, argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref oedd na ddylid cyflwyno'r ddadl sydd ger ein bron heddiw nes bod digon o gyfleoedd wedi bod i ystyried gwell amcangyfrifon o gost y Mesur. Nid ydym wedi cael yr amcangyfrifon hynny ac ni

the committee has not had the opportunity to complete its work.

Nonetheless, the preliminary figures that the Minister has provided show that further work is in hand. The committee would like an assurance that, for any future legislation, the Government will be able to allow adequate time to make all of the necessary information available to the committee. If members of the Finance Committee are to fully and positively support the Welsh Assembly Government in delivering its business, quite obviously, the information needs to be made available so that they can consider it and provide adequate scrutiny, for the benefit of the whole Assembly.

Y Llywydd: Galwaf yn awr ar y trydydd Cadeirydd, sef Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, Dai Lloyd.

David Lloyd: Y mae'n bleser gennyf gyfrannu at y ddadl bwysig hon y prynhawn yma, sy'n ein hannog i gytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ynghylch gwneud iawn am gamweddau'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Wrth gwrs, mae'n bleser hefyd i mi gael annerch y Cynulliad y prynhawn yma fel Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a gymerodd dystiolaeth eang am ychydig wythnosau cyn y Nadolig ac sydd, fel y pwyllgor ar y Mesur, wedi cynhyrchu adroddiad swmpus, sydd yn nwylo pob Aelod.

Gwaith y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth oedd ystyried agweddau cyfreithiol ar y Mesur arfaethedig yn unig. Cymerodd y pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan Gymdeithas y Cyfreithwyr, Cymru Yfory, a'r Gweinidog—yr ydym yn ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am ddod i'r Pwyllgor ar awr gynnar ar fore Mawrth i roi ei thystiolaeth.

Yn y pen draw, yr oedd gennym bedwar prif argymhelliad. Yr oedd y cyntaf yn ymwneud â'r pryder a fynegwyd mai Mesur fframwaith yw hwn. Yr oeddem yn derbyn oedd hynny am resymau hanesyddol, gan mai Mesur

ddisgwylir hwy bellach tan y Pasg. Yr wyf yn gresynu nad yw'r pwyllgor wedi cael y cyfle i gwblhau ei waith.

Wedi dweud hynny, mae'r ffigurau rhagarweiniol y mae'r Gweinidog wedi'u darparu'n dangos bod rhagor o waith ar y gweill. Byddai'r pwyllgor yn hoffi cael sicrwydd y bydd y Llywodraeth, wrth gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol, yn gallu caniatáu digon o amser i ddarparu'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer y pwyllgor. Er mwyn i aelodau'r Pwyllgor Cyllid roi cefnogaeth lwyr a chadarnhaol i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi gyflawni ei busnes, mae'n eithaf amlwg bod angen sicrhau bod y wybodaeth ar gael er mwyn iddynt ei hystyried a chraffu'n briodol arni, er budd y Cynulliad drwyddo draw.

The Presiding Officer: I now call on the third Chair, the Chair of the Subordinate Legislation Committee, Dai Lloyd.

David Lloyd: It is a pleasure to contribute to this important debate this afternoon, which urges us to agree to the general principles of the proposed NHS redress Measure in Wales. Of course, it is also a pleasure to address the Assembly this afternoon as the Chair of the Subordinate Legislation Committee, which took a wide range of evidence for a few weeks before Christmas and which, like the Measure committee, produced a substantial report, which is in Members' hands.

The work of the Subordinate Legislation Committee was only to consider legal aspects of the proposed Measure. The committee took written and oral evidence from the Law Society, Tomorrow's Wales, and the Minister—we are grateful to the Minister for coming to the committee in the early hours of Tuesday morning to give evidence.

Ultimately, we had four main recommendations. The first regarded the concern expressed that this is a framework measure. We accepted that that was for historical reasons, as this was originally an

Cymru a Lloegr ydoedd yn wreiddiol. Mae gennym Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 bellach, wrth gwrs. Felly, yr oedd yn0 argymhelliad gennym na fyddai'r Mesur hwn yn gosod cysail i'r dyfodol ynglŷn â sut y dylid cyflwyno Mesurau o'r fath. Ein hail brif argymhelliad oedd bod yn rhaid i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth hefyd gadw'r hawl i ailedrych ar y Mesur pan ystyrid ef yng Nghyfnod 2. Y trydydd argymhelliad oedd yr angen i gryfhau'r gwaith craffu ac y dylai'r set gyntaf o reoliadau, a fyddai'n gosod y patrwm at y dyfodol o ran y Mesur hwn, ddilyn y weithdrefn uwchgadarnhaol—rhywbeth newydd i nifer fawr ohonom. Clywais yr hyn a ddywed y Gweinidog, ond cawsom drafodaethau hir ar hyn yn y pwyllgor a dod i'r casgliad, yn y diwedd, y byddai dilyn y drefn uwchgadarnhaol yn ein sicrhau ni, fel Aelodau, fod elfen gref o graffu gan y Cynulliad o ran beth yn union y byddai'r Gweinidog yn ei wneud yn y dyfodol. Yr oedd ein pedwerydd argymhelliad yn ymwneud ag a ddylai'r Gweinidog ymgynghori yn statudol ai peidio. Bu i'r pwyllgor wrando ar dystiolaeth y Gweinidog y byddai'n ymgynghori beth bynnag, ac felly daeth y pwyllgor i'r casgliad na fyddai'n pwysu i wneud ymgynghori yn ofyniad statudol. Derbyniwyd sicrhad y Gweinidog y byddai'n ymgynghori beth bynnag.

Ar ddechrau'r broses, yr oedd peth anniddigrwydd ymhlith aelodau'r pwyllgor ynglŷn ag ehangder y pwerau posibl a fyddai'n cael eu rhoi yn nwylo'r Gweinidog. Fodd bynnag, fel yr aeth y broses yn ei blaen ac wrth inni dderbyn rhagor o dystiolaeth a gwrando ar y tystion, gan gynnwys y Gweinidog, cafodd y pwyllgor ei fodloni ynglŷn â'r fframwaith. Cadarnhaodd y Gweinidog mai'r weithdrefn gadarnhaol fyddai'n cael ei defnyddio gan amlaf, yn hytrach na'r weithdrefn negyddol. Yr oedd hwnnw'n gam pwysig ymlaen. Yr wyf yn falch o glywed fod y Gweinidog yn glynu at y safbwynt hwnnw'r prynhawn yma.

Cofiw'n o'n trafodaeth wreiddiol yn y Siambr yn dilyn y datganiad fod pawb, yn y bôn, yn credu bod ceisio tynnu'r cyfreithwyr allan o'r broses yn syniad call. Bydd tynnu'r llysoedd o'r broses a cheisio symleiddio'r system yn

England-and-Wales Bill. We now have the Government of Wales Act 2006, of course. Therefore, it was our recommendation that this Measure should not set a precedent for the future in terms of how Measures of this kind should be presented. Our second main recommendation was that the Subordinate Legislation Committee should also retain the right to look again at the Measure when it is considered in Stage 2. The third recommendation was on the need to strengthen the scrutiny process and that the first set of regulations, which would set the pattern for the future in terms of this Measure, should follow the superaffirmative procedure—something that is new to many of us. I heard what the Minister said, but we had lengthy discussions about this in the committee and came to the conclusion that following the superaffirmative procedure would assure us, as Members, that there was a strong element of scrutiny by the Assembly of what exactly the Minister would do in the future. Our fourth recommendation related to whether there should be statutory consultation by the Minister or not. The committee listened to the Minister's evidence that she would consult in any case, and therefore came to the conclusion that it would not push for a statutory requirement for consultation. We accepted the Minister's assurance that she would carry out consultation in any case.

At the beginning of the process, there was some discontent among committee members regarding the scope of the powers to be put in the hands of the Minister. However, as the process progressed and as we received more evidence and listened to the witnesses, including the Minister, the committee was satisfied with the framework. The Minister confirmed that it would be the affirmative procedure that would be used mostly, rather than the negative procedure. That was an important step forward. I am glad to hear that the Minister will adhere to that position this afternoon.

We remember from the original discussion that we had in the Chamber following the statement that everyone basically believes that removing lawyers from the process is a sensible idea. Removing the courts from the

cadw'r costau i lawr ac yn sicrhau tegwch yn amlach i'r claf mewn llai o amser, heb orfod mynd i gyfraith. Gwelaf yn rhai o'r cylchgronau meddygol mae'n rhaid imi eu darllen o bryd i'w gilydd fod yr Undeb Amddiffyn Meddygol yn cefnogi'r Mesur arfaethedig hwn. Cred yr undeb ei fod yn syniad bendigedig cymryd yr achosion llai allan o'r system gyfreithiol yn gyfan gwbl, fel bod sicrwydd a bod cleifion yn cael tegwch yn llawer cyflymach nag o dan y system bresennol.

Y bwriad yw gweithio tuag at system iawndal di-fai. Ar hyn o bryd, nid oes iawndal i gleifion lle nad oes esgeulustod meddygol. Hynny yw, lle nad oes meddyg neu nyrs ar fai, nid oes iawndal i glaf. Ni chredaf fod hynny'n iawn. Lle mae meddyg neu nyrs ar fai, fel y clywsom gan Jonathan Morgan, mae'r system bresennol yn drwsgl, yn ddud ac yn hirwyntog. Mae'r system bresennol yn gwbl anfodhaol. Felly, cam cyntaf yw hwn. Yr wyf yn hyderus y bydd y Cynulliad yn cefnogi'r egwyddor sydd o'n blaenau i gytuno i egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. Bydd hynny'n gam cyntaf sylweddol i wella pethau a rhoi tegwch i gleifion. Dyna sydd ger ein bron. Cefnogwch y cynnig.

Jenny Randerson: I do not believe that you can overstate the complexity of this issue. There are fundamentals associated with it, such as whether this scheme should apply for primary care as well as secondary care. There is the issue of what level of legal advice should be offered, at what stage, and who will offer that advice. There is the question of how the system should operate. Should it be done on a trust by trust basis, in order to avoid creating yet another health body? If so, how would we ensure conformity of standard across the board? How will it fit in with the speedy resolution process? Will it replace that? What should be the financial limit on compensation? How do we construct a system that creates staff buy-in to a change and improvement culture where the NHS learns from its mistakes rather than trying to hide them? How do we ensure maximum transparency by withholding the minimum number of reports, if any at all, without

process and trying to simplify the system will reduce costs and ensure fairness to the patient in a shorter period of time, without having to take legal proceedings. In the medical journals that I have to read from time to time, I see that the Medical Defence Union supports this proposed Measure. The union believes that it is an excellent idea to completely remove the smaller cases from the legal system, so that there is assurance and that patients have justice much quicker than under the present system.

The intention is to work towards a no-fault compensation system. There is currently no compensation for patients where there has been no medical negligence. If no doctor or nurse is to blame, there is no compensation available to the patient. I do not think that that is right. Where a doctor or nurse is to blame, as we have heard from Jonathan Morgan, the current system is awkward, expensive and long-winded. The current system is totally unsatisfactory. Therefore, this is the first stage. I am confident that the Assembly will support the principle before us this afternoon to agree the general principles of the proposed Measure. That will be a substantial first step towards improving the situation and to secure fairness to patients. That is what we have before us today. Please support the motion.

Jenny Randerson: Ni chredaf y gallwch orddweud cymhlethdod y mater hwn. Mae'n codi cwestiynau sylfaenol, megis a ddylai'r cynllun hwn fod yn berthnasol i ofal sylfaenol yn ogystal ag i ofal eilaidd. Rhaid ystyried pa lefel o gymorth cyfreithiol y dylid ei chynnig, pa bryd, a phwy fydd yn cynnig y cyngor hwnnw. Rhaid ystyried sut y dylai'r system weithio. A ddylid ei wneud fesul ymddiriedolaeth, er mwyn osgoi creu corff arall eto ym maes iechyd? Os felly, sut y byddem yn sicrhau safon unffurf drwyddi draw. Sut y bydd yn cyd-fynd â'r broses o ddatrys yn gyflym? A fydd yn disodli honno? Pa derfyn ariannol y dylid ei roi ar yr iawndal? Sut y mae llunio system sy'n annog y staff i gefnogi diwylliant o newid a gwella lle y bydd y GIG yn dysgu yn sgîl ei gamgymeriadau yn hytrach nag yn ceisio'u cuddio? Sut y mae sicrhau'r tryloywder mwyaf posibl drwy ddal yn ôl gryn lleied o adroddiadau ag sy'n bosibl, os eu dal yn ôl o

creating a feeling of fear and insecurity among the staff involved?

From all of these complexities emerges one big, unanswered question: how much will it cost? I do not believe that we should be deterred from introducing this Measure because it will cost more. We all accept that it will cost more, although, astonishingly, we received evidence in committee that suggested that it might cost less. However, we must bottom-out the likely cost before it is introduced.

I have read the latest information from the Minister's group, but we are still talking about major ballpark figures, and the difference between a 16 per cent increase and a 60 per cent increase. All sorts of pictures are given to us. In the face of all this complexity, what are we offered? We are offered a short and simple piece of legislation, which leaves all the difficult questions, so far, unanswered. How these difficult questions are answered in the end is the key to whether this Measure succeeds in what it is aiming to do, or simply adds complexity and more hurdles in the way of our constituents who believe that they were not treated well by the national health service.

4.00 p.m.

The Welsh Liberal Democrats are supportive of the principle and the aims of this Measure. My experience is that constituents feel an enormous frustration at the current situation; at the variety of ways in which they can pursue a complaint; at the NHS culture that often pervades and which makes it very difficult to uncover the real detail of what has happened; at the problem of getting expert advice while making the complaint, despite the best efforts and the assistance of community health councils; at the impossibility for many of them of taking legal action simply because of the cost involved; and at the ridiculous and, I suspect, unnecessary length of time it takes to pursue a complaint and to get an outcome. Our constituents are frustrated. I have dealt with many cases of this nature and I cannot recall a single case where the outcome was, in the

gwbl, heb greu teimlad o ofn ac ansicrwydd ymhlith y staff dan sylw?

Drwy'r holl gymhlethodau hyn, cyfyd un cwestiwn mawr sydd heb ei ateb: faint y bydd hyn yn ei gostio? Ni chredaf y dylem gael ein rhwystro rhag cyflwyno'r Mesur hwn oherwydd y bydd yn costio mwy. Yr ydym i gyd yn derbyn y bydd yn costio mwy, er inni gael tystiolaeth yn y pwyllgor a awgrymai y gallai gostio llai, ac mae hynny'n syfrdanol. Fodd bynnag, rhaid inni fynd at wraidd y gost debygol cyn ei gyflwyno.

Yr wyf wedi darllen y wybodaeth ddiweddaraf gan grŵp y Gweinidog, ond yr ydym yn dal i sôn am ffigurau bras iawn, a'r gwahaniaeth rhwng cynnydd o 16 y cant a chynnydd o 60 y cant. Rhoddir pob math o ddarluniau inni. Yn wyneb yr holl gymhlethod hwn, beth a gynigir inni? Cynigir darn o ddeddfwriaeth sy'n fyr a syml inni, nad ydyw, hyd yma, yn ateb dim un o'r cwestiynau anodd. Mae sut y caiff y cwestiynau anodd hyn eu hateb yn y pen draw yn allweddol o ran a fydd y Mesur hwn yn llwyddo i gyflawni'r hyn y mae'n anelu at ei gyflawni, ynteu a fydd yn ychwanegu at y cymhlethod ac yn peri bod ein hetholwyr sy'n credu nad ydynt wedi cael eu trin yn dda gan y gwasanaeth iechyd gwladol yn wynebu rhagor o rwystrau.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi egwyddor ac amcanion y Mesur hwn. Yn fy mhrofiad i, mae'r sefyllfa bresennol yn gwneud i'r etholwyr deimlo'n rhwystredig iawn ynghylch yr amrywiol ffyrdd y gallant gyflwyno cwyn; ynghylch diwylliant y GIG, sy'n aml yn treiddio drwy bopeth ac sy'n ei gwneud yn anodd iawn i ddatgelu union fanylion yr hyn a ddigwyddodd; ynghylch problem cael cyngor arbenigol wrth wneud y gŵyn, er i gynghorau iechyd cymuned wneud eu gorau a rhoi cymorth; ynghylch cymryd camau cyfreithiol, sy'n amhosibl i lawer ohonynt oherwydd y gost; ac ynghylch yr amser afresymol a diangen, fe dybiwn, y mae'n ei gymryd i fwrw ymlaen â chŵyn a chael canlyniad. Mae ein hetholwyr yn rhwystredig. Yr wyf wedi ymdrin â sawl achos o'r math hwn ac ni allaf gofio dim un achos lle yr oedd y canlyniad, ym marn fy

view of my constituent, wholly satisfactory.

We accept that the situation must change and we accept that it is an imperative change. We will support the principle of this Measure, but we are strongly critical of the way in which we have been effectively bounced into it—and I use that word carefully, because I realise that the Minister has similar reservations due to the legal background, the history and the context of this situation. The lack of detail and clear answers to the fundamental questions does not set a good precedent here. Therefore, in Stage 2, we will be looking for amendments to firm up the detail, as the Minister's working groups come to the conclusion of their reports. I accept the Minister's commitment to consultation, and to bringing it back for further discussion, and so on, at every stage. However, the Minister must accept that she will not be here forever and that she will not be in her current post forever, and that it is our job to create a procedure where, regardless of who is in charge and in whatever circumstances, we have the democratic voice if there is a fundamental change in approach. We will be looking for more assurances on the face of the Measure in relation to the consultation process and the use of the affirmative procedure. I am glad that the Minister has indicated that she will be going some way towards this, and I look forward with great interest to Stage 2 in order to ensure that that process is absolutely foolproof.

Helen Mary Jones: I am pleased to participate in this debate. In a quiet way, it is a historic occasion, given that we are debating Wales's first piece of legislation since the Pennal parliament of Owain Glyndŵr. I am not quite sure whether it did anything about NHS redress, but possibly it should have done, although the physicians of Myddfai might have had something to say about that.

I want to divide my remarks into two categories. The first category relates to process. I think that we have all acknowledged—including the Minister and those of us on all the committees involved—that this was not the ideal way to begin, because we were starting from a particular historic perspective. I understand the

etholwr, yn gwbl foddhaol.

Derbyniwn fod yn rhaid i'r sefyllfa newid a derbyniwn ei fod yn newid hanfodol. Cefnogwn egwyddor y Mesur hwn, ond beirniadwn yn gryf y ffordd yr ydym wedi cael ein gorfodi i'w dderbyn—a defnyddiaf y gair hwnnw'n ofalus, oherwydd sylweddolaf fod gan y Gweinidog amheuan tebyg oherwydd cefndir cyfreithiol, hanes a chyddestun y sefyllfa. Nid yw'r diffyg manylion a'r diffyg atebion clir i gwestiynau sylfaenol yn gosod cynsail da. Felly, yng Nghyfnod 2, byddwn am weld gwelliannau i wneud y manylion hynny'n gliriach, wrth i weithgorau'r Gweinidog gwblhau eu hadroddiadau. Derbyniaf ymrwymiad y Gweinidog i ymgynghori, ac i gael trafodaeth bellach ar y mater, ac yn y blaen, yn ystod pob cam. Fodd bynnag, rhaid i'r Gweinidog dderbyn na fydd yma am byth ac na fydd yn ei swydd bresennol am byth, ac mai ein gwaith ni yw creu gweithdrefn i sicrhau y bydd gennym lais democrataidd os bydd newid sylfaenol o ran y dull o ymdrin â hyn, pwy bynnag fo'n rheoli a beth bynnag fo'r amgylchiadau. Byddwn am gael rhagor o sicrwydd yn y Mesur o ran y broses ymgynghori a defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol. Yr wyf yn falch bod y Gweinidog wedi nodi y bydd yn mynd gam o'r ffordd tuag at hyn, ac edrychaf ymlaen gyda diddordeb mawr at Gyfnod 2 er mwyn sicrhau bod y broses yn gwbl ddi-feth.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn falch o gymryd rhan yn y ddadl hon. Yn dawel bach, mae bod yn rhan o ddadl ar ddeddfwriaeth gyntaf Cymru ers senedd Owain Glyndŵr ym Mhennal yn achlysur hanesyddol. Nid wyf yn siŵr iawn a wnaeth rywbeth i wneud iawn am gamweddau'r GIG, ond efallai y dylai fod wedi gwneud hynny, er y byddai gan feddygon Myddfai rywbeth i'w ddweud am hynny.

Hoffwn rannu fy sylwadau'n ddau gategori. Mae'r categori cyntaf yn ymwneud â'r broses. Credaf ein bod oll wedi cydnabod—gan gynnwys y Gweinidog a'r rhai ohonom ar yr holl bwyllgorau dan sylw—nad hyn oedd y dull delfrydol o ddechrau arni, oherwydd yr oeddem yn dechrau o safbwynt hanesyddol penodol. Deallaf y pryderon sydd

concerns that have been raised, but I would like to remind the Assembly of what we are being asked to do today. Today we are debating the principle of the Measure, and I am pleased to see, and not at all surprised having sat through committee debates, that there is huge support for the principle of the Measure. I would expect us, even in future, in an ideal process, to get more detail at the next stage and to get more detail yet in regulations. I considered the function of our committee to be looking at whether or not, in principle, this would be the right thing to do.

I am pleased that others have acknowledged how the Minister has been prepared to provide additional information that perhaps one would not normally expect. So, at this stage, we are debating the principles. We will get more detail at the next stage and more still in regulations. This, as I understand it, as a new legislator, is a fairly normal legislative process. I would expect this to include financial information. Of course, we need the best estimate that we could possibly have, but I submit that, with such a scheme, we are unlikely to know exactly how much it will cost and how much it may save until the scheme is in place. By the nature of any redress system, it will vary from year to year. Of course, we must all hope that we will be able, through this system, to support the NHS in learning lessons more constructively when mistakes are made, so, in the long term, we would all hope to see the redress budget go down, not because people are not getting the compensation to which they were entitled, but because fewer mistakes are made.

Perhaps, as new legislators, we need to examine our expectations. I have looked at a few of the financial memoranda that are produced for committees in Westminster, and it is my perception that our Minister has provided us with much more information than is frequently made available there—not, Presiding Officer, that you would expect me to want us to learn lessons from their bad habits.

wedi cael eu codi, ond hoffwn atgoffa'r Cynulliad o'r hyn y gofynnir inni ei wneud heddiw. Heddiw yr ydym yn trafod egwyddor y Mesur, ac yr wyf yn falch o weld, ac nid yw'n syndod o gwbl imi ar ôl bod mewn sawl dadl mewn pwyllgorau, fod cefnogaeth enfawr i egwyddor y Mesur. Byddwn yn disgwyl inni, hyd yn oed yn y dyfodol, mewn proses ddelfrydol, gael rhagor o fanylion yn y cam nesaf a chael rhagor o fanylion eto mewn rheoliadau. Yr oeddwn o'r farn mai swyddogaeth ein pwyllgor oedd ystyried ai hyn fyddai'r peth cywir i'w wneud mewn egwyddor.

Yr wyf yn falch bod eraill wedi cydnabod y ffordd y mae'r Gweinidog wedi bod yn barod i ddarparu gwybodaeth ychwanegol na fyddai rhywun yn ei disgwyl fel arfer o bosibl. Felly, ar hyn o bryd, yr ydym yn trafod yr egwyddorion. Cawn ragor o fanylion yn y cam nesaf, a rhagor wedyn mewn rheoliadau. Mae hon, fel y deallaf, fel deddfwr newydd, yn broses ddeddfwriaethol eithaf normal. Byddwn yn disgwyl i hyn gynnwys gwybodaeth ariannol. Wrth gwrs, mae angen yr amcangyfrif gorau posibl arnom, ond derbyniaf, gyda chynllun o'r fath, ein bod yn annhebygol o wybod faint yn union y bydd yn ei gostio a faint o arian y bydd yn ei arbed nes i'r cynllun gael ei roi ar waith. Bydd unrhyw system gwneud iawn am gamweddau, yn ôl ei natur, yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Wrth gwrs, rhaid inni i gyd obeithio y byddwn, drwy'r system hon, yn gallu cynorthwyo'r GIG i ddysgu gwersi mewn ffordd fwy adeiladol pan wneir camgymeriadau, a byddwn oll, yn y tymor hir, yn gobeithio gweld y gyllideb gwneud iawn yn gostwng, nid oherwydd nad yw pobl yn cael yr iawndal y mae ganddynt hawl i'w gael, ond oherwydd bod llai o gamgymeriadau'n cael eu gwneud.

Fel deddfwyr newydd, efallai fod angen inni edrych yn fanwl ar ein disgwyliadau. Yr wyf wedi edrych ar ambell femorandwm ariannol a roddir gerbron pwyllgorau yn San Steffan, a chredaf fod ein Gweinidog wedi rhoi llawer mwy o wybodaeth inni na'r hyn sydd ar gael yno—nid y byddech, Lywydd, yn disgwyl imi fod yn awyddus inni ddysgu gwersi o'u harferion drwg hwy.

I wish to raise a specific that relates to the principle of this Measure, namely withholding reports. This was a matter of serious concern to me and to others. I know that the Minister has said that withholding information is usually only done on the advice of a health professional, but in this case in particular, we need to know which health professional. It has to be absolutely clear that any health professionals giving advice that a report should not be made available to a patient seeking redress should have absolutely no connection with any aspect of that patient's treatment relating to matters over which redress was sought. Given the interconnectivity of treatment that patients often receive, I feel that this may be difficult to achieve at a local level and it may be, as our committee has recommended, that a separate structure is needed. I am sure that none of us on our committee would want to see a complex bureaucracy in place, but when a patient has sought redress, it must only be under the most highly exceptional circumstances that the information about the outcome of that complaint is not made fully available to them.

I will look again at sections 5(3) and 5(4), as the Minister has referred to them today, but I am still currently minded that we will need strengthened arrangements. Those arrangements may need to be on the face of the Measure, which is what I currently believe, or addressed in regulations.

I am glad that we can all support this principle. As others have said, most of us in our constituency caseloads will have dealt with cases that have not been fair to the staff involved or have not lead to fair redress for a patient who has suffered a wrong. The current arrangements are complex; they do not deliver justice for patients or fairness for staff. There are issues of detail to be resolved, but we are debating the principle today, and I am confident that we can recommend to the Assembly that the principle be supported and the detail addressed in the next phase.

Irene James: I wholeheartedly welcome the

Hoffwn godi mater penodol sy'n ymwneud ag egwyddor y Mesur hwn, sef cadw adroddiadau yn ôl. Yr oedd hyn yn peri pryder mawr i mi ac i eraill. Gwn i'r Gweinidog ddweud mai dim ond ar sail cyngor gweithiwr iechyd proffesiynol y caiff gwybodaeth ei chadw'n ôl fel arfer, ond yn yr achos hwn yn arbennig, mae angen inni wybod pa weithiwr iechyd proffesiynol. Rhaid ei gwneud yn gwbl glir na ddylai dim un gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n rhoi cyngor i'r perwyl na ddylid rhyddhau adroddiad i glaf sy'n ceisio cael iawn gael dim cysylltiad â dim un agwedd ar driniaeth y claf hwnnw yng nghyswllt materion sy'n gysylltiedig â chais y claf hwnnw am iawn. O gofio'r cysylltiad rhwng triniaethau a roddir i gleifion yn aml, teimlaf y gall hyn fod yn anodd ei gyflawni yn lleol ac efallai fod angen strwythur ar wahân, fel yr argymhellodd ein pwyllgor. Yr wyf yn siŵr na fyddai dim un ohonom ar ein pwyllgor am weld biwrocratiaeth gymhleth ar waith, ond pan fydd claf wedi ceisio cael iawn, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol iawn y dylid gwrthod rhoi'r wybodaeth lawn am ganlyniad y gŵyn honno iddo.

Edrychaf eto ar adrannau 5(3) a 5(4), gan fod y Gweinidog wedi cyfeirio atynt heddiw, ond yr wyf yn parhau o'r farn y bydd angen trefniadau cryfach arnom. Efallai y bydd angen i'r trefniadau hynny fod yn y Mesur ei hun, sef fy marn i ar hyn o bryd, neu gellir rhoi sylw iddynt mewn rheoliadau.

Yr wyf yn falch bod pawb ohonom yn gallu cefnogi'r egwyddor hon. Fel y dywedodd eraill, bydd y rhan fwyaf ohonom, yn ein baich achosion yn ein hetholaethau, wedi ymdrin ag achosion nad ydynt wedi bod yn deg â'r staff dan sylw ac nad ydynt ychwaith wedi gwneud iawn am gamweddau o safbwynt y claf sydd wedi dioddef cam. Mae'r trefniadau presennol yn gymhleth; nid ydynt yn sicrhau cyfiawnder o ran cleifion na thegwch o ran y staff. Mae angen datrys materion yn ymwneud â'r manylion, ond heddiw trafod yr egwyddor yr ydym, ac yr wyf yn hyderus y gallwn argymhell i'r Cynulliad hwn y dylid cefnogi'r egwyddor ac y dylid mynd i'r afael â'r manylion yn y cam nesaf.

Irene James: Croesawaf yn wresog y

proposed reforms to the complaints procedure. In our drive to provide ever-improving levels of healthcare, how we deal with complaints is crucial. The current system, as the report suggests, does nothing to address the need to learn lessons when things go wrong, which is very important.

We can all appreciate how difficult this can be for staff. The threat of court action will inevitably lead to some sections of the workforce closing ranks—staff who, on other occasions, would pride themselves on their desire for constant personal development and reflection. In order to gain back the trust of such individuals, a new process that is much easier for them to engage with is vital. I do not think that many healthcare professionals would ever be heard saying that our current complaints procedure and compensation service filled them with confidence.

That is not solely due to the adversarial nature of the current process, as it is also about the timescales of the process. It is almost set up to be slow and unwieldy. While that is frustrating, many of those who gave evidence to the committee talked of a discrepancy in results for similar complaints. If anything is to undermine staff confidence, it will be this issue. Patients are also desperately looking for consistency; they must find the whole process bewildering, and, at times, quite frightening. This can result in some patients not taking up a complaint in the first place.

4.10 p.m.

For many individuals that pursue a complaint, compensation is not necessarily their first requirement, but they want to know that lessons have been learnt and that such an event is less likely to happen again in the future. In many instances, they simply want an apology. For the reasons I stated earlier, I do not believe that this is possible with the current state of affairs.

It is of the highest importance that any new system works well across all the bodies concerned. With this in mind, ensuring that all investigations are of the highest standard for the sake of the complainant and the

diwygiadau arfaethedig i'r weithdrefn gwyno. Yn ein hymgyrch i wella gofal iechyd yn barhaus, mae sut yr ydym yn ymdrin â chwynion yn hollbwysig. Ni wna'r system bresennol, fel yr awgryma'r adroddiad, ddim i fynd i'r afael â'r angen i ddysgu gwersi pan aiff pethau o chwith. Mae hynny'n bwysig iawn.

Gallwn oll sylweddoli mor anodd y gall hyn fod i'r staff. Bydd y bygythiad y bydd achos llys, yn anochel, yn peri i rai carfanau o'r gweithlu gau'r rhengoedd—staff a fyddai, ar adegau eraill, yn ymfalchïo yn eu hawydd i barhau â'u datblygiad a'u myfyrdod personol. Er mwyn adennill ymddiriedaeth unigolion o'r fath, mae proses newydd y mae'n haws iddynt gyfrannu ati yn hollbwysig. Ni chredaf y byddem byth yn clywed llawer o weithwyr iechyd proffesiynol yn dweud bod ein gweithdrefn gwyno a'n gwasanaeth iawndal presennol yn ennyn hyder ynddynt.

Nid natur wrthwynebol y broses bresennol yn unig sydd i gyfrif am hynny; mae a wnelo hefyd ag amserlenni'r broses. Bron na ellid dweud ei bod yn araf ac yn anhylaw yn ei hanfod. Er bod hynny'n peri rhwystredigaeth, soniodd llawer o'r rhai a roddodd dystiolaeth yn y pwyllgor am wahaniaethau mewn canlyniadau ar gyfer cwynion tebyg. Bydd y mater hwn, yn anad dim, yn sicr o danseilio hyder y staff. Mae cleifion hefyd yn deisyfu cysondeb; rhaid bod yr holl broses yn ddryslyd iddynt, ac, ar adegau, yn eithaf brawychus. Gall hyn beri i rai cleifion beidio â gwneud cwyn yn y lle cyntaf.

I lawer o unigolion sy'n gwneud cwyn, nid iawndal yw eu blaenoriaeth o anghenraid. Maent am wybod bod gwersi wedi cael eu dysgu a bod digwyddiad o'r fath yn llai tebygol o ddigwydd eto yn y dyfodol. Mewn sawl achos, y cyfan y maent am ei gael yw ymddiheuriad. Am y rhesymau a nodais yn gynharach, ni chredaf fod hyn yn bosibl gyda'r sefyllfa bresennol.

Mae'n hollbwysig i unrhyw system newydd weithio'n dda ar draws yr holl gyrff dan sylw. Gyda hyn mewn cof, mae angen inni roi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod pob ymchwiliad o'r safon uchaf er budd yr

institution concerned needs to be a high priority. This may entail additional training for staff, as well as openness on the part of trusts to allow for investigations to come to the conclusion that the problem was not necessarily the fault of individual staff members but of trust policies or other institutional failings. We know from the committee's findings that many trusts would welcome the opportunity to handle such matters locally and in a way that helps them to move forward.

In conclusion, I am pleased that the result of the committee's deliberations has been that many organisations have recognised the need for change, and I hope that we take this opportunity to do just that. Failure to take this opportunity for reform will lead to continued difficulties in learning the much-needed lessons that are highlighted in this report. We must learn from the mistakes that have been made and move down a road that has often been confusing and difficult for patients and staff to learn from and work in. We must move in that direction.

Michael German: I wish to make two brief points. The first point was put to me by community health councils in Wales in relation to their concerns about the method of support for those who go through the NHS redress procedure. Their concern is that there does not seem to be any guidance or advice in the legislation that has been proposed so far, and I hope that the Minister will be able to respond to that point.

As we turn another page in the history of Wales at the end of the pre-legislative scrutiny of the Assembly's first Measure, it is a suitable time to look back on the procedures. There is a habit in the National Assembly for Wales that once something becomes the way in which you do things, it is awfully difficult to change the way you do it the next time. So, Presiding Officer, I hope that you will bear in mind that there are lessons that can be learnt from this first event of its kind. We know that it is a process—we will get not get fully settled into a procedure until we have had more practice—but the key thing that should be learnt from the process is the need for far greater policy background to be provided when framework Measures are

achwynydd ac er budd y sefydliad dan sylw. Gall hyn olygu hyfforddiant ychwanegol i'r staff, yn ogystal ag agwedd agored gan ymddiriedolaethau i ganiatáu i ymchwiliadau ddod i'r casgliad nad bai aelodau unigol o'r staff oedd y broblem o anghenraid, ond bai polisiau'r ymddiriedolaeth neu ddiffygion eraill yn y sefydliad. Gwyddom ar sail canfyddiadau'r pwyllgor y byddai sawl ymddiriedolaeth yn croesawu'r cyfle i ymdrin â materion o'r fath yn lleol ac mewn ffordd sy'n eu helpu i symud ymlaen.

I gloi, yr wyf yn falch mai canlyniad trafodaethau'r pwyllgor yw bod llawer o sefydliadau wedi cydnabod yr angen am newid, a gobeithiaf yr achubwn y cyfle hwn i wneud hynny. Bydd methu ag achub y cyfle hwn i ddiwygio yn arwain at anawsterau'n parhau o ran dysgu'r gwersi hollbwysig y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn. Rhaid inni ddysgu yn sgîl y camgymeriadau a wnaethpwyd a symud oddi wrth sefyllfa sydd yn aml wedi bod yn ddrylyd ac yn anodd i gleifion a staff ddysgu ohoni a gweithio ynddi. Rhaid inni symud i'r cyfeiriad hwnnw.

Michael German: Hoffwn wneud dau bwynt byr. Mae'r pwynt cyntaf yn deillio o gynghorau iechyd cymuned Cymru a'u pryderon ynghylch y dull o gefnogi'r rhai sy'n mynd drwy weithdrefn gwneud iawn am gamweddau'r GIG. Yr hyn sy'n peri pryder iddynt yw nad ymddengys fod dim canllawiau na chyngor yn y ddeddfwriaeth a gynigiwyd hyd yma, a gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn gallu ymateb i'r pwynt hwnnw.

Wrth inni droi dalen arall yn hanes Cymru ar ddiwedd y broses graffu cyn y broses ddeddfu ar Fesur cyntaf y Cynulliad, mae'n amser priodol i edrych yn ôl ar y gweithdrefnau. Mae'n arferiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru pan fydd trefn o wneud pethau yn cael ei sefydlu, ei bod yn anodd iawn newid y ffordd y byddwch yn gwneud pethau y tro nesaf. Felly, Lywydd, gobeithiaf y cofiwch fod gwersi i'w dysgu yn sgîl y digwyddiad cyntaf hwn o'i fath. Gwyddom mai proses ydyw—ni fyddwn yn dod yn gwbl gyfarwydd â defnyddio gweithdrefn nes inni gael mwy o ymarfer—ond y peth allweddol y dylid ei ddysgu o'r broses yw'r angen am lawer mwy o gefndir ynghylch y polisi pan gyflwynir Mesurau fframwaith. Pan fydd

introduced. When you have shell powers as there are in this Measure, more policy understanding is required, and I hope that that can be provided, especially when so much power will be conferred on a Minister in introducing regulations.

Although the committee has noted the unusual background to the Measure, as mentioned by the committee Chair, it is important that the slim nature of the policy background does not set a precedent for the future. A far greater report on policy background should be provided at Stage 1; it is important for people to know the broad policy outcomes that we are trying to achieve.

We must never get ourselves into a situation in which policy is developed as a response to a proposed Measure, as opposed to a proposed Measure being introduced as a result of policy. It is about placing the cart in the right place in this two-stage process. Otherwise, we risk getting into the territory of making law that is reactive as opposed to proactive, which is a dangerous precedent.

As we have already said, we will support the general principles behind the proposed Measure. There is a need for an effective and sensible way to gain redress in low-level complaints, and so this is most welcome. We are often told by constituents that a simple 'sorry' is all that they want, and I think that Irene mentioned that. This Measure is a way to make that a more common occurrence.

As you know, there are many more concerns about the process that we share, and they have been mentioned at length, but, to put them to one side, we can and will support this proposed Measure at its first stage. We hope that improvements will be made to it, and that a more deliberate policy background will be in evidence during the coming stages.

Val Lloyd: As a member of the committee that looked at the proposed NHS Redress Measure, I was pleased that we finally reached a consensus and unanimously agree to the general principles of the Measure. It is quite evident from the comments that we

gennyhch bwerau amlinellol fel sydd yn y Mesur hwn, mae angen mwy o ddealltwriaeth o ran y polisi, a gobeithiaf y gellir darparu hynny, yn arbennig pan fydd cymaint o bŵer yn cael ei roi i Weinidog o ran cyflwyno rheoliadau.

Er bod y pwyllgor wedi nodi cefndir anarferol y mesur, fel y soniodd Cadeirydd y pwyllgor, mae'n bwysig nad yw prinder cefndir polisi'n gosod cynsail ar gyfer y dyfodol. Dylid darparu adroddiad llawer helaethach ar gefndir polisi yng Nghyfnod 1; mae'n bwysig er mwyn i bobl wybod beth yw'r canlyniadau cyffredinol o ran polisi yr ydym yn ceisio'u cyflawni.

Rhaid inni osgoi mynd i sefyllfa lle y bydd polisi'n cael ei ddatblygu er mwyn ymateb i Fesur arfaethedig, yn hytrach na bod Mesur arfaethedig yn cael ei gyflwyno yn sgîl polisi. Mater o roi'r cart yn y man iawn yw hi yn y broses ddau gyfnod hon. Fel arall, mae perygl inni gamu i diriogaeth lle y byddwn yn creu cyfraith sy'n ymatebol yn hytrach nag yn rhagweithiol, ac mae hynny'n gynsail peryglus.

Fel yr ydym wedi dweud eisoes, byddwn yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol sydd wrth wraidd y Mesur arfaethedig. Mae angen ffordd effeithiol a synhwyrol i bobl sydd â chwynion llai difrifol gael iawn, ac felly mae hyn i'w groesawu'n fawr. Dywed etholwyr wrthym yn aml mai'r cyfan y maent yn dymuno'i gael yw ymddiheuriad syml, a chredaf i Irene grybwyll hynny. Ffordd o sicrhau bod hynny'n digwydd yn amlach yw'r Mesur hwn.

Fel y gwyyddoch, yr ydym yn gytûn am lawer mwy o bryderon ynglŷn â'r broses, a soniwyd yn helaeth am y rhain, ond o'u rhoi o'r neilltu, gallwn gefnogi'r Mesur arfaethedig hwn yn ei gyfnod cyntaf a byddwn yn gwneud hynny. Gobeithiwn y caiff ei wella, ac y bydd cefndir polisi mwy bwriadol i'w weld yn ystod y cyfnodau nesaf.

Val Lloyd: A minnau'n aelod o'r pwyllgor a fu'n edrych ar y Mesur arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG, yr oeddwn yn falch inni gyrraedd consensws yn y pen draw a chytuno'n unfrydol ag egwyddorion cyffredinol y Mesur. Mae'n

have heard today that it is supported by everyone.

I agree with the comments about the rigour and transparency of the scrutiny process. In fact, looking back, it seems to have taken up the last umpteen months of my time. However, it concerns me that some of the information that would have assisted the scrutiny work during Stage 1 was not available, not least the detailed costings of implementing the Measure. I understand that that is partly due to the fact that the policy behind the Measure is still being developed in some areas. I appreciate that, and I am confident that the Minister will update the committee as soon as that information becomes available. However, in general, I reiterate the committee's recommendation that, in future, as much detail as possible be provided to assist Members' scrutiny, especially when a Measure potentially confers such wide framework powers.

This relative lack of information is of particular concern in relation to the provision of advice and assistance under the scheme, in sections 7 and 8 of the proposed Measure. The provision of clear and readily available advice to patients is crucial if this redress scheme is to be successful. Situations where redress is sought are stressful enough, and patients must be adequately informed of their options. This Measure is our opportunity to get it right for patients in Wales, and we must ensure that the system that we put in place works effectively. I am therefore reassured, and look forward to the Minister providing further information on when advice and assistance will be available under the scheme, who will provide it, and how these services will be monitored to ensure a consistent approach.

A simple, accessible, out-of-court redress procedure designed to address patients' grievances with the national health service is a huge step towards strengthening patients' rights. Court procedures can be costly and daunting, and can put many people off trying to put things right. I am pleased that the first Measure that the Assembly is looking at

either amlwg yn ôl y sylwadau yr ydym wedi'u clywed heddiw fod pawb yn ei gefnogi.

Cytunaf â'r sylwadau am drylwyredd a thryloywder y broses craffu. A dweud y gwir, wrth edrych yn ôl, ymddengys imi dreulio misoedd di-rif arni'n ddiweddar. Fodd bynnag, mae'n destun pryder imi nad oedd rhywfaint o'r wybodaeth a fyddai wedi cynorthwyo'r gwaith o graffu yn ystod Cyfnod 1 ar gael, yn anad dim y costau manwl ynglŷn â rhoi'r Mesur ar waith. Deallaf fod hynny'n rhannol oherwydd bod y polisi sydd wrth wraidd y Mesur yn dal i gael ei ddatblygu mewn rhai meysydd. Sylweddolaf hynny, ac yr wyf yn hyderus y bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor cyn gynted ag y bydd y wybodaeth honno ar gael. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ategaf argymhelliad y pwyllgor y dylid darparu cymaint o fanylion ag sy'n bosibl, yn y dyfodol, i gynorthwyo'r Aelodau i graffu, yn enwedig pan fydd Mesur o bosibl yn cyflwyno pwerau fframwaith mor eang.

Mae'r diffyg gwybodaeth cymharol yn peri pryder penodol o ran darparu cyngor a chymorth dan y cynllun, yn adran 7 ac 8 yn y Mesur arfaethedig. Mae'n hollbwysig i gleifion gael cyngor clir, hawdd ei gael er mwyn i'r cynllun gwneud iawn hwn lwyddo. Mae'r sefyllfaoedd lle y bydd rhywun yn ceisio iawn yn peri digon o straen, a rhaid rhoi gwybodaeth ddigonol i gleifion am y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Y Mesur hwn yw ein cyfle i sicrhau ein bod yn gwneud y peth iawn i gleifion yng Nghymru, a rhaid inni sicrhau bod y system a sefydlwn yn gweithio'n effeithiol. Felly, yr wyf yn dawel fy meddwl, ac edrychaf ymlaen at weld y Gweinidog yn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn â phryd y bydd cyngor a chymorth ar gael dan y cynllun, pwy fydd yn eu darparu, a sut y caiff y gwasanaethau hyn eu monitro i sicrhau dull cyson o weithredu.

Mae gweithdrefn gwneud iawn syml, hygyrch, y tu allan i'r llysoedd, sydd â'r nod o fynd i'r afael â chwynion cleifion ynglŷn â'r gwasanaeth iechyd gwladol yn gam anferth tuag at gryfhau hawliau cleifion. Gall gweithdrefnau'r llysoedd fod yn ddud ac yn fwgan, gan wneud i lawer o bobl deimlo'n gyndyn o geisio unioni pethau. Yr wyf yn

deals with building a better, more transparent NHS, and I hope that it will contribute to strengthening the public's confidence in our health services. I look forward to Stage 2.

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): I turn to the issue of the framework nature of the Measure, which was mentioned in the committee report, and by Jonathan Morgan and others in the Chamber. In an ideal situation, we might well have done this differently, in information terms. I take on board the point that Mike made that there are lessons to be learned from this process as we proceed with the development of legislation. However, there will be occasions when, for timing reasons, Ministers do not want to introduce legislation because policy is not completely finalised, but we have to do it as we just have to get on and do some things. In such instances, it is important to ensure that enough scrutiny time is available. We take those scrutiny issues into account, and I take on board the points that were made in discussion.

4.20 p.m.

Jonathan made a valid point about primary care, the inclusion of which in the Measure has been discussed in committee and elsewhere. I agree that more work will need to be done before the NHS redress element of new arrangements is extended to primary care. I know that there are concerns about that. Some people suggested that we remove the provisions about primary care from the Measure, but we decided not to. The committee has acceded that we will need to do more work on that before we implement it. It is an important point on the primary care agenda.

I am grateful for the contributions made, particularly by the Chair of the Finance Committee. I believe that the further work that I have done has been helpful, and additional work is yet to come. It is important to do our best with the financial figures that are available, and to be as accurate as possible in the financial information that we

falch mai'r Mesur cyntaf y mae'r Cynulliad yn edrych arno yw Mesur sy'n ymwneud ag adeiladu GIG gwell, mwy tryloyw, a gobeithiaf y bydd yn cyfrannu at gryfhau ymddiriedaeth y cyhoedd yn ein gwasanaethau iechyd. Edrychaf ymlaen at Gyfnod 2

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Dychwelaf at fater natur fframwaith y Mesur, a grybwyllwyd yn adroddiad y pwyllgor, a chan Jonathan Morgan ac eraill yn y Siambr. Mewn sefyllfa ddelfrydol, mae'n bosibl iawn y byddem wedi gwneud hyn yn wahanol, o ran gwybodaeth. Derbyniaf y pwynt a wnaeth Mike fod gwersi i'w dysgu yn sgîl y broses hon wrth inni fwrw ymlaen â datblygu deddfwriaeth. Fodd bynnag, ar brydiau, oherwydd yr amseru, er y byddai'n well gan Weinidogion beidio â chyflwyno deddfwriaeth oherwydd nad yw'r polisi'n gwbl gyflawn, rhaid inni wneud hynny gan fod rhai pethau y mae'n rhaid bwrw iddi a'u gwneud. Dan amgylchiadau o'r fath, mae'n bwysig sicrhau bod digon o amser ar gael i graffu. Yr ydym yn ystyried y materion craffu hynny, a rhoddaf sylw i'r pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth.

Gwnaeth Jonathan bwynt dilys am ofal sylfaenol ac mae cynnwys y maes hwn yn y Mesur wedi cael ei drafod yn y pwyllgor ac mewn manau eraill. Cytunaf y bydd angen gwneud rhagor o waith cyn ymestyn elfen gwneud iawn am gamweddau'r GIG yn y trefniadau newydd i faes gofal sylfaenol. Gwn fod pryderon ynghylch hynny. Awgrymodd rhai pobl y dylem ddileu'r darpariaethau ynglŷn â gofal sylfaenol o'r Mesur, ond penderfynasom beidio â gwneud hynny. Mae'r pwyllgor wedi derbyn y bydd angen inni weithio mwy ar hynny cyn inni ei roi ar waith. Mae'n bwynt pwysig yngylch yr agenda gofal sylfaenol.

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfraniadau, yn enwedig gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Credaf fod y gwaith ychwanegol yr wyf wedi'i wneud wedi bod o gymorth, a gwneir rhagor o waith eto. Mae'n bwysig gwneud ein gorau gyda'r ffigurau ariannol sydd ar gael, a bod mor gywir ag sy'n bosibl o ran y wybodaeth ariannol a roddwn i'r Aelodau.

give Members. I was taken by Helen Mary's point, because I have also taken the opportunity to look at what goes through Parliament, although those are not necessarily the best examples. However, there is sometimes a paucity of information in its documentation concerning financial matters. I am grateful for all the Finance Committee's comments.

I thank the Chair of the Subordinate Legislation Committee, Dr Dai Lloyd. I was grateful for the opportunity to attend that committee and to iron out some of the issues that it brought to my attention. Dr Lloyd is right about the committee's views about the superaffirmative procedure, and that issue will be considered when we move forward to the various stages. His pertinent comments on the reality of the situation regarding how matters are dealt with in the NHS bring home to me why we need this legislation.

Jenny Randerson said that I will not be here forever—and, given my cough today, I agree. However, Jenny is correct. This is one of the most complex pieces of legislation I have ever looked at, in how it has to be dealt with, implemented and so on. However, the point is that we know that the principle is correct. You talk about your constituents, and it is they who want this principle. Irene also alluded to that. Sometimes, all people want is an apology. In a transparent process, they would know that lessons had been learned and what impact those lessons had on the policies of trusts and health organisations. That is an important point.

Jenny also raised the issue of advice, as did Mike and Val. That is one area that I know the committee is concerned about. As Members will know, these issues are currently being examined by the legal advisers and advocacy and assistants working groups. I need the groups to do some more work on this issue. I will not prescribe anything in advance, because I have asked experts to look at this area. It is clear that legal advice should be available at key points in the process. It is important because patients need to feel confident that matters

Gwnaeth pwynt Helen Mary argraff arnaf oherwydd yr wyf finnau wedi manteisio ar y cyfle i edrych ar yr hyn sy'n mynd drwy'r Senedd yn Llundain, er nad y rheini o anghenraid yw'r enghreifftiau gorau. Fodd bynnag, weithiau, mae'r wybodaeth am faterion ariannol yn brin yn ei dogfennau. Yr wyf yn ddiolchgar am holl sylwadau'r Pwyllgor Cyllid.

Diolchaf i Gadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, Dr Dai Lloyd. Yr oeddwn yn ddiolchgar am y cyfle i fynd i'r pwyllgor i ddatrys rhai o'r materion y tynnwyd fy sylw atynt. Mae Dr Lloyd yn iawn am farn y pwyllgor ynglŷn â'r weithdrefn uwchgadarnhaol, ac ystyrir y mater hwnnw pan symudwn ymlaen i'r gwahanol gyfnodau. Mae ei sylwadau perthnasol am realiti'r sefyllfa o ran sut yr ymdrinnir â materion yn y GIG yn fy atgoffa pam mae angen y ddeddfwriaeth hon arnom.

Dyweddodd Jenny Randerson na fyddaf yma am byth—ac, o gofio'r peswch sydd gennyf heddiw, yr wyf yn cytuno. Fodd bynnag, mae Jenny'n iawn. Mae hyn yn un o'r darnau mwyaf cymhleth o ddeddfwriaeth yr wyf wedi edrych arnynt erioed, o ran sut y mae'n rhaid ymdrin ag ef, a'i roi ar waith ac yn y blaen. Fodd bynnag, y pwynt yw ein bod yn gwybod bod yr egwyddor yn gywir. Yr ydych yn sôn am eich etholwyr, a hwy sydd am gael yr egwyddor hon. Cyfeiriodd Irene hefyd at hynny. Weithiau, y cyfan y mae pobl yn dymuno'i gael yw ymddiheuriad. Mewn proses dryloyw, byddent yn gwybod bod gwersi wedi'u dysgu ac yn gwybod pa effaith a gafodd y gwersi hynny ar bolisiau ymddiriedolaethau a sefydliadau iechyd. Mae hynny'n bwynt pwysig.

Cododd Jenny y cwestiwn ynghylch cyngor hefyd, fel y gwnaeth Mike a Val. Mae hynny'n faes y gwn fod y pwyllgor yn poeni amdano. Fel y gŵyr yr Aelodau, mae'r materion hyn wrthi'n cael eu harchwilio gan weithgorau'r ymgynghorwyr, yr eiriolwyr a'r cynorthwywyr cyfreithiol. Mae arnaf eisiau i'r grwpiau wneud rhagor o waith ar y mater hwn. Ni phennaf ddim yn benodol ymlaen llaw, oherwydd yr wyf wedi gofyn i arbenigwyr edrych ar y maes hwn. Mae'n amlwg y dylai cyngor cyfreithiol fod ar gael ar adegau allweddol yn y broses. Mae'n

are being taken forward. As soon as the groups' recommendations come forward, I will share them.

I am cognisant of the point that you made, Mike, about the community health councils and their concerns. I meet with the councils regularly, and I know that this is one issue that they will want to discuss with me.

The other issue is that of withholding a report, which Helen Mary spoke about and is an important area. You would not expect reports to be withheld normally, but only under exceptional circumstances. A clinician should make the decision, not a non-clinician, but I am conscious of what you have both said on this issue, and I will give it more consideration. The concern is over whether the clinician who decides whether a report should be issued is independent. That is the important aspect if you are to be a complainant in the NHS.

Helen is also right that we do not live in an ideal world as regards how we deal with legislation. We want to take a principled approach, but that is not always possible in driving legislation through. So, I am grateful for your comments.

Irene, the staff point is a key area. Staff have to feel that they are well thought of in the system, because it is dreadful for them when a complaint is made against them. They feel fraught and they have their trade union professional representatives, but the important thing that I want to explore with the working groups and staff organisations is how to turn this into a good policy for them. They can feel secure about any new measures that are introduced, and that is an important aspect. Staff should welcome this, because it will mean a much simpler and quicker procedure for them than some of the long, drawn-out investigations that can take place.

Val made a point about scrutiny, and I appreciate that, with all the people giving evidence to committee and so on, there might have been a different way to get information,

bwysig oherwydd bod ar gleifion angen teimlo'n hyderus bod pethau'n mynd rhagddynt. Cyn gynted ag y caf argymhellion y grwpiau, fe'u rhannaf.

Deallaf y pwynt a wnaethoch, Mike, ynglŷn â'r cynghorau iechyd cymuned a'u pryderon. Byddaf yn cyfarfod â'r cynghorau'n rheolaidd, a gwn fod hyn yn fater y byddant am ei drafod gyda mi.

Y mater arall yw dal adroddiad yn ei ôl. Soniodd Helen Mary am hyn ac mae'n faes pwysig. Ni fyddech fel rheol yn disgwyl i adroddiadau gael eu dal yn ôl, dim ond dan amgylchiadau eithriadol. Clinigydd, yn hytrach na rhywun nad yw'n glinigydd, a ddylai benderfynu, ond yr wyf yn ymwybodol o'r hyn yr ydych eich dau wedi'i ddweud ynglŷn â hyn, ac fe'i hystyriaf ymhellach. Yr hyn sy'n destun pryder yw a yw'r clinigydd sy'n penderfynu a ddylid cyhoeddi adroddiad yn rhywun annibynnol. Hynny yw'r agwedd bwysig os ydych am gwyno i'r GIG.

Mae Helen yn iawn hefyd nad ydym yn byw mewn byd delfrydol o ran y ffordd yr ydym yn ymdrin â deddfwriaeth. Yr ydym am fynd ati mewn dull egwyddorol, ond nid yw hynny'n bosibl bob tro wrth fwrw ymlaen â deddfwriaeth. Felly, yr wyf yn ddiolchgar am eich sylwadau.

Irene, mae'r pwynt am staff yn faes allweddol. Rhaid i'r staff deimlo bod gan bobl feddwl ohonynt yn y system, oherwydd y mae'n beth ofnadwy iddynt pan wneir cwyn yn eu herbyn. Maent yn teimlo dan bwysau ac mae ganddynt eu cynrychiolwyr proffesiynol yn yr undeb llafur, ond y peth pwysicaf yr wyf am ei archwilio gyda'r gweithgorau a sefydliadau'r staff yw sut y mae troi hyn yn bolisi da iddynt hwy. Gallant deimlo'n dawel eu meddwl am unrhyw gamau newydd a gyflwynir, ac mae hynny'n agwedd bwysig. Dylai'r staff groesawu hyn, oherwydd bydd yn golygu gweithdrefn symlach a chyflymach o lawer iddynt na rhai o'r archwiliadau hirfaith a all ddigwydd.

Gwnaeth Val bwynt am graffu, a sylweddolaf, gyda'r holl bobl yn rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor ac yn y blaen, y gellid bod wedi cael gwybodaeth mewn ffordd

in order to do it better. If I am responsible for legislation in the future, I will take a number of lessons from the discussions that took place on the NHS Redress Measure.

I generally welcome today's discussion and the way in which we have gone through the committee's report, and, hopefully, we can now proceed to the next stage. It is an exciting piece of legislation, and the important thing is that it will give justice to people in Wales. That should always be our aim in the National Assembly.

Y Llywydd: Gan nad oes neb wedi mynegi gwrthwynebiad i ystyr y cynnig, yr wyf yn datgan, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, fod egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig wedi'u cytuno.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer

Y Llywydd: Dyma'r tro cyntaf inni ddefnyddio ein hawl i ddeddfu o dan Ran 3 o'n cyfansoddiad, ac efallai ei bod yn briodol imi wneud datganiad byr am y camau nesaf.

Bydd y cyfnod nesaf, sef Cyfnod 2, ystyriaeth fanwl y pwyllgor o dan Reol Sefydlog Rhif 23, yn cychwyn bore yfory, sef y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r egwyddorion cyffredinol gael eu cytuno. Ar ddechrau Cyfnod 2, caniateir i welliannau gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod o yfory ymlaen. Yr wyf wedi cwblhau fy mhenderfyniad ynglŷn â'r ffurf briodol o gyflwyno gwelliannau ar gyfer Mesurau arfaethedig, ac fe anfonaf y rheini'n electronig at yr Aelodau ar fyrder. Bydd cyfle i gyflwyno'r gwelliannau wedyn drwy'r Swyddfa Ddeddfu, a bydd y broses hon yn weithredol o heddiw. Mae'n rhoi pleser digymysg imi ddatgan bod y broses ddeddfu yn y Cynulliad hwn yn gweithio.

wahanol, er mwyn gwneud pethau'n well. Os wyf yn gyfrifol am ddeddfwriaeth yn y dyfodol, byddaf wedi dysgu nifer o wersi yn sgîl y trafodaethau ynglŷn â'r Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG.

Yr wyf yn croesawu'r drafodaeth heddiw'n gyffredinol, a'r ffordd yr ydym wedi mynd drwy adroddiad y pwyllgor, a gobeithio y gallwn bellach fynd ymlaen i'r cyfnod nesaf. Mae'n ddarn cyffrous o ddeddfwriaeth, a'r peth pwysig yw y bydd yn rhoi cyfiawnder i bobl Cymru. Dyna a ddylai fod yn nod inni bob amser yn y Cynulliad Cenedlaethol.

The Presiding Officer: Given that no-one has expressed any opposition to the motion, I declare that, in accordance with Standing Order No. 7.35, the general principles of the proposed Measure are agreed.

The Presiding Officer: This is the first time that we have used our right to legislate under Part 3 of our constitution, and so it might be appropriate for me to make a brief statement on the next steps.

The next stage, namely Stage 2, detailed consideration by committee under Standing Order No. 23, will begin tomorrow morning, namely the first working day after the general principles have been agreed. At the beginning of Stage 2, amendments are permitted to be tabled by any Member from tomorrow. I have completed my determination on the appropriate form of tabling amendments to proposed Measures, and I will send those electronically to Members urgently. There will then be an opportunity to table amendments through the Legislation Office, and that process will be in operation from today. It gives me unqualified pleasure to declare that the legislative process in the Assembly is working.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.27 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.27 p.m.*

Setliad Llywodraeth Leol The Local Government Settlement

The Deputy Presiding Officer: In accordance with Standing Order No. 7.19(iii) I have not selected the amendments to the motion.

Y Dirprwy Lywydd: Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.19(iii), nid wyf wedi dethol y gwelliannau i'r cynnig.

The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons): I propose that

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons): Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales, in accordance with section 84H of the Local Government Finance Act 1988:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988:

approves the Local Government Finance Report (No. 1) 2008-2009 (Final Settlement—Councils) laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on Tuesday 22 January. (NDM3848)

yn cymeradwyo'r Local Government Finance Report (No. 1) 2008-2009 (Final Settlement—Councils) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth 22 Ionawr 2008. (NDM3848)

I welcome the opportunity to present the first local government revenue settlement of this third Assembly. This first settlement sets out the funding allocations for a three-year period. Our partners in local government have been asking for this for some time, and they have been actively involved in working up this framework.

Croesawaf y cyfle i gyflwyno setliad refeniw cyntaf y trydydd Cynulliad ar gyfer llywodraeth leol. Mae'r setliad cyntaf hwn yn nodi'r dyraniadau cyllid ar gyfer cyfnod o dair blynedd. Mae ein partneriaid mewn llywodraeth leol wedi bod yn gofyn am hyn ers tro, ac maent wedi bod yn ymwneud yn frwd â pharatoi'r fframwaith hwn.

I am making £3.81 billion available in unencumbered revenue support for local government in 2008-09, which is an increase of £91 million, or 2.45 per cent on the comparable figure for the current year, 2007-08. For 2009-10, the level of unencumbered funding increases by a further £95 million, which is an increase of 2.5 per cent on 2008-09. For 2010-11, the level of support will exceed £4 billion, with an increase on 2009-10 of £112 million, or 2.8 per cent after transfers. Over the three-year settlement period, this gives an overall increase in revenue support of £298 million in cash terms, which is an increase of 8 per cent.

Byddaf yn darparu £3.81 biliwn ar ffurf cymorth refeniw heb ei neilltuo ar gyfer llywodraeth leol yn 2008-09, sy'n gynydd o £91 miliwn, neu 2.45 y cant o'i gymharu â'r ffigur cyfatebol eleni, 2007-08. Ar gyfer 2009-10, bydd yr arian heb ei neilltuo'n cynyddu £95 miliwn eto, sy'n gynydd o 2.5 y cant o'i gymharu â 2008-09. Ar gyfer 2010-11, bydd y cymorth yn fwy na £4 biliwn, sy'n £112 miliwn yn fwy nag yn 2009-10, neu'n 2.8 y cant ar ôl y trosglwyddiadau. Dros gyfnod y setliad tair blynedd, mae hyn yn golygu cynnydd drwyddi draw, o ran arian, o £298 miliwn yn y cymorth refeniw, sef cynnydd o 8 y cant.

Since the publication of the draft settlement last November, I have given careful consideration to representations made to me by local government in correspondence through the partnership council and in face-to-face meetings with representatives of individual local authorities. A consistent message that came through that consultation process was a call for a funding floor to be put in place to ensure a minimum, year-on-year increase of 1.5 per cent for all authorities.

I fully understand the concerns of those authorities, particularly Powys, Anglesey and Conwy, whose provisional settlement increases fell below that level. I have responded positively to those concerns. I am therefore making an additional £4.7 million available for 2008-09 only, to ensure that all local authorities receive a minimum increase of 2 per cent. This additional funding will assist six local authorities in their budget planning and council tax setting for the forthcoming year.

4.30 p.m.

Unhypothecated revenue does not tell the full story. The overall settlement package also includes specific revenue grants totalling £642 million. This is an increase of some 9 per cent on the comparable figure for 2007-08. When the unhypothecated revenue support grant and the specific grants are taken together, the increase in the settlement is 3.3 per cent, in line with the overall Government budget increase for 2008-09 of 3.4 per cent, or 0.7 per cent in real terms. That demonstrates our continuing recognition of the key role that local government plays in delivering public services and the 'One Wales' agreement priorities, and lays to rest any accusations that the Welsh Assembly Government is short-changing local government within the overall context of the comprehensive spending review settlement.

During the consultation process, local government stated its wish for a further reduction in the level of funding provided via

Ers cyhoeddi'r setliad drafft fis Tachwedd diwethaf, yr wyf wedi ystyried yn ofalus y sylwadau a gefais gan lywodraeth leol mewn gohebiaeth drwy gyfrwng y cyngor partneriaeth ac mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb â chynrychiolwyr awdurdodau lleol unigol. Neges gyson a ddaeth drwy'r broses ymgynghori honno oedd cais am sefydlu terfyn isaf yn ariannol er mwyn sicrhau isafswm cynnydd o 1.5 y cant i bob awdurdod, o flwyddyn i flwyddyn.

Deallaf yn llwyr bryderon yr awdurdodau hynny, yn enwedig Powys, Ynys Môn a Chonwy, yr oedd y cynnydd yn eu setliad dros dro'n is na'r lefel honno. Yr wyf wedi ymateb yn gadarnhaol i'r pryderon hynny. Felly yr wyf yn darparu £4.7 miliwn yn ychwanegol ar gyfer 2008-09 yn unig, er mwyn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cael isafswm cynnydd o 2 y cant. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cynorthwyo chwech o awdurdodau lleol i gynllunio'u cyllideb a gosod eu treth gyngor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Nid yw refeniw heb ei neilltuo'n dweud y stori'n llawn. Mae pecyn y setliad yn gyfan gwbl yn cynnwys cyfanswm o £642 miliwn o grantiau refeniw penodol hefyd. Mae hyn yn gynydd o ryw 9 y cant o'i gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer 2007-08. O roi'r grant cynnal refeniw heb ei neilltuo a'r grantiau penodol gyda'i gilydd, mae'r cynnydd yn y setliad yn 3.3 y cant, yn unol â'r cynnydd o 3.4 y cant yng nghyllideb gyffredinol y Llywodraeth ar gyfer 2008-09, neu 0.7 y cant mewn termau real. Mae hynny'n dangos ein bod yn parhau i gydnabod y rôl allweddol y mae llywodraeth leol yn ei chwarae o ran cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a blaenoriaethau cytundeb 'Cymru'n Un', ac yn rhoi taw ar unrhyw gyhuddiadau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi bargaen wael i lywodraeth leol o fewn cyd-destun cyffredinol setliad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.

Yn ystod y broses ymgynghori, dywedodd llywodraeth leol ei bod yn dymuno gweld lleihad pellach yn lefel yr arian a ddarperir

hypothecated grants. However, specific grants have an important role in giving an early impetus and focus to particular initiatives. Moves to remove ring-fencing are often opposed by specific sectors within local government itself and by certain service users. The additional ring-fenced money in this settlement is for waste management, the foundation phase, post-16 education and concessionary travel fares. That reflects the key priorities of the priorities of the Welsh Local Government Association and the 'One Wales' Government. That said, I understand local government's call for greater discretion. I will work to ensure that the rationale for continuing with specific grant arrangements is regularly reviewed, and that ring-fenced funding arrangements are removed and money moved into the unhypothecated settlement whenever appropriate.

At present four specific grant streams are being phased into the revenue support grant. A number of other grants are already scheduled to be absorbed into the revenue support grant during the forthcoming three-year settlement.

The provisional settlement consultation produced a number of representations about the potential withdrawal of the deprivation grant and the performance improvement grant, which are fixed-term grants outside of the revenue support grant. Like many other grants, they are subject to scrutiny by the Assembly Government from time to time in preparation for the total budget settlement and within the context of the tough comprehensive spending review outcome. I am pleased to confirm that these grants have been secured. Together, they will be worth an additional £53 million per annum to local government.

The deprivation grant will continue to be a major help in ensuring effective service provision in those local authorities where deprivation is a key driver in effective service delivery, and also in protecting council tax payers in those areas.

The performance incentive grant has helped to drive more effective, efficient and

drwy grantiau wedi'u neilltuo. Fodd bynnag, mae gan grantiau penodol rôl bwysig o ran rhoi hwb a ffocws cynnar i fentrau penodol. Yn aml gwrthwynebir symudiadau i ddileu neilltuo gan sectorau penodol o fewn llywodraeth leol ei hun a chan rai defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r arian ychwanegol sydd wedi'i neilltuo yn y setliad hwn wedi'i neilltuo ar gyfer rheoli gwastraff, y cyfnod sylfaen, addysg ôl-16 a thocynnau teithio rhad. Mae hynny'n adlewyrchu blaenoriaethau allweddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth 'Cymru'n Un'. Wedi dweud hynny, yr wyf yn deall galwad llywodraeth leol am fwy o ddisgresiwn. Gweithiaf i sicrhau yr adolygir y rhesymau dros barhau gyda threfniadau grantiau penodol yn rheolaidd, ac y dilëir trefniadau cyllid wedi'i neilltuo a symud arian i'r setliad heb ei neilltuo pryd bynnag y bydd hynny'n briodol.

Ar hyn o bryd mae pedair o ffrydiau grant penodol yn cael eu cyfuno'n raddol â'r grant cynnal refeniw. Mae trefniadau eisoes i gynnwys nifer o grantiau eraill yn y grant cynnal refeniw yn ystod y setliad tair blynedd sydd i ddod.

Yn yr ymgynghori ar y setliad dros dro cafwyd nifer o sylwadau am y posibilrwydd o dynnu'n ôl y grant amddifadedd a'r grant gwella perfformiad, sy'n grantiau cyfnod penodol y tu allan i'r grant cynnal refeniw. Fel llawer o grantiau eraill, maent yn destun craffu gan Lywodraeth y Cynulliad o bryd i'w gilydd wrth baratoi ar gyfer setliad y gyllideb lawn ac o fewn cyd-destun canlyniad dyrys yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Yr wyf yn falch o gadarnhau bod y grantiau hyn wedi'u sicrhau. Gyda'i gilydd, byddant yn werth £53 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol i lywodraeth leol.

Bydd y grant amddifadedd yn parhau'n help mawr i sicrhau darparu gwasanaeth yn effeithiol yn yr awdurdodau lleol hynny lle y mae amddifadedd yn elfen allweddol o ran darparu gwasanaethau'n effeithiol, a hefyd i warchod talwyr y dreth gyngor yn yr ardaloedd hynny.

Mae'r grant cymell perfformiad wedi helpu i sbarduno gwasanaethau mwy effeithiol,

responsive services for the people of Wales. However, we are modernising the grant scheme and replacing the performance incentive grant with new arrangements in the form of the improvement agreement grant, which will be supported with the same level of funding. The improvement agreement grants will be more sensitive to the performance of individual local authorities and will include mechanisms to drive improvement in areas of weak performance. We will combine this with work on developing a small number of minimum standards that citizens have a right to expect in key local government service areas where there currently is a large variation in performance across Wales. The Minister for Finance and Public Service Delivery and I will work closely with the Welsh Local Government Association on developing the improvement agenda as part of our key business for the next year. This work is vital if we are to secure the efficient delivery of high-quality services to meet the challenges of the new financial realities that we face. I am looking forward to working with local government to build on what we have already achieved.

I said in my financial settlement announcement that I would not expect to see increases of over 5 per cent in council tax in the coming budgetary round. The past three financial years have seen the lowest council tax increases since devolution and the average levels of council tax in Wales remain consistently low, and around 20 per cent below the levels in England, due to the higher proportion of support that the Welsh Assembly Government gives to local government. I trust that local government will continue in its customary responsible approach to budgeting. I will monitor carefully the progress that local authorities are making in setting their budgets over the coming weeks. If I think that any authority is proposing to budget excessively, I will consider using my capping powers, but I sincerely hope that this will not be necessary.

In his budget speech last week, the Minister for Finance and Public Service Delivery emphasised the fact that this has been a budget round of tough choices. The comprehensive spending review has resulted

effeithlon ac ymatebol i bobl Cymru. Fodd bynnag, yr ydym yn moderneiddio'r cynllun grantiau ac yn sefydlu trefniadau newydd yn lle'r grant cymell perfformiad, sef y grant cytundeb gwella, a gefnogir â'r un lefel o arian. Bydd y grantiau cytundeb gwella'n fwy sensitif i berfformiad awdurdodau lleol unigol ac yn cynnwys mecanweithiau i sbarduno gwelliant mewn meysydd lle y mae'r perfformiad yn wan. Byddwn yn cyfuno hyn â gwaith ar ddatblygu nifer fach o safonau gofynnol y bydd gan ddinasyddion hawl i'w disgwyl ym meysydd gwasanaeth allweddol llywodraeth leol lle y mae amrywiaeth fawr ar hyn o bryd mewn perfformiad ar draws Cymru. Bydd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a mi'n gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ddatblygu'r agenda gwella fel rhan o'n busnes allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r gwaith hwn yn hollbwysig os ydym am sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu cyflwyno i ateb her y sefyllfa ariannol newydd sy'n ein hwynebu. Yr wyf yn edrych ymlaen at weithio gyda llywodraeth leol i adeiladu ar yr hyn yr ydym eisoes wedi'i gyflawni.

Dywedais yn fy nghyhoeddiad ar y setliad ariannol na fyddwn yn disgwyl gweld cynnydd o fwy na 5 y cant yn y dreth gyngor yn y cylch cyllideb nesaf. Mae'r tair blynedd ariannol diwethaf wedi gweld y cynnydd isaf yn y dreth gyngor ers datganoli ac mae lefelau cyfartalog y dreth gyngor yng Nghymru'n parhau'n gyson isel, a thua 20 y cant yn is na'r lefelau yn Lloegr, oherwydd y gyfran uwch o gymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei roi i lywodraeth leol. Hyderaf y gwnaiff llywodraeth leol barhau â'i hagwedd gyfrifol arferol at lunio cyllideb. Byddaf yn monitro'n ofalus y cynnydd y mae awdurdodau lleol yn ei wneud o ran gosod eu cyllidebau yn ystod yr wythnosau nesaf. Os tybiaf fod unrhyw awdurdod yn bwriadu llunio cyllideb ormodol, ystyriaf ddefnyddio fy mhwerau capio, ond fy ngobaith diffuant yw na fydd hyn yn angenrheidiol.

Yn ei araith ar y gyllideb yr wythnos diwethaf, pwysleisiodd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus fod hwn wedi bod yn gylch cyllideb o ddewisiadau anodd. Mae'r

in significantly lower levels of public expenditure growth than we have been used to over recent years. The local government settlement package that I am presenting therefore reflects this more constrained public services funding environment. We cannot spend what we do not have. I have always acknowledged that this is a challenging settlement for local government, but, in the context of the general financial outlook, it is a fair and reasonable settlement that will enable local government to sustain efficient services for citizens and generate further improvement.

Nick Ramsay: I am pleased to be able to contribute to this important debate. Today, we have reached the end of the long road that we have travelled over recent months, during which we have had many debates and discussions, not only on the local government settlement, but on the other aspects of funding that various services will receive in this year and coming years. During that debate, we have thrashed out many reasons why we felt that local government should receive a much higher share of the budget.

I thank the Minister for involving me in meetings and in the Chamber in his thinking about where we were going. I am also pleased that he consulted the WLGA, but I do not think that he has taken on board my concerns or those of the WLGA, which only recently described the Assembly's final budget as 'tinkering at the edges'. We welcome the extra funding and the fact that Conwy, Powys and similar authorities will not receive as low an increase in their revenue settlement grant as they were initially going to receive. However, let us be frank; it was unbelievable that Powys and Conwy ever faced increases of 1 per cent. The rise to 2 per cent for those authorities is a marked increase, but it is still far short of what they will need to provide statutory services and to meet the responsibilities placed upon them.

We are looking at an RSG increase of 2.4 per cent. I hear what the Minister says about that

adolygiad o wariant cynhwysfawr wedi arwain at lefelau sylweddol is o dwf mewn gwariant cyhoeddus nag yr ydym wedi arfer â hwy yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r pecyn y setliad i lywodraeth leol yr wyf yn ei gyflwyno, felly, yn adlewyrchu'r amgylchedd mwy cyfyngedig hwn o ran ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Ni allwn wario'r hyn nad yw gennym. Yr wyf bob amser wedi cydnabod bod hwn yn setliad anodd i lywodraeth leol, ond, yng nghyd-destun y rhagolygon ariannol cyffredinol, mae'n setliad teg a rhesymol a fydd yn galluogi llywodraeth leol i gynnal gwasanaethau effeithlon i ddinasyddion a hybu gwelliant pellach.

Nick Ramsay: Yr wyf yn falch o allu cyfrannu at y ddadl bwysig hon. Heddiw, yr ydym wedi cyrraedd pen y daith hir yr ydym wedi bod arni yn ystod y misoedd diwethaf, gan gynnal sawl dadl a thrafodaeth, nid yn unig ar y setliad i lywodraeth leol, ond ar yr agweddau eraill ar y cyllid y bydd amryfal wasanaethau'n ei gael yn y flwyddyn hon a blynyddoedd i ddod. Yn ystod y ddadl honno, yr ydym wedi gwyntyllu sawl rheswm pam y teimlem y dylai llywodraeth leol gael cyfran lawer uwch o'r gyllideb.

Diolchaf i'r Gweinidog am fy nghynnwys mewn cyfarfodydd ac yn y Siambr o ran yr hyn yr oedd yn ei feddwl ynghylch i ble'r oeddem yn mynd. Yr wyf yn falch hefyd ei fod wedi ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ond nid wyf yn meddwl ei fod wedi derbyn fy mhryderon na phryderon y gymdeithas, a ddisgrifiodd gyllideb derfynol y Cynulliad yn ddiweddar fel 'chwarae o gwmpas y cyrion'. Croesawn y cyllid ychwanegol a'r ffaith na fydd Conwy, Powys ac awdurdodau tebyg yn cael cynnydd mor isel yn eu grant setliad refeniw ag yr oeddent yn mynd i'w gael yn wreiddiol. Fodd bynnag, gadewch inni siarad yn blaen; yr oedd yn anhygoel bod Powys a Chonwy'n wynebu cynnydd o 1 y cant. Mae'r codiad i 2 y cant i'r awdurdodau hynny'n gynnydd sylweddol, ond mae'n dal yn llai o lawer na'r hyn y bydd arnynt ei angen i ddarparu gwasanaethau statudol ac i gyflawni'r cyfrifoldebau a osodir arnynt.

Yr ydym yn edrych ar gynnydd o 2.4 y cant yn y grant setliad refeniw. Clywaf yr hyn a

being 3.3 per cent if you include all of the other elements. However, you know as well as I do that the key figure is the RSG, and it has not increased in line with inflation as it should have. Listening to the Minister, I am reminded of what the Minister for Finance and Public Service Delivery said in last week's debate about what local government is receiving being equitable, given the overall amount from Westminster and given what authorities across the border are receiving. I take issue with both of those assertions. The fact remains that the Assembly budget has almost doubled over the past decade, while the increase on the local government side is far smaller. I do not think that he has provided an answer to that. As for the argument that our local authorities receive far better funding than authorities over the border, I can provide him with a list of 10 authorities across the border that receive more per head of population. Therefore, I look forward to the Minister answering some of those points.

Look at what local authorities are being expected to deliver: provisions in the Childcare Act 2006 and the Climate Change and Sustainable Energy Act 2006, rights of way improvement plans, and flood defences. Local authorities must deal with these issues over the coming years, but the money is not being provided to enable them to do that. Yes, more money has been made available, and I am not going to be a total killjoy; we are pleased about that and the fact that local authorities are not going to receive the dismal settlement originally proposed. Let us be realistic, and let us listen to the WLGA.

4.40 p.m.

On your point about council tax, we welcome, as does the council tax payer I am sure, the fact that we will not see huge increases, as was first feared. However, if you are going to cap council tax increases you must accept that it is almost like a deadly game of dominoes, because the need for capping is as the result of the settlement that you gave to local authorities in the first place.

ddywed y Gweinidog sef bod hynny'n 3.3 y cant os cynhwyswch yr holl elfennau eraill. Fodd bynnag, gwyddoch cystal â minnau mai'r grant setliad refeniw yw'r ffigur allweddol, ac nid yw hwnnw wedi cynyddu'n unol â chwyddiant fel y dylasai. O wrando ar y Gweinidog, caf fy atgoffa o'r hyn a ddywedodd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn y ddadl yr wythnos diwethaf, sef bod yr hyn y mae llywodraeth leol yn ei gael yn deg, o ystyried y swm yn gyfan gwbl gan San Steffan ac o gofio'r hyn y mae awdurdodau dros y ffin yn ei gael. Yr wyf yn anghytuno â'r ddau haeriad hynny. Y gwir yw bod cyllideb y Cynulliad bron wedi dyblu dros y degawd diwethaf, tra mae'r cynnydd i lywodraeth leol yn llai o lawer. Nid wyf yn meddwl ei fod wedi rhoi ateb i hynny. O ran y ddadl bod ein hawdurdodau lleol ni'n cael cyllid llawer gwell nag awdurdodau dros y ffin, gallaf roi rhestr o 10 awdurdod iddo dros y ffin sy'n cael mwy fesul pen o'r boblogaeth. Felly, edrychaf ymlaen at gael ateb gan y Gweinidog ar rai o'r pwyntiau hynny.

Edrychwch ar yr hyn y disgwylir i awdurdodau lleol ei gyflawni: darpariaethau yn Neddf Gofal Plant 2006 a Deddf Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006, cynlluniau gwella hawliau tramwy, a mesurau amddiffyn rhag llifogydd. Rhaid i awdurdodau lleol ddelio â'r materion hyn yn y blynyddoedd a ddaw, ond nid yw'r arian yn cael ei ddarparu i'w galluogi i wneud hynny. Oes, mae mwy o arian ar gael, ac nid wyf am fod yn surbwch llwyr; yr ydym yn hapus ynghylch hynny a'r ffaith nad yw awdurdodau lleol yn mynd i gael y setliad truenus a gynigiwyd yn wreiddiol. Gadewch inni fod yn realistig, a gadewch inni wrando ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Ynglŷn â'ch pwynt ynghylch y dreth gyngor, croesawn, fel y gwna'r trethdalwr mae'n siŵr, y ffaith na welwn gynnydd anferth, fel yr ofnid ar y dechrau. Fodd bynnag, os ydych yn mynd i gapio cynnydd yn y dreth gyngor rhaid ichi dderbyn ei fod bron fel gêm ddominos farwol, oherwydd y mae'r angen i gapio'n ganlyniad i'r setliad a roesoch i awdurdodau lleol yn y lle cyntaf. Gadewch

Let us make no bones about that. I have probably been incorrect when I said during the last few debates on this issue that local authorities in Wales will have to choose between how much they give to local services, and what they do with council tax. It is clear to me now that you are saying to local authorities that the axe will have to fall squarely on local services. I cannot see how that can be avoided if you are telling authorities that they can only spend a certain amount, and no more.

Let us be realistic about this. Yes, we can bandy figures about, and it is interesting to see in the finance report the amount that the Assembly Government has given to support local authorities that are carrying heavy amounts of debt. Such measures are necessary up to a point, but let us make sure that the replacement for the performance incentive grant, the new improvement agreement grant, delivers not only what the performance incentive grant delivered, but more support for efficient councils, and that it rewards efficient councils rather than inefficient ones.

Jenny Randerson: Despite the new increase, the local government settlement is woefully below what is needed for local authorities to deliver services effectively without having to resort to excessive increases in council tax or cutting some basic services. The Welsh Liberal Democrats are glad that additional money was found to help the five local authorities that received less than a 2 per cent increase in the draft settlement. The average increase for local authorities is now 2.4 per cent. Inflation, by the Government's measure, stands at 2.7 per cent. If you look at the spread of figures throughout the local authorities, most are receiving increases below the level of inflation. It is important to bear in mind that despite the pleasure at the fact that a 2 per cent floor has been set, that floor is still well below inflation. Local authorities will tell you that, because they rely so much on labour and have to pay so many wages, their own level of inflation is higher than 2.7 per cent. The chief executive of Newport City Council has written to my colleague, Mike German, to say that he

inni ddweud hynny heb flewyn ar dafod. Mae'n debyg fy mod wedi bod yn anghywir pan ddywedais yn ystod y dadleuon yn ddiweddar ar y mater hwn y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ddewis rhwng faint a roddant i wasanaethau lleol, a'r hyn a wnânt â'r dreth gyngor. Mae'n amlwg i mi'n awr eich bod yn dweud wrth awdurdodau lleol y bydd yn rhaid i'r fwyell ddisgyn yn union ar wasanaethau lleol. Ni allaf weld sut y gellir osgoi hynny os ydych yn dweud wrth awdurdodau mai dim ond hyn a hyn y cânt ei wario, a dim mwy.

Gadewch inni fod yn realistig ynglŷn â hyn. Gallwn, gallwn daflu ffigurau o gwmpas, ac mae'n ddiddorol gweld yn yr adroddiad cyllid y swm y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i roi i gynorthwyo awdurdodau lleol sydd â dyledion mawr. Mae mesurau o'r fath yn angenrheidiol i ryw raddau, ond gadewch inni wneud yn siŵr y bydd y grant cytundeb gwella newydd, sy'n disodli'r grant cymell perfformiad, yn cyflawni nid yn unig yr hyn yr oedd y grant cymell perfformiad yn ei gyflawni, ond yn ogystal yn rhoi mwy o gymorth i gynghorau effeithlon, ac yn gwobrwo cynghorau effeithlon yn hytrach na rhai aneffeithlon.

Jenny Randerson: Er gwaethaf y cynnydd newydd, mae'r setliad i lywodraeth leol yn is o lawer na'r hyn y mae ei angen er mwyn i awdurdodau lleol gyflenwi gwasanaethau'n effeithlon heb orfod cynyddu'r dreth gyngor yn ormodol na thorri rhai gwasanaethau sylfaenol. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n falch bod arian ychwanegol wedi'i ganfod i helpu'r pum awdurdod lleol a gafodd lai na 2 y cant o gynnydd yn y setliad drafft. Mae'r cynnydd ar gyfartaledd i awdurdodau lleol bellach yn 2.4 y cant. Mae chwyddiant, yn ôl mesur y Llywodraeth, yn 2.7 y cant. Os edrychwch ar yr amrywiaeth o ffigurau drwy'r awdurdodau lleol, mae'r rhan fwyaf yn cael cynnydd is na lefel chwyddiant. Mae'n bwysig cofio, er gwaethaf y balchder bod terfyn isaf o 2 y cant wedi'i osod, fod y terfyn isaf hwnnw'n dal gryn dipyn yn is na chwyddiant. Dywed awdurdodau lleol wrthyech, am eu bod yn dibynnu cymaint ar lafur ac yn gorfod talu cymaint o gyflogau, fod eu lefel chwyddiant hwy eu hunain yn uwch na 2.7 y cant. Mae prif weithredwr Cyngor Dinas Casnewydd

estimates that his inflation rate is 3.5 per cent a year. I see no reason why Newport should be different from Anglesey, for example, in that respect.

The other worrying issue about the settlement is that the additional £4.7 million is not all that it is cracked up to be: £2.5 million of it comes from within the local government and social justice portfolio, so it is a matter of robbing Peter to pay Paul. The remaining £2.2 million comes from reserves. While that may sound like good news, the Minister for local government will apparently have to pay it back to the Minister for finance—he has had a loan, but no more.

It is worth taking a moment to consider how the Minister managed to create the 2 per cent floor. It would appear that, first, a calculation was done to assess how much it would cost to bring local authorities up to 2 per cent in aggregate external finance, and then the £4.7 million was added and it was recalculated. According to an answer that I received to a research question that I submitted, the results were then studied and adjusted to ensure that no local authorities received less than a 2 per cent increase. That is the key issue. It seems obvious from that answer that £4.7 million was not what was needed to bring local authorities up to the floor, but that that was all that the Minister had available or that he could manage to borrow. As a result, money was taken from other areas to ensure that a 2.2 per cent increase was achieved for authorities with the lowest increases. The Finance Committee expressed a specific wish that the floor should not be achieved in that way and that money should not be taken from those who had had a slightly better settlement to help those at the bottom.

It is also clear from the details in the Minister's statement that £1.1 million of the extra £4.7 million is for childcare, and that £326,000 is for stray dogs—responsibilities that the Minister had an obligation to fund in the first place. Therefore, the £4.7 million is not really an extra £4.7 million—it is £3.25 million.

wedi ysgrifennu at fy nghyd-Aelod, Mike German, i ddweud ei fod yn amcangyfrif bod ei gyfradd chwyddiant yn 3.5 y cant y flwyddyn. Ni welaf ddim rheswm pam y dylai Casnewydd fod yn wahanol i Ynys Môn, er enghraifft, yn hynny o beth.

Y peth arall sy'n poeni rhywun ynglŷn â'r setliad yw nad yw'r £4.7 miliwn ychwanegol yr hyn yr honnir ei fod: daw £2.5 miliwn ohono allan o bortffolio llywodraeth leol a chyfiawnder cymdeithasol, felly mater o ddwyn oddi ar y naill law i dalu i'r llall ydyw. Daw'r £2.2 miliwn sy'n weddill o'r cronfeydd wrth gefn. Efallai fod hynny'n swnio'n newyddion da, ond mae'n debyg y bydd yn rhaid i'r Gweinidog dros lywodraeth leol dalu'r arian yn ôl i'r Gweinidog Cyllid—mae wedi cael benthyciad, ond dyna'r cwbl.

Mae'n werth ystyried am funud sut y llwyddodd y Gweinidog i greu'r terfyn isaf o 2 y cant. Ymddengys fod cyfrifo wedi bod, yn gyntaf, i asesu faint y byddai'n ei gostio i godi awdurdodau lleol hyd at 2 y cant mewn cyllid allanol cyfun, ac wedyn ychwanegwyd y £4.7 miliwn a'i ailgyfrifo. Yn ôl ateb a gefais i gwestiwn ymchwil a gyflwynais, astudiwyd y canlyniadau wedyn a'u haddasu i sicrhau na châi dim un awdurdod lleol lai na 2 y cant o gynnydd. Dyna'r pwynt allweddol. Mae'n ymddangos yn amlwg yn ôl yr ateb hwnnw nad £4.7 miliwn oedd y swm yr oedd ei angen i godi awdurdodau lleol hyd at y terfyn isaf, ond mai dyna'r cwbl a oedd gan y Gweinidog wrth law neu y gallai ei fenthyca. O ganlyniad, tynnwyd arian o feysydd eraill i sicrhau y ceid cynnydd o 2.2 y cant i awdurdodau a oedd yn cael y cynnydd lleiaf. Mynegodd y Pwyllgor Cyllid ddymuniad penodol na ddylid cyrraedd y terfyn isaf yn y modd hwnnw ac na ddylid tynnu arian oddi ar y rhai a oedd wedi cael setliad ychydig yn well i helpu'r rhai ar y gwaelod.

Mae'n amlwg hefyd yn ôl y manylion yn natganiad y Gweinidog fod £1.1 miliwn o'r £4.7 miliwn ychwanegol ar gyfer gofal plant, a bod £326,000 ar gyfer cŵn crwydr—cyfrifoldebau yr oedd gan y Gweinidog rwymedigaeth i'w hariannu yn y lle cyntaf. Felly, nid yw'r £4.7 miliwn yn £4.7 miliwn ychwanegol mewn gwirionedd—£3.25 miliwn ydyw.

This is not semantics; this is all about the trust of local authorities. Councillors were pleased to hear that that extra money was being provided, but, when they looked beyond the spin, at the small print, they found that it was not what it was being cracked up to be by the Welsh Assembly Government. Gradually, local government's trust in the coalition Government is being eroded, because it over-spins and it overstates, and it is not straight with local authorities.

This is not the first time that the local government settlement has been so poor. Since the Assembly was introduced, the Assembly's budget has increased from £7 billion to over £14 billion a year. Therefore, while our budget has jumped by more than 100 per cent, local authorities' budgets have increased by less than 50 per cent. Local authorities have a Hobson's choice, as Steve Thomas of the Welsh Local Government Association put it—they have to put up council tax or cut services. When asked in the Finance Committee, the Minister for finance admitted that he had no further plans to enable local authorities to ensure that they could make further savings.

Alun Davies: Sometimes, when we discuss these issues in the Chamber, I get the impression that we are discussing two entirely different budgets and two entirely different settlements: one which is read in some places and another which is read elsewhere.

In overall terms, I welcome the settlement at last. The 2 per cent floor that has been announced since Christmas is something that I, as someone who represents half of Gwynedd and the whole of Powys, will welcome. I do welcome it, and I hope that we will continue to invest in local government, to ensure that local government leaders are able to deliver the services that we need. Indeed, given the overall financial and economic context in which we operate today, the 52 per cent increase in funding since 1999 is impressive. It is an impressive increase in support for local government and local services, and I would prefer to see the whole Chamber united on that. It is particularly impressive when compared with the 7 per

Nid chwarae â geiriau yw hyn; mae hyn yn ymwneud ag ymddiriedaeth awdurdodau lleol. Yr oedd cynghorwyr yn falch o glywed am ddarparu'r arian ychwanegol hwnnw, ond, pan edrychasant y tu hwnt i'r broliant, ar y print mân, cawsant nad oedd cystal â'r hyn yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei honni. Yn raddol, mae ymddiriedaeth llywodraeth leol yn y Llywodraeth glymblaid yn cael ei herydu, gan ei bod yn gorganmol ac yn gor-ddweud, ac nid yw'n dweud y gwir wrth awdurdodau lleol.

Nid hwn yw'r tro cyntaf i'r setliad i lywodraeth leol fod mor wael. Ers sefydlu'r Cynulliad, mae cyllideb y Cynulliad wedi codi o £7 biliwn i fwy na £14 biliwn y flwyddyn. Felly, tra mae ein cyllideb ni wedi codi mwy na 100 y cant, mae cyllidebau awdurdodau lleol wedi cynyddu llai na 50 y cant. Dewis cyfyng sydd gan awdurdodau lleol, fel y dywedodd Steve Thomas o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru—rhaid iddynt gynyddu'r dreth gyngor neu dorri gwasanaethau. Pan ofynnwyd iddo yn y Pwyllgor Cyllid, cyfaddefodd y Gweinidog dros gyllid nad oedd ganddo gynlluniau pellach i alluogi awdurdodau lleol i sicrhau y gallent wneud arbedion pellach.

Alun Davies: Weithiau, pan drafodwn y materion hyn yn y Siambr, caf yr argraff ein bod yn trafod dwy gyllideb gwbl wahanol a dau setliad cwbl wahanol: un a ddarllenir mewn rhai lleoedd ac un arall a ddarllenir mewn manau eraill.

Yn gyffredinol, yr wyf yn croesawu'r setliad o'r diwedd. Mae'r terfyn isaf o 2 y cant a gyhoeddwyd ers y Nadolig yn rhywbeth y byddaf fi, fel un sy'n cynrychioli hanner Gwynedd a Phowys gyfan, yn ei groesawu. Yr wyf yn ei groesawu, a gobeithio y byddwn yn dal i fuddsoddi mewn llywodraeth leol, i sicrhau bod arweinwyr llywodraeth leol yn gallu cyflenwi'r gwasanaethau y mae arnom eu hangen. Yn wir, o ystyried y cyd-destun ariannol ac economaidd cyffredinol yr ydym yn gweithredu ynddo heddiw, mae'r 52 y cant o gynnydd mewn cyllid ers 1999 yn drawiadol. Mae'n gynnydd trawiadol o ran cymorth i lywodraeth leol a gwasanaethau lleol, a byddai'n well gennyf weld y Siambr gyfan yn gytûn ar hynny. Mae'n neilltuol o

cent cut in funding for local government and local services in the final four years of the last Conservative Government.

I have two points to make in this debate. First, I hope that the Minister will keep the formula under constant review. I know that there are meetings with local government to discuss and to continue debate about the nature of the formula, but I hope that there will be an opportunity to look again at how the formula operates. I well understand the different tensions and competing demands of different parts of the country. At different times, I will argue for particular recognition for the special place of authorities such as Powys, which serves a profoundly rural part of the country, while, at the same time, arguing for due recognition of the issues of poverty and deprivation that affect different parts of the Mid and West Wales region.

However, when all that is said and done, I believe that what we all have in common, across the parties, and representing different parts of Wales, is a desire to see fairness and equality in the delivery of public services for people in different communities, no matter where that community happens to be. I do not believe—and I am being generous here—that anyone will seriously argue that any part of a country should benefit, or have a special deal, at the expense of someone else's community or services. Therefore, we need to take a hard-headed view, and look at how we deliver public services and how we fund local government to do so.

Secondly, last week, we discussed at length how public services are delivered. The Minister for finance and the Minister for local government, at different points, have said that it is important to not simply talk about the amount of money, but to talk about the excellence of the service that is being delivered. Expenditure does not always equal excellence. It is a point that has been made in committee and in the Chamber, and I agree with it.

drawiadol o'i gymharu â'r toriad o 7 y cant yn y cyllid i lywodraeth leol ac i wasanaethau lleol ym mhedair blynedd olaf y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf.

Mae gennyf ddau bwynt i'w gwneud yn y ddadl hon. Yn gyntaf, gobeithio y bydd y Gweinidog yn cadw golwg ar y fformiwla yn barhaus. Gwn fod cyfarfodydd â llywodraeth leol i drafod ac i barhau â'r ddadl am natur y fformiwla, ond gobeithio y bydd cyfle i ailedrych ar sut y mae'r fformiwla'n gweithio. Yr wyf yn deall yn iawn y gwahanol densiynau a'r gofynion sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd sydd mewn gwahanol rannau o'r wlad. Ar wahanol adegau, dadleuaf o blaid rhoi cydnabyddiaeth benodol i'r lle arbennig sydd i awdurdodau fel Powys, sy'n gwasanaethu rhan o'r wlad sy'n wledig dros ben, gan ddadlau, ar yr un pryd, dros roi cydnabyddiaeth briodol i faterion sy'n ymwneud â thlodi ac amddifadedd sy'n effeithio ar wahanol rannau o ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fodd bynnag, wedi dweud hynny i gyd, credaf mai'r hyn sydd gan bob un ohonom yn gyffredin, yn yr holl bleidiau, ac ymhlith y rhai sy'n cynrychioli gwahanol rannau o Gymru, yw awydd i weld tegwch a chydaddoldeb wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl mewn gwahanol gymunedau, ym mha le bynnag y mae'r cymunedau hynny. Nid wyf yn credu—ac yr wyf yn haelfrydig yn hyn o beth—y bydd neb yn dadlau o ddifrif y dylai dim un rhan o wlad gael mantais, neu gael bargaen arbennig, ar draul cymuned neu wasanaethau rhywun arall. Felly, mae angen inni fod yn graff, ac ystyried sut yr ydym yn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a sut yr ydym yn ariannu llywodraeth leol i wneud hynny.

Yn ail, yr wythnos diwethaf, cawsom drafodaeth hir ynghylch sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi. Mae'r Gweinidog dros gyllid a'r Gweinidog dros lywodraeth leol, ar wahanol adegau, wedi dweud ei bod yn bwysig sôn nid yn unig am y swm o arian ond hefyd am ragoriaeth y gwasanaeth a gyflenwir. Nid yw gwariant yn cyfateb i ragoriaeth bob tro. Mae'n bwynt a wnaethpwyd yn y pwyllgor ac yn y Siambr, ac yr wyf yn cytuno â hynny.

4.50 p.m.

I was interested to read over the weekend that Mike German, the Liberal Democrat leader, has called on his party to learn to love the postcode lottery—I think that that is what it said. If you are delivering services locally, you will have differences in priority according to the needs of individual communities. That means that money will be spent in different ways and it is no longer good enough, or no longer a contribution to a serious debate, to say to people, ‘They spend more here on different subjects or issues, therefore, in some ways, we are being badly treated’—

Jenny Randerson: Will you take an intervention?

Alun Davies: May I just finish the sentence? I welcome that statement and I hope that it will affect the rhetoric that we hear too often from Liberal Democrats in different parts of Wales. I also hope that it will help guide a different, more mature debate on the delivery of public services.

Jenny Randerson: I am very pleased to hear your comments and that is why I leapt up with such alacrity to support them. As a Welsh Liberal Democrat, I am keen on the idea of local decision-making. Therefore, I wonder how you feel about the comments made by your colleague, Ann Jones, who wants very much more ring-fencing of funding for local authorities. As you will understand, that ring-fencing will of course reduce their ability to make the local decisions that you have just been applauding.

Alun Davies: I will come to that in a moment and I am afraid that I will probably break Ann’s heart when I do so.

Minister, my point is that, over the coming year, as you review the formula and how local government is delivering public services, and as the Beecham process beds down and is delivered, I want you to look at how we can strengthen local government and

Yr oedd o ddiddordeb imi ddarllen dros y penwythnos fod Mike German, arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, wedi galw ar ei blaidd i ddechrau ymhoffi yn y loteri cod post—credaf mai hynny a ddywedwyd. Os ydych yn cyflenwi gwasanaethau’n lleol, cewch wahaniaethau o ran blaenoriaeth yn ôl anghenion cymunedau penodol. Mae hynny’n golygu y caiff arian ei wario mewn gwahanol ffyrdd ac nad yw bellach yn briodol dweud wrth bobl, neu ddweud mewn dadl sydd o ddifrif, ‘Maent yn gwario mwy yma ar wahanol bynciau neu faterion, felly, ar ryw ystyr, yr ydym yn cael cam’—

Jenny Randerson: A wnewch dderbyn ymyriad?

Alun Davies: A gaf orffen y frawddeg? Yr wyf yn croesawu’r datganiad hwnnw ac yr wyf yn gobeithio y bydd yn effeithio ar y rhethreg a glywn yn rhy aml gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol mewn gwahanol rannau o Gymru. Yr wyf yn gobeithio hefyd y bydd yn helpu i lywio dadl wahanol, fwy aeddfed am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Jenny Randerson: Yr wyf yn falch iawn o glywed eich sylwadau a dyna pam y codais ar fy nhraed yn ddiymdroi i’w cefnogi. Fel un o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, yr wyf yn frwd iawn dros y syniad o benderfynu’n lleol. Felly, yr wyf yn meddwl tybed sut yr ydych yn teimlo ynghylch y sylwadau a wnaeth eich cyd-Aelod, Ann Jones, sydd am weld llawer mwy o neilltuo ar gyllid i awdurdodau lleol. Fel y byddwch yn sylweddoli, bydd neilltuo o’r fath yn sicr o leihau eu gallu i wneud y penderfyniadau lleol yr ydych newydd eu canmol.

Alun Davies: Deuaf at hynny mewn eiliad ac mae arnaf ofn y byddaf yn torri calon Ann, yn ôl pob tebyg, pan wnaaf hynny.

Weinidog, y pwynt sydd gennyf yw fy mod am eich gweld yn ystyried, dros y flwyddyn nesaf, wrth ichi adolygu’r fformiwla a sut y mae llywodraeth leol yn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, ac wrth i broses Beecham gael ei thraed dani a dwyn ffrwyth,

local democracy and how we can enable local government to deliver more and better services. This is the point at which Ann leaves the Chamber in tears: I would like to see less hypothecation and less instruction from the centre.

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you wind up now?

Alun Davies: In its place, I would like to see a true partnership where local creativity and local initiatives have the opportunity and freedom to deliver for local services and where the Government ensures that everybody receives a minimum and does not seek to micromanage—

The Deputy Presiding Officer: Order. I now call Dai Lloyd.

David Lloyd: Yr wyf yn falch o'r cyfle i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon ar y setliad i lywodraeth leol. Nid wyf am ailadrodd y pwyntiau sydd wedi eu crybwyll eisoes. Nid wyf ond am nodi, gyda balchder, fod y Gweinidog wedi symud rhywfaint rhwng y gyllideb ddrafft a'r setliad terfynol sydd o'n blaenau. Yn benodol, yr wyf yn croesawu'r ffaith bod mecanwaith y llawr yn dod i rym, gan osod isafswm o 2 y cant o gynnydd i siroedd. Wedi dweud hynny, rhaid cydnabod bod y setliad hwn yn un tynn iawn, fel y mae nifer o siaradwyr wedi crybwyll eisoes. Wrth gwrs, y prif reswm am hynny yw'r ffordd mae Cymru'n cael ei hariannu yn y lle cyntaf.

The big picture in this context is the Barnett formula. In Wales, we know our place and we are meant to be grateful for the block allocation that we get; however, as I lapse into a Shakespearian lilt for a moment, the quality of that gratitude is a little strained by the continued absence of a needs-based formula. Not only that, but the quality of our gratitude is strained by the English NHS underspend, which means that we are losing £200 million in Wales, and is further strained by the Olympic Games causing a haemorrhage of our funding and by the £25 billion, and growing, that has been pledged to a private banking business in the north of England over a few days. The perceptive

sut y gallwn gryfhau llywodraeth leol a democratiaeth leol a sut y gallwn alluogi llywodraeth leol i gyflenwi mwy o wasanaethau a rhai gwell. Dyma pryd y bydd Ann yn gadael y Siambr dan wylo: hoffwn weld llai o neilltuo a llai o gyfarwyddo o'r canol.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch orffen yn awr?

Alun Davies: Yn lle hynny, carwn weld gwir bartneriaeth lle y bydd creadigrwydd lleol a mentrau lleol yn cael cyfle a rhyddid i ddarparu gwasanaethau lleol a lle y bydd y Llywodraeth yn sicrhau y bydd pawb yn cael lleiafswm a lle na fydd yn ceisio microreoli—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Galwaf ar Dai Lloyd yn awr.

David Lloyd: I am pleased to be able to participate in this important debate on the local government settlement. I will not rehearse the points already made. I only want to note, with pride, that the Minister has moved a little between the draft budget and the final settlement that we have before us today. Specifically, I welcome the fact that the floor mechanism has been implemented, setting a minimum increase of 2 per cent for counties. Having said that, one must acknowledge that this is a very tight settlement, as a number of speakers have already said. The main reason for that, of course, is the way in which Wales is financed in the first place.

Y cyd-destun ehangach yn hyn o beth yw fformiwla Barnett. Yng Nghymru, yr ydym yn gwybod ein lle ac yr ydym i fod yn ddiolchgar am y dyraniad bloc a gawn; fodd bynnag, wrth imi lafarganu yn arddull Shakespeare am eiliad, mae tipyn bach o straen ar ansawdd y diolchgarwch hwnnw am na chafwyd byth fformiwla sydd wedi'i seilio ar anghenion. Ar ben hynny, mae straen ar ansawdd ein diolchgarwch oherwydd tanwariant y GIG yn Lloegr, sy'n golygu ein bod yn colli £200 miliwn yng Nghymru, ac mae straen arno hefyd oherwydd bod y Gemau Olympaidd yn peri inni golli cyllid ac oherwydd y £25 biliwn, a'r swm hwnnw'n dal i gynyddu, sydd wedi'i addo i fusnes

among you will have noticed that that allocation is significantly more than the total allocation for Wales in a complete calendar year. So, we need to set aside the bickering and the squabbling about the details of how we cut up our cake, because we really need to concentrate on how big that cake is in the first place. In reality, the continuing fiscal injustice of an outdated Barnett formula continues to short change our nation.

Nick Bourne: I very much enjoyed that contribution from the Government side in support of the Government budget; it was instructive. There has been an improvement in the settlement for local government. That is undeniable. However, let us also be realistic. For once, I agree with Alun Davies that we seem to be discussing different budgets. This is still a very poor settlement for local government. We cannot seriously suggest that a settlement that is below the rate of inflation when averaged out across Wales is good for local government; it clearly is not. As Nick Ramsay quite rightly said, when you look at the growth of the budget over the years—and there has been growth—the growth of the local government budget has lagged well behind that in other areas. It always seems to be poor relation when it comes to the settlement. This is, by some measure, the worst budget for local government since the inception of the Assembly.

We talk about it being a tight financial situation, but I agreed with one point made by Dai Lloyd—and perhaps this is why it is tight—that we know now that the Government will put up to £60 billion into Northern Rock. That is a massive amount of money. When we are talking about an increase of £4.7 million—although Jenny Randerson is right to say that it is not £4.7 million when you look at the figures—there is no real comparison between those figures.

There was also talk from some Labour Members—and it is good to see that they cannot even agree with each other now, let alone their partners in Government—about local democracy. If Alun Davies's view

bancio preifat yng ngogledd Lloegr dros ychydig ddyddiau. Bydd y rhai craff yn eich mysg wedi sylwi bod y dyraniad hwnnw'n fwy o lawer na chyfanswm y dyraniad i Gymru mewn blwyddyn galendr gyfan. Felly, mae angen inni roi heibio'r cweryla a'r ymgecru ynghylch sut yn union yr ydym yn torri'r deisen, gan fod gwir angen inni ganolbwyntio ar faint y deisen honno yn y lle cyntaf. Mewn gwirionedd, mae'r anghyfiawnder sy'n parhau o ran cyllid oherwydd y fformiwla Barnett hen-ffasiwn yn dal i wneud cam â'n cenedl.

Nick Bourne: Mwynheais yn fawr y cyfraniad hwnnw o ochr y Llywodraeth o blaid cyllideb y Llywodraeth; yr oedd yn addysgiadol. Mae'r setliad i lywodraeth leol wedi gwella. Ni ellir gwadu hynny. Fodd bynnag, gadewch inni hefyd fod yn realistig. Am unwaith, cytunaf ag Alun Davies ei bod yn ymddangos ein bod yn trafod cyllidebau gwahanol. Mae hwn yn dal yn setliad gwael iawn i lywodraeth leol. Ni allwn awgrymu o ddifrif fod setliad sydd, ar gyfartaledd drwy Gymru, yn is na graddfa chwyddiant yn un sy'n dda i lywodraeth leol; mae'n amlwg nad ydyw. Fel y dywedodd Nick Ramsay, os edrychwch ar dwf y gyllideb dros y blynyddoedd—a bu twf—gwelwch fod twf cyllideb llywodraeth leol yn llai o lawer na'r twf mewn meysydd eraill. Mae bob amser yn ymddangos yn berthynas dlawd pan ddaw'n adeg y setliad. Hon yw'r gyllideb waethaf i lywodraeth leol o bellffordd ers sefydlu'r Cynulliad.

Soniwn am y sefyllfa fel un sy'n dynn yn ariannol, ond yr oeddwn yn cytuno ag un pwynt a wnaeth Dai Lloyd—a dyma pam y mae'n dynn efallai—sef ein bod yn gwybod yn awr y bydd y Llywodraeth yn rhoi hyd at £60 biliwn i Northern Rock. Mae hwnnw'n swm anferth. A ninnau'n sôn am gynnydd o £4.7 miliwn—er bod Jenny Randerson yn iawn wrth ddweud nad ydyw'n £4.7 miliwn wedi ystyried y ffigurau—mae byd o wahaniaeth rhwng y ffigurau hynny.

Yr oedd sôn hefyd gan rai Aelodau Llafur—ac mae'n dda gweld na allant gytuno â'i gilydd hyd yn oed yn awr, heb sôn am eu partneriaid yn y Llywodraeth—am ddemocratiaeth leol. Os yw barn Alun Davies

about local democracy is right, then capping does not seem terribly democratic. That is taking a decision away from local government. The Minister obviously anticipates that he needs to issue this threat now because he fears, quite rightly given this poor settlement, that the increases could well be beyond that. However, by bringing in that threat of capping, he has ensured—and once again, Nick Ramsay was absolutely right on this—that we are much more likely to see cuts rather than the increase that we would otherwise have seen with a retention of the level of service that local government would like to provide.

Therefore, the WLGA is right to say that this is Hobson's choice; many local authorities will now have no option but to cut the services that they provide. Many areas, such as Powys and Gwynedd, still have a poor settlement. It is slightly better than it was—and any increase is welcome—but it is very much on the basis that we now have half a loaf rather than two or three slices, because this certainly is not a good budget for local government generally. It is a poor budget for much of Wales, because we will now be faced with cuts in services across the whole of Wales. Of that, there can be no doubt.

Peter Black: Some interesting phrases are being used in this debate, particularly from the Government side; we have heard the phrase 'tight settlement' on a number of occasions, and we also heard Dai Lloyd talking once more about the Barnett formula and how the amount of money coming to Wales has impacted on the Assembly Government's ability to deliver for local government. I will not argue that Dai Lloyd does not have a point, because he does.

However, the bottom line is not necessarily that the Assembly Government has had a tight settlement or that it has been short-changed yet again by the evil Westminster Labour Government. The bottom line is that the Assembly Government is giving local councils an increase of 2.4 per cent, on average, when the rate of inflation is 2.7 per cent—over 4 per cent if you go with the retail

am ddemocratiaeth leol yn gywir, yna nid yw capio'n ymddangos yn ofnadwy o ddemocrataidd. Mae hynny'n golygu mynd â'r penderfyniad oddi ar lywodraeth leol. Mae'n amlwg bod y Gweinidog yn rhagweld bod angen iddo roi'r bygythiad hwn yn awr gan ei fod yn ofni, a hynny'n gwbl gywir o ystyried y setliad gwael hwn, ei bod yn ddigon posibl y gallai'r cynnydd fod yn fwy na hynny. Fodd bynnag, drwy gyflwyno'r bygythiad hwnnw i gapio, mae wedi sicrhau—ac unwaith eto, yr oedd Nick Ramsay yn llygad ei le ynghylch hyn—ei bod yn llawer mwy tebygol y gwelwn doriadau yn hytrach na'r cynnydd y byddem wedi'i weld fel arall o gadw'r lefel o wasanaeth yr hoffai llywodraeth leol ei darparu.

Felly, mae CLILC yn iawn wrth ddweud mai dewis cyfyng yw hwn; ni fydd dewis gan lawer o awdurdodau lleol yn awr ond torri'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae'r setliad ar gyfer llawer o ardaloedd, fel Powys a Gwynedd, yn dal yn wael. Mae'n well nag a oedd o ychydig—ac mae unrhyw gynnydd i'w groesawu—ond mae hynny ar y sail bod gennym hanner torth yn awr yn hytrach na dwy neu dair tafell, gan ei bod yn sicr nad yw hon yn gyllideb dda i lywodraeth leol yn gyffredinol. Mae'n gyllideb wael i lawer rhan o Gymru, gan y byddwn yn awr yn wynebu toriadau mewn gwasanaethau ledled Cymru. Gellir bod yn sicr o hynny.

Peter Black: Mae rhai ymadroddion diddorol yn cael eu defnyddio yn y ddatl hon, yn enwedig gan ochr y Llywodraeth; yr ydym wedi clywed yr ymadrodd 'setliad tynn' nifer o weithiau, a chlywsom Dai Lloyd hefyd yn sôn unwaith eto am fformiwla Barnett ac am sut y mae'r swm o arian sy'n dod i Gymru wedi effeithio ar allu Llywodraeth y Cynulliad i wneud ei rhan dros lywodraeth leol. Ni ddadleuaf nad oes gwir yn y pwynt a wnaeth Dai Lloyd.

Fodd bynnag, nid diwedd y gân o reidrwydd yw bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cael setliad tynn neu ei bod wedi cael cam unwaith eto gan y Llywodraeth Lafur ddrwg yn San Steffan. Diwedd y gân yw bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cynnydd o 2.4 y cant i gynghorau lleol, ar gyfartaledd, a chyfradd chwyddiant yn 2.7 y cant—dros 4 y cant os dilynir y mynegai prisiau manwerthu.

price index. Yet, the Assembly Government itself has had a 3.4 per cent increase, but it has not passed that on to local government. In those circumstances, with local government getting less than the rate of inflation and a settlement that is lower than that which the Assembly Government received from Westminster, local councillors and local council leaders are perfectly justified in feeling aggrieved at the way in which they have been treated by the Assembly Government.

We have heard about efficiency savings and, particularly from the Minister for Finance and Public Service Delivery, a new way of doing things. However, that is the same sort of rhetoric that we have heard for many years. Local councils have been implementing efficiency savings for a number of years—certainly for the life of the previous Assembly—where they had to knock 1 per cent off their budgets on a year-by-year basis, and put efficiency measures in place. It is getting to the point where it will be very difficult, in the short term, to do any more than that. There is a lot more that can be done—they can work with other local councils, they can work in partnership, and share back-office systems—but those are long-term measures that will not deliver in the next financial year; they will be delivered over a number of years and that is another reason why local council leaders feel aggrieved by the settlement.

5.00 p.m.

In fact, we are suffering a little from *déjà vu*. I was a councillor during the bad old days of the last Conservative Government, when we had some really poor local government settlements. At one stage, schools had to effectively fund from their own savings a certain percentage of teachers' pay increases, because local councils did not have the money to be passed on to those schools. We are back here again, with local government being given 2.4 per cent. People talk a lot about the bad old days of the Conservatives, but it now looks as though we are going back to the same old tactics and are hearing the Government effectively saying, 'We are

Ac eto, cafodd Llywodraeth y Cynulliad ei hun gynnydd o 3.4 y cant, ond nid yw wedi trosglwyddo hwnnw i lywodraeth leol. Dan yr amgylchiadau hynny, a llywodraeth leol yn cael llai na chyfradd chwyddiant a setliad sy'n is na hwnnw a gafodd Llywodraeth y Cynulliad gan San Steffan, mae'n berffaith deg i gynghorwyr lleol ac arweinwyr cynghorau lleol deimlo eu bod wedi cael cam gan Lywodraeth y Cynulliad.

Yr ydym wedi clywed am arbedion drwy wella effeithlonrwydd, ac yn enwedig gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, am ddull newydd o weithredu. Fodd bynnag, dyna'r un math o rethreg ag yr ydym wedi'i chlywed ers blynyddoedd lawer. Mae cynghorau lleol wedi bod yn gwneud arbedion drwy wella effeithlonrwydd ers rhai blynyddoedd—ar hyd oes y Cynulliad blaenorol yn sicr—lle'r oeddent yn gorfod torri 1 y cant oddi ar eu cyllidebau rhwng o'r naill flwyddyn i'r llall, a rhoi mesurau effeithlonrwydd ar waith. Cyn hir, bydd yn anodd iawn gwneud dim mwy na hynny, yn y tymor byr. Mae llawer mwy y gellir ei wneud—gallant gydweithio â chynghorau eraill, gallant weithio mewn partneriaeth, a rhannu systemau cefn swyddfa—ond mesurau hirdymor yw'r rheini na fyddant yn dwyn ffrwyth yn y flwyddyn ariannol nesaf; fe'u cyflawnir dros nifer o flynyddoedd a dyna reswm arall sydd gan arweinwyr cynghorau lleol dros deimlo eu bod yn cael cam oherwydd y setliad.

Mewn gwirionedd, yr ydym yn dioddef ychydig o *déjà vu* yma. Yr oeddwn yn gynghorydd yn ystod dyddiau tywyll y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf, pan gawsom rai setliadau gwirioneddol wael i lywodraeth leol. Bu'n rhaid i ysgolion, ar un adeg, dalu rhyw ganran o'r cynnydd yng nghyflogau athrawon o'u cynilion eu hunain i bob pwrpas, gan nad oedd gan gynghorau lleol arian i'w drosglwyddo i'r ysgolion hynny. Eto i gyd, yr ydym yn ôl yn yr un sefyllfa, a llywodraeth leol yn cael 2.4 y cant. Mae pobl yn sôn llawer am ddyddiau tywyll y Ceidwadwyr, ond mae'n ymddangos yn awr ein bod yn mynd yn ôl at yr un hen

giving local councils a really good settlement', and local councils reply with, 'But we cannot manage with that money because of all the extra responsibilities that you have given us and because of all the money that we have to spend on delivering the services that have to be delivered to people in our area'. Therefore, we are going back to that ping-pong blame game, which, in this instance, is between the Welsh Assembly Government and local councils. It is clear from the figures that I mentioned that the ball is clearly in the Welsh Assembly Government's court as to where responsibility lies for the poor settlement; it has failed to pass on the money that it has had to local councils.

I have also heard talk about reviewing the formula. Yes, we can review the formula, but, at the end of the day, you have a single quantum of money, and if you give more money to one local council, you will have less money for other local councils. It is like rearranging the deckchairs on the Titanic. The formula may always be under review, but, if you want to deal fairly with local councils, we have to ensure that they have sufficient resources to deliver the services that they have a statutory duty to deliver.

Jenny Randerson referred to Steve Thomas from the Welsh Local Government Association, who said that councils will have to make a Hobson's choice between putting up council tax and cutting back on services. The choice for local authorities really is that stark. They are being capped at 5 per cent; they will not be able to put their council tax up. The only option that they have is to cut services, and we are getting to the point where those cuts and efficiency savings will hit front-line services. When that happens, I am sure that people, when they go to vote on 1 May, will understand that the responsibility for those cuts in front-line services lies squarely with this Welsh Assembly Government. The facts and the figures will prove that to be the case.

Joyce Watson: It is interesting to hear all of the comments that have come from the opposition parties today, but the comment

dactegau ac yn clywed y Llywodraeth i bob pwrpas yn dweud, 'Yr ydym yn rhoi setliad gwirioneddol dda i gynghorau lleol', ac mae'r cynghorau lleol yn ateb drwy ddweud, 'Ond mae arnom angen mwy o arian na hynny oherwydd yr holl gyfrifoldebau ychwanegol yr ydych wedi'u rhoi inni a chan ein bod yn gorfod gwario cymaint o arian er mwyn cyflenwi gwasanaethau i bobl yn ein hardal'. O ganlyniad, yr ydym yn mynd yn ôl at y gêm ping-pong honno, rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn yr achos hwn, a chynghorau lleol, lle y mae'r naill yn beio'r llall. Mae'n amlwg yn ôl y ffigurau y soniais amdanynt mai Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am y setliad gwael; nid yw wedi trosglwyddo'r arian y mae wedi'i gael i gynghorau lleol.

Yr wyf wedi clywed sôn hefyd am adolygu'r fformiwla. Gallwn, gallwn adolygu'r fformiwla, ond, yn y pen draw, mae gennych un swm o arian, ac os ydych yn rhoi mwy o arian i un cyngor lleol, bydd gennych lai o arian ar gyfer cynghorau lleol eraill. Mae fel ailosod y cadeiriau ar fwrdd y Titanic. Mae'r fformiwla'n cael ei hadolygu o hyd, ond, os ydych am fod yn deg â chynghorau lleol, rhaid inni sicrhau eu bod yn cael digon o adnoddau i gyflenwi'r gwasanaethau y mae ganddynt ddyletswydd statudol i'w cyflenwi.

